

HWYADEN YR EITHIN (Shelduck)

(*Tadorna tadorna*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae hwyaid yr eithin wedi eu dosbarthu'n eang o Wlad yr Iâ i Ddwyrain Asia. Maent yn byw ar lannau mwdlyd rhynglanwol, aberoedd hallt, a safleoedd dwr croyw fwyfwy hefyd i ffwrdd o'r arfordir agored, gan ddefnyddio tyllau cwningod neu geudodau fel safleoedd nythu. Yng Nghymru, mae'r rhywogaeth yn fridiwr cyffredin yn lleol, yn ymwelydd gaeaf eang ac yn fewnfudwr blynyddol prin i'r tir. Mae dosbarthiad hwyaid yr eithin dros y gaeaf yng Nghymru'n debyg i ddsbarthiad y boblogaeth sy'n bridio. Y safleoedd pwysicaf yw Aber Afon Dyfrdwy, Aber Hafren a Chilfach Tywyn lle mae hwyaid yr eithin yn nodwedd AGA cymwys.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae hwyaden yr eithin wedi symud o ambr i goch ar y rhestr o Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4), oherwydd bod ei phoblogaeth fridio wedi gostwng o 50% o leiaf dros dymor hwy ac oherwydd bod gan Gymru o leiaf 2% o boblogaeth llwybrau hedfan Ewrop. Mae wedi'i rhestru'n ambr yn y DU (BoCC5) oherwydd dirywiad cymedrol mewn bridio ac aros dros y gaeaf a lleoliad y boblogaeth sy'n bwrw'r gaeaf. Mae yn y categori o bryder lleiaf ar restrau cochion IUCN Ewropeaidd a byd-eang.

mai poblogaeth fridio Cymru o hwyaid yr eithin yw 1,250 (750 - 2,250) o barau yn 2016, tua 16% o gyfanswm Prydain yn fras.

oes llawer o wybodaeth am effeithiau Ffliw Adar ar hwyaid yr eithin a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar niferoedd bridio a bwrw'r gaeaf yn ddiweddar.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae patrwm hirdymor y nifer o hwyaid yr eithin yng Nghymru'n gymhleth oherwydd bod yr ystodau bridio a bwrw'r gaeaf yn gorgyffwrdd. Mae mynegeion Arolwg Adar Gwlyptir (WeBS) Cymru yn dangos cynnydd sylweddol o ddiwedd y 1960au i ddechrau'r 1990au, ond ers hynny mae'r mynegeion wedi gostwng. Cafodd rhybudd WeBS canolig ei gyhoeddi ar gyfer Aber Afon Dyfrdwy oherwydd gostyngiad o 27% dros 25 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn gwrth-ddweud arsylwadau hirdymor eraill gerllaw, gan ddangos y cymhlethdod a'r angen i fonitro poblogaethau ar gyfer y rhywogaeth hon. Oherwydd gwahanol leoliadau arolygon ac amserlenni, yn ogystal â chyfran anhysbys o unigolion sy'n bridio'n lleol ac nad ydynt yn bridio'n lleol, nid oes darlun clir ar hyn o bryd o statws poblogaeth hwyaid yr eithin sy'n bridio yng Nghymru.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae hwyaid yr eithin yn agored i amrywiaeth o bethau allai bwysu arnynt, fel colli cynefin fforio o ganlyniad i ddatblygiad arfordirol ac aflonyddwch o weithgareddau hamdden pobl a'u gweithgareddau eraill. Maent mewn perygl arbennig yn ystod cyfnodau bwrw plu pan fydd cynullïadau i'w cael o unigolion sy'n methu hedfan, neu sydd bron yn methu hedfan.

Er bod cyfran fawr o hwyaid yr eithin yng Nghymru wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwarchoddedig (Aber Afon Dyfrdwy, Aber Hafren, Cilfach Tywyn) maen nhw'n debygol iawn o orgyffwrdd â gweithgarwch dynol am fod eu safleoedd nythu, safleoedd bwrw plu a'u cynefin fforio'n agos at seilwaith arfordirol.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd Llongau a charthu (R) (A)



Olew a Nwy (A)



Pysgota (A)



Hamdden (R)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Ar hyn o bryd mae hwyaden yr eithin wedi'i rhestru'n goch yng Nghymru, oherwydd bod y boblogaeth fridio'n gostwng yn sylweddol, ac oherwydd bod gan Gymru o leiaf 2% o boblogaeth llwybrau hedfan Gogledd-orllewin Ewrop. Er nad yw'n hysbys a yw Ffliw Adar wedi effeithio ar boblogaethau o hwyaid yr eithin, nid yw hyn wedi'i feintoli ar raddfa Cymru na'r DU.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau hwyaid yr eithin yng Nghymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a hefyd y newid yn yr hinsawdd.

Diffyg bwyd

Rhaid i hwyaid yr eithin gael cynefin fforio o gynhyrchiant biolegol uchel. Yng ngogledd-orllewin Ewrop, mae'r rhywogaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar falwod llaid, ynghyd â molysgiaid eraill a chramenogion bach sy'n cael eu "gogru" o wyneb y mwd. Gallai colli cynefin fforio oherwydd datblygiadau arfordirol, gan gynnwys morlynnoedd a morgloddiau llanw, neu newidiadau yn ansawdd ac argaeledd eu hysglyfaeth oherwydd newid yn yr hinsawdd beri i boblogaethau sy'n bridio ac yn bwrw'r gaeaf yng Nghymru ostwng.

Hela nythod

Mae llwyddiant atgenhedlu hwyaid yr eithin yn gyffredinol isel, yn bennaf oherwydd lefelau uchel o ysglyfaethu hwyaid gan famaliaid ac adar. Gall effeithiau mincod Americanaidd, sy'n ysglyfaethwr anffodorol, ar adar sy'n nythu ar y ddaear mewn cynefinoedd arfordirol a morol fod yn ddifrifol iawn.

Aflonyddwch dynol

Mae hwyaid yr eithin yn agored i aflonyddwch dynol (e.e. pobl yn mynd â chwn am dro, chwaraeon dwr), a allai arwain at lai o weithgaredd fforio a dadleoli o'u cynefinoedd fforio a chlwydo. Gall aflonyddwch dynol hefyd gynyddu'r risg y bydd eu cywion yn cael eu hysglyfaethu. Gall safleoedd nythu hwyaid yr eithin fod hyd at 1 km i ffwrdd o gynefin fforio addas, felly gall hwyaid fod yn agored i lawer o rwystrau o waith dyn (ffyrdd, ffensys) ar eu ffordd o'r nyth i ddiogelwch cymharol y dwr. Yn ystod cyfnodau o fwrw plu, nid yw hwyaid yr eithin yn gallu hedfan ac felly ni allant symud i ffwrdd oddi wrth ffynonellau aflonyddwch.

Colli cynefinoedd

Gall erydiad arfordirol a chynnydd yn lefel y môr a yrrir gan newid yn yr hinsawdd arwain at golli cynefin chwilota a nythu ar gyfer y rhywogaeth hon.

Bylchau yn y dystiolaeth

♦ Llwybrau mudo a phatrymau tymhorol, gan gynnwys mudo i fwrw plu. Nid yw'n glir faint o adar sy'n bwrw eu plu sydd i'w cael yng Nghymru gan fod heidiau mawr o adar sy'n bwrw eu plu ar aberoedd y Mersi a'r Hafren, y tu allan i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o hwyaid yr eithin Prydain yn bwrw eu plu yn yr Iseldiroedd; lle mae'n hysbys fod yno adar bridio o Gymru yn bwrw eu plu.

♦ Ffactorau sy'n cyfyngu ar niferoedd bridio a bwrw'r gaeaf gan gynnwys effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, yn enwedig ar ysglyfaeth allweddol y rhywogaeth hon.

Cyfleoedd

♦ Dadansoddiad o ddefnydd gofodol ac amserol hwyaid yr eithin ar hyd yr arfordir ac yn y mewndir, e.e. trwy farcio lliw neu delemetreg, i ddeall cysylltedd poblogaeth a rhyngweithio â gweithgareddau dynol, yn enwedig ar gyfnodau allweddol fel yn ystod y bwrw plu ar ôl bridio.

♦ Dealltwriaeth well o faint presennol ysglyfaethu nythod a datblygu mesurau i leihau'r effaith hon.

♦ Modelu effeithiau newid yn yr hinsawdd ar *Hydrobia ulvae*, y falwen fach sy'n eitem ysglyfaeth allweddol i hwyaid yr eithin.

♦ Ystyried mesurau lliniaru ar gyfer aflonyddwch sy'n gysylltiedig â phobl a mynediad cyhoeddus i safleoedd nythu.

HWYADEN FWYTHBLU (Common Eider)

(*Somateria mollissima*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae'r hwyaden fwythblu yn ymwelydd rheolaidd â dyfroedd arfordirol Cymru yn y gaeaf (Cilfach Tywyn yn bennaf, ac arfordir Gwynedd o Fae Tremadog tua'r de). Mae bridio lleol yn digwydd yng Ngogledd Cymru, ar Ynys Seiriol ac o amgylch arfordir Gwynedd. Arfordir Gwynedd yw'r lleoliad bridio rheolaidd mwyaf deheuol i hwyaid fwythblu ym Mhrydain ac Iwerddon.

Mae cofnodion mewndirol o'r hwyaid mwythblu yng Nghymru yn brin.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r hwyaid mwythblu wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac yn y DU (BoCC5). Mae'r rhywogaeth wedi'i rhestru'n ambr yng Nghymru oherwydd maint bychan y boblogaeth fridio leol (dim mwy nag ugain pâr). Mae'r rhywogaeth wedi diflannu o'r rhan fwyaf o dde Lloegr. Mae'r boblogaeth sy'n bwrw'r gaeaf wedi gostwng ledled y DU, er bod adferiad wedi'i gofnodi yng Nghymru gyda niferoedd yn agos at lefelau 1990.

Er mai hwyaid mwythblu yw'r rhywogaeth hwyaid môr mwyaf eang yn Ewrop, mae'r hwyaden hon wedi ei chategoreiddio fel aderyn sy'n agored i niwed ac sydd bron mewn perygl ar restrau cochion IUCN Ewropeaidd a byd-eang, yn y drefn honno, oherwydd gostyngiad yn y nifer sy'n bridio, yn enwedig yn ne Lloegr a Ffrainc.

Nid yw effeithiau'r achosion diweddar o Ffliw Adar Hynod Bathogenig (HPAI) ar y boblogaeth hwyaid mwythblu yng Nghymru a'r DU yn hysbys.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Arhosodd y niferoedd o hwyaid mwythblu sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru yn isel yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif, ond o 1950 bu cynnydd amlwg, gydag uchafbwyntiau cymedrig y gaeaf yng Nghilfach Tywyn, Gwyr/Sir Gaerfyrddin, yn cyrraedd 140 o adar erbyn yr 1980au. Gostyngodd y niferoedd yn sydyn yn y 1990au cynnar a'r cyfrifiad WeBS cymedrig 5 mlynedd rhwng 2013/14 a 2018/19 oedd 66 o adar. Cyhoeddwyd Rhybudd Uchel WeBS yn dilyn dirywiad tymor hir o 63% a 61% yn y tymor byr.

Y cofnod bridio cyntaf a gadarnhawyd o hwyaid mwythblu yng Nghymru oedd ym mis Mai 1997 ar Ynys Seiriol, Ynys Môn, sy'n dal i fod yn safle bridio rheolaidd. Ers 2000, mae hwyaid mwythblu wedi bridio'n rheolaidd ger Llandygai, Gwynedd, a'r nifer uchaf a gafwyd ar y safle oedd o leiaf pum menyw gyda'u cywion yn 2014. Efallai hefyd bod yr hwyaid mwythblu'n bridio o fewn Aber yr Afon Mawddach ac o amgylch Penrhyn Llŷn.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Cilfach Tywyn, Gwyr, yw'r safle pwysicaf ar gyfer hwyaid mwythblu sy'n treulio'r gaeaf yng Nghymru, ac yna arfordir Gwynedd o Aberdysynni i Langelynin, lle cyfrifiwyd mwy na 150 o adar mewn sawl blwyddyn ers 1973. Roedd Bae Tremadog, Gwynedd, hefyd yn cefnogi 150 o hwyaid mwythblu ym mis Mai 2002. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw SoDdGA neu AGA wedi'u dynodi ar gyfer hwyaid mwythblu.


Fel rhywogaeth sy'n fforio o fewn dwr y môr ac sy'n ffafrio dyfroedd bas o lai na 10m o ddyfnder, mae'r hwyaid mwythblu'n arbennig o agored i aflonyddwch a dadleoli a achosir gan draffig llongau a datblygiadau seilwaith morol.

Mae presenoldeb rheolaidd pobl â chwn mewn safleoedd nythu yn risg i'r rhywogaeth hon sy'n nythu ar y ddaear.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Mae'r niferoedd o hwyaid mwythblu sy'n treulio'r gaeaf yn nyfroedd Cymru yn dirywio i raddau mwy nag ar draws y DU, tra bod cofnodion bridio yng Nghymru yn lleol iawn ac yn gyffredinol isel (dim mwy nag 20 o barau ar hyn o bryd). Mae'n bwysig nodi bod hwyaid mwythblu sy'n bridio yng Nghymru ar derfyn dosbarthu mwyaf deheuol y rhywogaeth hon ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae bridio ar arfordir de Lloegr wedi dod i ben. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr amrediad bridio wedi tynnu'n ôl i'r gogledd ac mae'r rhywogaeth wedi mynd o'r rhan fwyaf o'i hardal fridio yn Ffrainc.

Sensitivity score: **Red**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau hwyaid mwythblu yng Nghymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a hefyd y newid yn yr hinsawdd.

Newid hinsawdd

Efallai mai argaeledd bwyd benthig mewn dwr bas yw'r ffactor pwysicaf sy'n llywodraethu nifer yr hwyaid mwythblu. Mae dosbarthiad a digonedd yr hwyaid mwythblu sy'n treulio'r gaeaf yn gysylltiedig â phresenoldeb ysglyfaeth benthig (cregyn gleision a choccos yn bennaf) y maent yn dibynnu arnynt. Gall disbyddu ocsigen tymhorol yn ystod yr haf a'r hydref oherwydd cynhesu cefnforoedd a achosir gan newid yn yr hinsawdd gyfyngu ar yr adnoddau bwyd hyn i hwyaid mwythblu. Mae'r rhagolygon newid hinsawdd yn awgrymu y bydd cynefinoedd addas i'r hwyaid mwythblu yn mynd yn llai gan grebachu i ardaloedd tua'r gogledd y tu hwnt i Gymru.

Hela nythod

Gall effeithiau mincod Americanaidd ar adar sy'n nythu ar y ddaear mewn cynefinoedd arfordirol a morol fod yn ddifrifol iawn. Mae nythod hwyaid mwythblu hefyd yn cael eu hysglyfaethu gan famaliaid ac adar brodorol, er enghraifft gwylanod a brain. Mae'n hysbys hefyd fod llygod mawr yn cael effaith ar boblogaethau bridio fel y dangoswyd gan oresgyniad diweddar o lygod mawr ar Ynys Seiriol.

Aflonyddwch dynol

Wrth fforio ar y môr, adroddir bod hwyaid mwythblu'n sensitif i aflonyddwch gan longau a seilwaith morol, gan arwain at lai o weithgaredd chwilota a mwy o ddadleoli o'u cynefinoedd fforio. Yn y nyth, gall aflonyddwch dynol leihau llwyddiant bridio hwyaid mwythblu a chynyddu'r risg o ysglyfaethu nythod adar.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Ychydig a wyddom ar hyn o bryd am batrymau symud yr hwyaid mwythblu ar hyd arfordir Cymru. Nid yw poblogaethau tarddiad adar sy'n treulio'r gaeaf yng Nghymru'n hysbys, er bod nifer fach o adferiad modrwyon adar yn awgrymu y gall y rhan fwyaf ohonynt ddod o ranbarth y Baltig a Denmarc.
- ♦ Ni wyddys pa ffactorau sy'n cyfyngu ar nifer yr hwyaid mwythblu sy'n bridio yng Nghymru ar hyn o bryd, er eu bod ar gyrrion deheuol amrediad o adar sy'n tynnu'n ôl.
- ♦ Nid yw'n hysbys beth fydd effeithiau datblygiadau morlynnoedd llanw ar y rhywogaeth hon, yn enwedig gyda mynediad at fwyd.
- ♦ Nid yw'n hysbys a gafodd hwyaid mwythblu eu heffeithio gan fflw adar, na'i effeithiau ar lefel y boblogaeth. Er bod astudiaethau'n dangos lefelau isel o haint mewn hwyaid mwythblu, nid oes yr un ohonynt yn gysylltiedig â'r achos presennol. Fodd bynnag, mae'r risg i'r boblogaeth hwyaid mwythblu'n debygol o fod yn isel oherwydd eu meintiau grwpiau bach sy'n cyfyngu ar drosglwyddo clefydau.

Cyfleoedd

- ♦ Dadansoddiad o ddefnydd gofodol hwyaid mwythblu ar y môr, e.e. trwy delemetreg, i asesu effeithiau a achosir gan bobl a maint eu cynefiniad.
- ♦ Astudiaethau lleol o leoliadau bridio i ddeall cyfyngiadau posibl ar y boblogaeth fridio.
- ♦ Gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytreffi yng Nghymru.
- ♦ Dealltwriaeth well o gysylltedd ymhlith poblogaethau hwyaid mwythblu Cymru, y DU ac Iwerddon.
- ♦ Dealltwriaeth well o faint presennol ysglyfaethu nythod a datblygu mesurau i'w leihau.
- ♦ Astudiaethau o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar argaeledd ysglyfaeth yng Nghymru ar gyfer hwyaid mwythblu.

MÔRHWYADEN DDU (Common Scoter)

(*Melanitta nigra*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Nid yw morhwyaid du yn bridio yng Nghymru, er y cafwyd cyfrifiad o nifer o filoedd o unigolion yn yr haf. Yn y gaeaf, maent yn cronni oddi ar arfordir Cymru mewn tair prif ardal - Bae Caerfyrddin, Bae Ceredigion a Bae Lerpwl.

Maent i'w cael mewn dyfroedd arfordirol bas gyda gwaddodion meddal yn y glannau sy'n cynnal y cymunedau molysgiaid y maent yn bwydo arnynt, fel cregyn gleision glas a chyllyll môr.

Statws Poblogaeth Cyfredol

Mae'r morhwyaid du wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) oherwydd pwysigrwydd rhyngwladol y boblogaeth sy'n gaeafu a pha mor lleol yw hyn, ond maent wedi'u rhestru'n goch yn y rhestr Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU oherwydd dirywiad difrifol yn yr ystod fridio ac yn y boblogaeth. Mae morhwyaid du'n cael eu categorio fel pryder lleiaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang.

Mae'n ymddangos bod poblogaeth y morhwyaid du yng Nghymru yn cynyddu. Yn 2019, amcangyfrifwyd bod poblogaeth Prydain yn 135,000, i fyny o 25,000 -30,000 ar gyfer Prydain ac Iwerddon yn Atlas y Gaeaf 1981-84. Fodd bynnag, gall y cyfrifiadau yn 1981-1984 fod yn danamcangyfrif. Gall hyn hefyd fod yn wir am amcangyfrif diweddar o 80,000 (mewn blwyddyn ar gyfartaledd) yng Nghymru, gan fod arolygon o Fae Caerfyrddin yn 2017 a Bae Lerpwl yn 2019 wedi esgor ar gyfrifon o 36,314 a 74,000 yn y drefn honno. Mae hyn yn gynydd sylweddol o'r amcangyfrif blaenorol o 40,000 -50,000 yn nyfroedd Cymru o 2001-2006.

Ni wyddys bod yr achosion diweddar o Ffliw Adar wedi effeithio ar forhwyaid du ac mae ecoleg y rhywogaeth hon yn ei rhoi mewn perygl is.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Yn hanesyddol, mae gollyngiadau olew wedi effeithio ar boblogaethau morhwyaid du yng Nghymru. Yn 1950 a 1973-1974, daethpwyd o hyd i 300 o forhwyaid du yn sownd ar arfordir Sir Benfro oherwydd gollyngiadau olew. Achosodd gollyngiad arall o 72,000 tunnell o olew crai wrth y fynedfa i Swnt Aberdaugleddau ym mis Chwefror 1996 lawer mwy o farwolaethau - casglwyd 4,571 o forhwyaid du wedi eu gorchuddio ag olew oddi ar y tir, a chanfuwyd bod 1,818 ohonynt wedi marw. Roedd tua 8,000 o forhwyaid du'n treulio'r gaeaf ym Mae Caerfyrddin yn ystod y cyfnod hwn felly effeithiwyd ar y rhan fwyaf o'r boblogaeth a pheryglwyd addaswyd eu hardal fwydo.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol


Mae morhwyaid du'n nodwedd warchoddedig o ddwy AGA: Bae Caerfyrddin a Bae Lerpwl. Ystyrir bod Bae Lerpwl yn arbennig o bwysig ar ddiwedd y gaeaf/yn gynnar yn y gwanwyn ar gyfer poblogaeth fridio gogledd-ddwyrain Ewrop a Gwlad yr Iâ, er bod angen astudiaethau olrhain i gadarnhau hyn. Fe'u gwelir yn gyffredin ar hyd arfordir Cymru, gydag chrynodeadau mawr pellach ohonynt yn Sir Benfro. Mae'r niferoedd sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf er nad yw'n hysbys a yw hyn oherwydd monitro mwy effeithiol. Mae morhwyaid du yn gallu plymio i tua 30m er eu bod fel arfer yn aros mewn ardaloedd â dyfnder o hyd at 15m. Mae fforio'n digwydd mewn cymysgedd o ardaloedd o graig a thywod neu raean. Mae hyn yn dod â nhw i wrthdrawiad â phorthladdoedd a harbws yn ogystal â'r sector ffermydd gwynt ar y môr sy'n tyfu, yn enwedig yn ardal Bae Lerpwl lle mae'r datblygiadau arfaethedig yn agosach at y lan.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (A) Llongau (R) Olew a Nwy (G) Pysgota (A) Hamdden (G) Dyframaethu (A) Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Er bod cynnydd wedi bod yn y boblogaeth morhwyaid du yng Nghymru, maen nhw'n treulio'r gaeaf mewn ychydig iawn o leoliadau gyda thair prif ganolfan, gan eu gwneud yn agored i effeithiau fel gollyngiadau olew. Mae morhwyaid du yn sensitif i aflonyddwch ac mae gan ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y môr yn nyfroedd Cymru y potensial i ddisodli'r rhywogaeth hon, sy'n digwydd mewn niferoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad ym mhoblogaethau ehangach y DU o'r morhwyaid du ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach, er y credir bod y morhwyaid du sy'n treulio'r gaeaf yng Nghymru'n dod o Ogledd-ddwyrain Ewrop, gan eu bod wedi cael eu holrhain wrth ymfudo yn croesi'r DU yn y nos.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ambr ar gyfer sgwter cyffredin yn seiliedig yn bennaf ar yr ansicrwydd ynghylch y risg gan y sectorau alltraeth sy'n tyfu'n gyflym sydd â'r potensial i gynyddu aflonyddwch a dadleoli.

Aflonyddwch a dadleoli

Ymddengys hefyd fod ffermydd gwynt ar y môr yn dadleoli morhwyaid du yn gryf, am eu bod nhw'n osgoi chwilota mewn dyfroedd o gwmpas a rhwng tyrbinau, ac maen nhw'n newid eu llwybrau hedfan i osgoi safleoedd. Yn ystod y tymor heb fridio wrth chwilota ar y môr, mae morhwyaid du'n sensitif iawn i aflonyddwch gan weithgareddau llongau sy'n dangos y pellteroedd codi a dianc pellaf i ffwrdd i gael eu cofnodi ymhlith rhywogaethau hwyaid morol. Ym Mae Lerpwl, gwyddys eu bod yn hedfan i ffwrdd pan oedd cychod hyd at 2 filltir i ffwrdd. Gall mwy o draffig wrth i'r diwydiant arallgyfeirio i wella arferion cynaliadwy, fel cyflwyno ffermydd gwynt a dyframaethu, achosi dadleoli pellach.

Llygredd

Gellir gweld llygredd olew fel un o'r prif fygythiadau i forhwyaid du sy'n treulio'r gaeaf, am eu bod yn crynhoi mewn ardaloedd arwahanol mewn niferoedd mawr ac mae effeithiau niweidiol cael olew ar yr adar hyn wedi'u dogfennu'n dda.

Colli cynefinoedd

Gall datblygu ynni adnewyddadwy o fewn yr ardal arwain at golli cynefinoedd. Er enghraifft, mae'r morglawdd llanw arfaethedig yn Aber y Mersi'n debygol o achosi gostyngiad yn argaeledd cynefin addas ar gyfer y rhywogaeth hon.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Cyfyngedig ar hyn o bryd yw'r ddealltwriaeth o'r ffordd y gall pethau sy'n eu rhwystro rhag symud effeithio ar eu gofynion ynni am ei bod yn cymryd mwy o amser iddynt hedfan er mwyn osgoi'r pethau hyn (h.y. llongau, datblygiadau fferm wynt).
- ◆ Deall llinellau amser dadleoli ar ôl adeiladu ffermydd gwynt a'r manteision posibl (h.y. chwilota am gregyn gleision ar strwythurau caled sylfaen y tyrbîn).
- ◆ Mae eu llwybrau mudo'n mynd i ystod eang o gyfeiriadau, a dim ond yn ddiweddar y cafodd llwybrau sy'n benodol i boblogaeth Cymru ledled y DU eu deall. Nid ydym yn deall yn iawn y cynnydd posibl mewn risg i unigolion o ddatblygiadau y tu hwnt i diriogaeth Cymru.
- ◆ Effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ddosbarthiadau ysglyfaeth ar gyfer y rhywogaeth hon.
- ◆ Dulliau lliniaru effeithiau dadleoli ar gyfer datblygiadau morwrol.
- ◆ Cael dadansoddiad llawn o AGA Bae Lerpwl.

Cyfleoedd

- ◆ Bydd gwella ein dealltwriaeth o lwybrau mudo ar gyfer rhywogaethau adar dwr a hwyaid môr, gan gynnwys morhwyaid du, yn rhoi gwell gwybodaeth inni am y risgiau y gallai datblygiadau ynni ar raddfa fawr eu cael ar boblogaethau sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae gan astudiaethau olrhain y potensial i ddarparu cipolwg ar ymddygiad mudol y gellir ei ddefnyddio mewn asesiadau effaith i bennu risg.
- ◆ Dylid ystyried effeithiau aflonyddwch a dadleoli a lliniaru priodol ar gyfer morhwyaid du wrth gydsynio unrhyw ddatblygiad morwrol.

HWYADEN FRONGOCH (Red-breasted Merganser)

(*Mergus serrator*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae'r hwyaden frongoch yn hwyaden sy'n bwyta pysgod ac maent i'w cael o amgylch y pegwn, yn bridio ar y ddaear ger llynnoedd dyfnach ac afonydd bach, yn aml mewn cynefinoedd cysgodol ar lannau afonydd ac mewn coetiroedd yn yr uwchdir.

Mae'r rhywogaeth hon yn ymwelydd rheolaidd â dyfroedd arfordirol Cymru yn y gaeaf, ac mae'r cynulladau mwyaf ohonyn nhw i'w cael fel arfer yn ardal warchoddedig arbennig Traeth Lafan/Bae Conwy. Mae hefyd yn fridiwr lleol yng ngogledd Cymru o fewn aberoedd ar arfordiroedd Ynys Môn a Gwynedd, a rhai llynnoedd/afonydd yn Eryri.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r hwyaden frongoch wedi symud o ambr i goch ar y rhestr o Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4), oherwydd bod poblogaeth y gaeaf wedi gostwng o 50% o leiaf. Mae ystod bridio'r rhywogaeth hon wedi gostwng hefyd, a hynny o 25% o leiaf dros y 25 mlynedd diwethaf. Ar yr un pryd, mae'r rhywogaeth wedi symud o wyrdd i ambr ar y rhestr o Adar o Bryder Cadwraeth yn y DU (BoCC5) oherwydd y cyfraddau cymedrol o ostyngiad ym mhoblogaeth y gaeaf. Ychwanegwyd y rhywogaeth hon hefyd at restr y Panel Adar Bridio Prin yn 2017.

Mae'r hwyaden frongoch wedi'i rhestru fel un sydd bron â bod dan fygythiad ar restr goch yr IUCN Ewropeaidd, oherwydd gostyngiad yn y boblogaeth sy'n agosáu at fod yn ostyngiad o 30% yn yr 16 mlynedd diwethaf, ond ar y lefel fyd-eang mae ar y gofid lleiaf.

Mae poblogaeth fridio Cymru o hwyaid brongoch bellach yn debygol o gynnwys llai na 100 o barau gyda 18 o barau wedi'u cadarnhau ac amcangyfrif o 37 o barau yn 2021.

Nid yw'r fflw adar wedi'i gadarnhau yn yr hwyaid brongoch yn yr achos sy'n digwydd ar hyn o bryd ac ni chredir bod y salwch hwn yn fygythiad i boblogaeth Cymru.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Hyd at ganol y 19eg ganrif, roedd bridio'r hwyaid brongoch ym Mhrydain wedi'i gyfyngu i ogledd-orllewin yr Alban i raddau helaeth. Dim ond ymwelydd prin i Gymru oedd y rhywogaeth yn ystod y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif. Dechreuodd y niferoedd gynyddu yn Aber yr Afon Dyfi o'r 1920au ymlaen. Y cofnod bridio cyntaf a gadarnhawyd yng Nghymru oedd ar Draeth Dulas, Ynys Môn, yn 1953. Roedd y cofnodion bridio cynharaf yng Nghymru o amgylch aberoedd yn bennaf, ond defnyddiwyd ystod o safleoedd mewndirol, yn enwedig yn Eryri, wrth i'r boblogaeth gynyddu. Erbyn canol y 1990au, roedd gogledd-orllewin Cymru yn cefnogi tua 22% o boblogaeth yr hwyaid brongoch, gan awgrymu poblogaeth afonol o tua 175 o barau yng Nghymru. Ymddengys mai dyna oedd uchafbwynt poblogaeth fridio Cymru. Ers hynny, ac i mewn i'r 21ain ganrif, gwelwyd gostyngiad yn y nifer sy'n bridio ac yn bwrw'r gaeaf yno.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Ychydig a wyddom ar hyn o bryd am effeithiau gweithgarwch dynol ar boblogaethau'r hwyaid brongoch yng Nghymru a lle gallai ei ddsbarthiad bridio presennol orgyffwrdd â gweithgareddau dynol.

Mae'n debyg mai un peth sydd wedi creu pwysau allweddol yn y gorffennol yw'r gwrthdaro â physgotwyr sy'n credu bod y rhywogaeth hon yn bla cydfwytaol sy'n cael effaith ar boblogaethau o eogiaid, a gallai'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n bridio yng Nghymru fod yn gysylltiedig â'r cais wedi'i dargedu i gael gwared arnynt.

Gallai presenoldeb rheolaidd pobl (a'u cŵn) wrth y nyth hefyd fod yn broblemus ar gyfer hwyaid brongoch sy'n nythu ar y ddaear. Nid yw'r sensitifrwydd yn y tymor pan nad ydynt yn bridio wedi ei gyfrif yng Nghymru nac ar raddfa ehangach.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (A)



Olew a Nwy (A)



Pysgota (R)



Hamdden (R)




Dyframaethu (A)



Gwynt ar y Môr (G)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Mae niferoedd y gaeaf a chofnodion bridio'r hwyaid brongoch yng Nghymru yn dirywio'n gyflym. Mae'r niferoedd sy'n bridio yn lleol iawn ac yn gyffredinol isel (llai na 100 o barau ar hyn o bryd). Mae'n bwysig nodi bod poblogaeth fridio Cymru ar gyrion deheuol ystod Ewropeaidd y rhywogaeth, gan olygu ei bod yn agored i gael ei heffeithio gan unrhyw newid yn argaeledd yr ysglyfaeth sy'n addas iddi, oherwydd newid yn yr hinsawdd.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau o'r hwyaid brongoch yng Nghymru wedi ei benderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Newid hinsawdd

Rhagwelir y bydd Prydain gyfan, ac eithrio yng ngogledd-orllewin pellaf yr Alban, yn mynd yn anaddas o ran ei hinsawdd ar gyfer hwyaid brongoch erbyn diwedd y ganrif hon. Nid yw'n glir eto a yw newid yn yr hinsawdd yn gyrru'r gostyngiad yn y boblogaeth a gofnodwyd eisoes.

Hela nythod

Gall effeithiau mincod Americanaidd, sy'n ysglyfaethwr anfrodorol, ar adar sy'n nythu ar y ddaear mewn cynefinoedd arfordirol a morol fod yn ddifrifol iawn. Dangoswyd mewn mannau eraill bod hwyaid brongoch yn cael eu heffeithio'n negyddol (a'u difa) gan fincod sy'n eu hela, ac y gallai poblogaethau gynyddu eto mewn ymateb i gael gwared â mincod.

Dileu a achosir gan bobl

Efallai fod saethu hwyaid brongoch ar afonydd pysgod helwriaeth mewn ymateb i'r syniad eu bod yn bwyta'r pysgod wedi achosi dirywiad yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'n bosibl bod yr hwyaid brongoch ymysg y rhywogaethau o adar dwr morol mwyaf agored i farw drwy fodd mewn rhwydi pysgota. Canfuwyd mewn mannau eraill fod yr hwyaid brongoch ymysg y rhywogaethau o adar môr sy'n fwyaf agored i farw drwy fodd mewn rhwydi wedi'u hangori.

Llygredd morol

Mae llygryddion wyneb fel olew yn rhoi rhywogaethau adar dwr plymio mewn perygl arbennig o gael eu halogi. Mae'r hwyaden frongoch wedi cael sgôr mynegai o 21 am fod yn agored i niwed gan olew (ystod 11 -29), sy'n arwydd ei bod ar lefel gymedrol neu uchel o fod yn agored i niwed gan olew.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Ffactorau sy'n cyfyngu ar nifer yr hwyaid brongoch sy'n bridio (a bwrw'r gaeaf) yn lleol, yn cynnwys effeithiau disgwylidig newid yn yr hinsawdd.
- ◆ Deall effaith hwyaid brongoch a laddwyd o dan drwydded yn y DU (lladdwyd 300 yn Lloegr yn ystod 2013-19) ar boblogaethau Cymru.
- ◆ Effaith aflonyddwch dynol a dulliau lliniaru i leihau aflonyddwch.

Cyfleoedd

- ◆ Dealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n cyfyngu ar oroesiad a llwyddiant atgenhedlu, yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.
- ◆ Gwell dealltwriaeth o faint presennol yr ysglyfaethu hwyaid brongoch gan fincod yng Nghymru.
- ◆ Datblygu gwell dealltwriaeth o'r effaith ar boblogaethau Cymru gan ddifa a lladd anghyfreithlon yr hwyaden frongoch.

GWYLAN GOESDDU (Black-legged Kittiwake)

(*Rissa tridactyla*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Gellir gweld gwyllanod coesddu mewn safleoedd bridio arfordirol yng Nghymru. Mae'r rhywogaeth hon yn tueddu i nythu ar silffoedd ar glogwyni neu strwythurau addas a wnaed gan bobl. Mae adar sy'n bridio yn y lleoliadau hyn yn ogystal â'r rhai o lwerddon a Lloegr yn ffordio'n eang ym moroedd Cymru.

Y tu allan i'r tymor bridio mae nifer fawr o wylanod coesddu'n pasio heibio ac yn porthi yn nyfroedd Cymru.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r gwyllanod coesddu wedi'u rhestru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) a'r Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU oherwydd dirywiad sylweddol yn y tymor bridio, ac mae'r rhywogaeth wedi'i rhestru fel rhywogaeth sy'n agored i niwed ar y rhestr goch IUCN fyd-eang.

Mae poblogaeth y gwyllanod coesddu yng Nghymru wedi gostwng 34% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 7,296 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 4,782 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Nid yw'r gostyngiad hwn mor ddifrifol o'i gymharu â'r DU ehangach, sy'n profi gostyngiad o 43% mewn nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio rhwng arolygon (o 379,299 i 215,913 nyth o'r fath).

Er y gwyddys bod y Ffliw Adar wedi effeithio ar y gwyllanod coesddu, mae canlyniadau arolygon o'r tymor bridio yn 2023 yn awgrymu cynnydd o 10% yn y boblogaeth fridio yn y DU.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Erlidiwyd y gwyllanod coesddu'n drwm trwy gydol y 19eg ganrif. Fe'u saethwyd fel gweithgaredd hamdden ac ar gyfer y fasnach hetiau, ond arweiniodd mesur o ddiogelu tua diwedd y ganrif at gynnydd cyflym yn y boblogaeth. Mae cyfrifon o tua throad yr 20fed ganrif yn disgrifio nifer fawr o wylanod coesddu ar Ynysoedd Dewi, Sgomer, Gwales a Charreg y Llam. Cofnodwyd bridio am y tro cyntaf ar Enlli yn y 1920au. Ychydig iawn o gyfrifiadau a gafwyd ar y rhan fwyaf o safleoedd cyn cyfrifiad Operation Seafarer o 1969 i 1970 a gyfrifodd 6,891 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yng Nghymru, ond mae'r rhan fwyaf o gytrefi wedi cael eu cyfrif yn rheolaidd ers hynny. Parhaodd poblogaeth Cymru i gynyddu hyd at ddiwedd y 1980au, gyda chyfrifiad cofrestr adar y môr 1985-88 yn cyfrif 7,293 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio, ond mae wedi dirywio'n raddol ers hynny. Y rheswm am hyn yn bennaf oedd llwyddiant bridio isel gan fod oedolion bridio wedi cael trafferth dod o hyd i fwyd digonol i fagu eu cywion.

Ardaloedd a ddefnyddir

Mae gwyllanod coesddu'n nodwedd ddynodedig yn Sgomer a Sgogwm a'r Moroedd oddi ar AGA Sir Benfro (Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro). Mae gwyllanod coesddu wedi'u cynnwys yn SoDdGA Aberarth Carreg Wylan, SoDdGA Pen y Gogarth, ac SoDdGA Sgomer yn rhan o gasgliad adar y môr. Mae'r rhan fwyaf o gytrefi yng Nghymru i'w cael yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin.

Mae dwyseddau gwyllanod coesddu ar eu mwyaf yn y moroedd rhwng Wexford a Sir Benfro yn y Môr Celtaidd. Am fod ardaloedd ffordio gwyllanod coesddu yn fawr ac am eu bod yn agored i wrthdrawiad, mae'r nifer cynyddol o ddatblygiadau fferm wynt a gynigir yn yr ardaloedd hyn, yn enwedig y rhai sy'n agos at safleoedd gwarchoddedig, yn tynnu sylw at y risg posibl o farwolaeth yn y dyfodol..

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (G)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)



Hamdden (G)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cyfnewidiol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Y prif bryder o ran dirywiad y cytrefi gwylanod penndu yng Nghymru yw'r ansicrwydd ynghylch yr achosion. Mae nifer o effeithiau posibl wedi'u rhagdybio, fel cystadleuaeth am nythod, ysglyfaethu, dwyster amaethyddol cynyddol a phresenoldeb dynol ond mae esboniad clir o'r amrywiadau mawr mewn meintiau cytrefi a dirywiad poblogaeth yn gyffredinol wedi bod yn heriol i'w nodi. Mae'r achosion diweddar o Ffliw Adar yn debygol o fod wedi effeithio ar gytreffi yng Nghymru. Canfu cyfrif y cytrefi yn 2023 a oedd yn cynnwys 72% o boblogaeth Cymru fod y boblogaeth wedi gostwng 77% ymhellach ers Cyfrifiad Adar y Môr (2015 -2021) ac mae HPAI sy'n debygol o fod yn brif ffactor (Tremlett et al. 2024). Ynghyd â ffactorau cyfyngu eraill, gallai gostyngiadau tymor byr o'r fath yn y boblogaeth atgyfnerthu tueddiad poblogaeth negyddol cyffredinol y wylan benddu yng Nghymru.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Mae'r sgôr sensitifrwydd goch ar gyfer yr wylan benddu yn seiliedig yn bennaf ar y gostyngiad parhaus ym maint poblogaeth Cymru a'r DU ers diwedd y 1990au, ynghyd â newidiadau mewn argaeledd bwyd.

Argaeledd Bwyd

Mae gwylanod coesddu yn fwydwyr wyneb arbenigol sy'n bwydo'n bennaf ar lymrïaid yn nyfroedd y DU. Mae'r ddibyniaeth hon yn golygu bod gwylanod coesddu yn agored i brinder ysglyfaeth yn ystod y tymor bridio gan y gwyddys bod llymriaid yn ymatebol i newid yn yr hinsawdd. Gall lleoliadau fforio'r gwylanod coesddu gael eu heffeithio hefyd gan ddadleoli oherwydd gwynt ar y môr.

Ysglyfaethu

Gwelwyd rhywogaethau adar brodorol (e.e. gwylanod mawr, sgiwennod, brain, adar ysglyfaethus) yn rheolaidd fel ysglyfaethwyr mewn cytrefi gwylanod coesddu, tra ymddengys bod ysglyfaethu nythod mamalaidd (e.e. trwy lygod mawr neu fincod) yn eithriad o'i gymharu â rhywogaethau adar môr sy'n nythu ar y ddaear.

Llygredd

Fel bwydwyr wyneb, mae gwylanod coesddu'n debygol o amlyncu gwastraff plastig. Mae mwy o amlyncu gwastraff plastig wedi'i ddogfennu ledled y byd mewn rhywogaethau adar y môr. Mae tystiolaeth hefyd y gall adar sy'n oedolion fwydo eu cywion â malurion plastig wedi'u hadgyfogi, a allai arwain at lai o lwyddiant atgenhedlu. Gall gwylanod coesddu hefyd gael eu dal mewn gwastraff plastig. Yn ogystal, mae nifer o astudiaethau yn dangos bod llwythi uchel o lygryddion fel organo-fetelau yn gallu arwain at effeithiau atgenhedlu negyddol ar y gwylanod coesddu, gan leihau llwyddiant bridio.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Yn gyffredinol, mae mapiau rhywogaethau ysglyfaethus manwl o ansawdd isel, yn aml yn gorfod defnyddio rhagdybiaethau mawr i amcangyfrif argaeledd ysglyfaeth. Gall newidiadau yn ysglyfaeth a dosbarthiad y gwylanod coesddu o dan gyd-destun newidiadau amgylcheddol sy'n cael eu gyrru gan newid yn yr hinsawdd effeithio ar ddibynadwyedd y rhagdybiaethau hyn.
- ◆ Gwelir yn gyffredin adar eraill yn ysglyfaethu ar eu hwyau a'u hadar ifanc, ond nid oes astudiaethau wedi eu gwneud sy'n manylu ar faint o effaith y mae'r pwysau hwn yn ei gael ledled Cymru a'r DU.
- ◆ Credir fod poblogaethau gwylanod coesddu'n sensitif iawn i argaeledd ysglyfaeth oherwydd diet arbenigol. Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd o'r effaith anuniongyrchol y mae ffactorau amgylcheddol ehangach sy'n dylanwadu ar ysglyfaeth gwylanod coesddu yn ei chael ar boblogaethau o wylanod coesddu.

Cyfleoedd

- ◆ Gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytreffi yng Nghymru.
- ◆ Deall sut mae rhywogaethau ysglyfaethus gwylanod coesddu yn cael eu dylanwadu gan ffactorau amgylcheddol (llygryddion a newid yn yr hinsawdd), gan ystyried gwybodaeth am bysgodfeydd ochr yn ochr â data dosbarthu rhywogaethau (tagio ac arolygon).
- ◆ Asesiad o diet, maint yr ardal fforio a chyfrifiad o gytreffi er mwyn deall effeithiau dadleoli ar argaeledd bwyd a goroesiad.
- ◆ Dealltwriaeth well o'r posibilrwydd o gefnogi niferoedd bridio yn lleol trwy ddarparu strwythurau artiffisial.

GWYLAN BENDDU (Black-headed Gull)

(*Chroicocephalus ridibundus*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Gellir gweld gwyllanod penddu mewn safleoedd bridio arfordirol a mewndirol yng Nghymru. Mae cytrefi'n tueddu i ffurfio ar ynysoedd bach ger llynnoedd neu ardaloedd corsiog gyda'r lleoliadau hyn yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad rhag ysglyfaethwyr daear. Mae cytrefi yn aml yn cael eu ffurfio a'u gadael yn wag, gan dangos mai ychydig iawn o ffyddlondeb sydd i safleoedd bridio.

adar wedi deori yng Nghymru'n tueddu i fwrw'r gaeaf ym Mhrydain ar hyd yr arfordir ond canfuwyd bod rhai ohonynt yn mudo i Iwerddon, Ffrainc, Sbaen, Portiwgal a'r Iseldiroedd.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Ystyrir bod trefedigaethau Cymru'n peri mwy o bryder o ran cadwraeth na phoblogaethau byd-eang a'r DU. Mae'r gwyllanod penddu wedi'u rhestru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) oherwydd dirywiad yn y boblogaeth fridio ond maen nhw ar y pryder isaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang ac maen nhw wedi'u rhestru'n ambr yn y DU yn y rhestr o Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5).

Erys pryderon cadwraeth ar gyfer y rhywogaeth hon gan fod poblogaeth gwyllanod penddu yng Nghymru wedi gostwng 16% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 1,986 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd 1,670 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad hwn mor ddifrifol o'i gymharu â'r DU ehangach, gyda gostyngiad o 29% yn y nythod o'r fath rhwng arolygon (o 138,155 i 97,950 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio).

Mae gwyllanod penddu wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan fflw adar yng Nghymru, ac mae angen ystyried yr effeithiau hirdymor ar y cyd â ffactorau eraill.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae'n ymddangos bod gwyllanod penddu yn ymwelwyr dros dro eu natur am eu bod wedi ffurfio a gadael nifer o drefedigaethau ledled Cymru dros amser. Er enghraifft, yng Nghors Caron, mae poblogaethau wedi amrywio rhwng sero a sawl mil ers 1923.

Yn y 19eg ganrif, priodolwyd dirywiad yn y boblogaeth i faterion draenio a phobl yn cymryd wyau i'w bwyta. Ar ddiwedd y 1800au, roedd y poblogaethau'n adlamu ac mae'n debyg mai'r rheswm am hynny oedd mabwysiadu'r Ddeddf Cadwraeth Adar Môr (1869). Fel bwydwr sy'n bresennol ymhobman, priodolwyd y cynnydd hwn yn y boblogaeth hefyd i ecsbloetio ffynonellau bwyd dynol. Nid yw pwysau esboniadol yn hysbys i raddau helaeth ar gyfer y rhan fwyaf o amrywiadau yn y boblogaeth ar gyfer y rhywogaeth hon, ond gallant gynnwys prysgwydd yn tyfu, cael eu hysglyfaethu, draenio, asideiddio, chwyn dwr anffordrol ymledol, gweithgareddau dynol, gweithgareddau amaethyddol cyfagos a chystadleuaeth am leoedd gyda gwyddau Canada.

Ardaloedd a ddefnyddir

Ar hyn o bryd nid yw'r wylan benddu'n nodwedd ddynodedig o fewn unrhyw ardal warchoddedig yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried ystod eang y rhywogaethau hyn, maent yn debygol o elwa o fesurau cadwraeth o fewn ffiniau ardaloedd gwarchoddedig eraill yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i'r niferoedd mwyaf yng Nghymru ar hyd yr arfordir gogleddol ac ar Ynys Môn. Mae trefedigaethau mewndirol yn digwydd yn agos at lynnoedd naturiol.

Mae gwyllanod penddu'n fwy tebygol o ymddangos o amgylch aberoedd ac arfordiroedd nag ydynt allan ar y môr. Mae'r rhywogaeth hon yn manteisio'n rhwydd ar domennydd tirlenwi fel ffynhonnell fwyd yn y tymor pan nad ydynt yn bridio.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)



Hamdden (A)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Mae'r lleoliadau cytrefi mewndirol yn fras, fel cyfartaledd o leoliad y cyfrif

Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Y prif bryder o ran dirywiad y cytrefi gwylanod penddu yng Nghymru yw'r ansicrwydd ynghylch yr achosion. Mae nifer o effeithiau posibl wedi'u rhagdybio, fel cystadleuaeth am nythod, ysglyfaethu, dwyster amaethyddol cynyddol a phresenoldeb dynol ond mae esboniad clir o'r amrywiadau mawr mewn meintiau cytrefi a dirywiad poblogaeth yn gyffredinol wedi bod yn heriol i'w nodi.

Mae'r achosion diweddar o Ffliw Adar yn debygol o fod wedi effeithio ar gytrefi yng Nghymru. Canfu cyfrif y cytrefi yn 2023, a oedd yn cynnwys 72% o boblogaeth Cymru, fod y boblogaeth wedi gostwng 77% pellach ers Cyfrifiad Adar y Môr (2015 - 2021) ac mae'n debyg mai HPAI yw'r brif ffactor (Tremlett et al. 2024). Ynghyd â ffactorau cyfyngu eraill, gallai gostyngiadau tymor byr o'r fath yn y boblogaeth atgyfnerthu tueddiad poblogaeth negyddol cyffredinol y wylan benddu yng Nghymru.

Sgôr sensitifrwydd: Ambr

Mae'r sgorio sensitifrwydd **Ambr** ar gyfer gwylan benddu yn seiliedig yn bennaf ar y gostyngiad parhaus ym maint poblogaeth Cymru a'r DU ers diwedd y 1990au, ynghyd â newidiadau mewn argaeledd bwyd.

Argaeledd Bwyd

Gall prinder bwyd sy'n gysylltiedig ag arferion amaethyddol a newid yn yr hinsawdd beri i wylanod penddu sy'n bridio fuddsoddi llai o ynni mewn atgenhedlu, gan arwain at ddirywiad yn y boblogaeth ac ymadael â chytrefi. Yn ystod y tymor pan nad ydynt yn bridio, gallai cau tomennydd tirlenwi ledled y DU fod wedi arwain at ostyngiad mewn argaeledd bwyd a goroesiad y gaeaf ac felly gostyngiad yn y boblogaeth fridio.

Ysglyfaethu

Fel rhywogaethau eraill o wylanod sy'n nythu ar y ddaear, mae'r wylan benddu yn sensitif i ysglyfaethu safleoedd bridio gan rywogaethau fel y minc Americanaidd a gyflwynwyd. Gall chwyn dwr estron goresgynnol arwain at newidiadau sylweddol yn ansawdd y cynefinoedd ac at adael cytrefi presennol yn wag. Achos posibl arall dros ddirywiad lleol mewn gwylanod penddu yw cystadleuaeth am safleoedd nythu rhag niferoedd cynyddol o wyddau Canada.

Clefyd

Mae gwylanod penddu sy'n bridio mewn cytrefi'n agored iawn i glefydau heintus, gan achosi cyfraddau marwolaethau uchel o bosibl. Mae'n ymddangos bod achosion diweddar o fflw adar yn cael mwy o effaith sylweddol ar wylanod penddu na rhywogaethau gwylanod eraill ledled y DU.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytrefi yng Nghymru.
- ◆ Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y rhyngweithio rhwng cytrefi arfordirol a mewndirol a dynameg y boblogaeth ar draws poblogaeth Cymru a'r DU gyfan.
- ◆ Nid yw graddfa'r effaith o ddadleoli a diraddio cynefinoedd ar oroesi yn hysbys iawn ac mae'n anodd ei feintioli. Mae hyn yn bwysig gan fod y ddau ffactor yn dylanwadu ar ddiets, maint yr ardal fforio a statws y gytref.

Cyfleoedd

- ◆ Gwell dealltwriaeth o ecoleg y boblogaeth, dosbarthiad tymhorol a llwybrau mudol.
- ◆ Astudiaethau am gysylltedd poblogaeth rhwng cytrefi mewndirol ac arfordirol.
- ◆ Datblygu mesurau diogelu cytrefi addas mewn safleoedd sydd wedi'u cyfyngu gan ysglyfaethu neu yr effeithir arnynt gan dywydd garw a chynnydd yn lefel y môr sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.
- ◆ Monitro cynefinoedd mewn cytrefi presennol i feintioli eu cyflwr a mesur pwysau dynol arnynt er mwyn cymharu â chytrefi cyfrif isel a chytrefi a adawyd yn ddiweddar.

GWYLAN FECHAN (Little Gull)

(*Hydrocoloeus minutus*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae gwylanod bach yn ymwelwyr sy'n pasio drwy Gymru ac nid ydynt yn bridio yma. Mae eu niferoedd yng Nghymru'n amrywio, ac mae hyn yn cyflwyno her wrth geisio penderfynu beth yw eu statws, eu toreithrwydd ac unrhyw gyfraddau newid yng Nghymru. Mae'r wylan fechan i'w gweld yn eang ledled Cymru ond rhywogaeth arfordirol yw hon i raddau helaeth. Maen nhw'n tueddu i basio safleoedd gwyllo arfordirol yn ystod ymfudiad y gwanwyn a'r hydref gan gynnwys Pen Caer, Sir Benfro, ac Enlli, Gwynedd. Yn yr hydref, maen nhw i'w cael fel arfer ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac maen nhw i'w cael yno mewn dwyseddau isel yn y gaeaf.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae gwylanod bach wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) oherwydd eu prinder a'r ffaith nad ydynt yn bridio yno, ond maen nhw wedi'u rhestru'n wyrdd yn yr Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) y DU ac fe'u hystyrir yn agos at fod dan fygythiad ar restr goch IUCN Ewrop ac o'r pryder lleiaf ar restr goch yr IUCN byd-eang.

Oherwydd natur dros dro gwylanod bach yng Nghymru, nid yw wedi bod yn bosibl cyfrif lefelau'r boblogaeth a statws y boblogaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae arsylwadau dros amser yn awgrymu nad yw'r niferoedd wedi newid yn arwyddocaol dros y 30 mlynedd diwethaf.

Mae gwylanod bach yn rhywogaeth fridio drefedigaethol ac, o'r herwydd, maen nhw mewn perygl oherwydd Ffliw Adar. Nid oes unrhyw gofnodion o HPAI mewn gwylanod bach yng Nghymru ond nid oes dealltwriaeth dda o'i effeithiau yn y rhywogaeth hon o ystyried bod yr amrediad bridio craidd yn Ffenosgandia ac yn ymestyn tua'r dwyrain ar draws Ewrasia.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Pan fydd pobl yn gweld gwylanod bach yng Nghymru maen nhw fel arfer ar eu pennau eu hunain, ac anaml iawn y mae mwy na 3 i 4 ohonyn nhw'n ymgynnull. Fodd bynnag, cafwyd adroddiadau yn y gorffennol am gynulliadau mwy ohonyn nhw, a chafodd y rhain eu dinistrio gan stormydd canol gaeaf. Cofnodwyd nifer fwy ohonyn nhw'n teithio heibio yn y gwanwyn yn 1974 a gwelwyd 74 o adar ym Mhwll Cynffig a 73 yng Nghronfa Ddwr Eglwys Nunydd. Cofnodwyd niferoedd tebyg yn mynd heibio Pen Caer ym 1985 a 1987, heibio Aberaeron, Ceredigion yn 2002 a heibio Enlli yn 2005. Pasiodd mwy na 200 o wylanod bach y Parlwr Du, Sir y Fflint ym mis Chwefror 1992. Mae'r niferoedd wedi bod yn isel ers 2005, ac yn anaml iawn y mae nifer yr adar sy'n pasio yn fwy na 100-120. Cofnodwyd cynulliadau mawr ohonynt yn achlysurol ymhellach allan ar y môr, gan awgrymu y gallai'r rhywogaeth hon fod yn bresennol mewn niferoedd uwch o fewn dyfroedd tiriogaethol ymhellach o'r arfordir yn ystod y tymor mudo.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol


Mae gwylanod bach yn nodwedd warchoddedig o Ardal Gwarchoddedig Arbennig Bae Lerpwl. Maen nhw'n tueddu i aros mewn ardaloedd arfordirol a chredir eu bod yn pasio dros y tir, gan symud mewn siâp twmffat drwy Aber yr Afon Mersi ac allan i Fôr Iwerddon a Chefnfor Iwerydd. Maent yn rhywogaeth sy'n pasio dros dro ac maent yn cael eu crynhoi gan ddigwyddiadau tywydd yn ystod cyfnodau o ymfudo. Cafwyd cofnodion eang ohonyn nhw ar hyd arfordir Cymru. Efallai y bydd achosion o ddifrodi'r rhywogaeth hon ar ôl stormydd y gaeaf.

Mae gweithgareddau dynol cyfredol a allai effeithio ar wylanod bach yn cynnwys diwydiannau a allai ryddhau hydrocarbonau, a llygryddion eraill. Gallai hyn gynnwys echdynnu olew a nwy, carthu ac arferion amaethyddol ger yr arfordir. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth bod gwylanod bach yn nyfroedd Cymru wedi cael eu heffeithio gan y pwysau posibl hyn.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Mae poblogaethau gwylanod bach yng Nghymru wedi bod yn anodd eu meintoli, er y tybir nad yw'r niferoedd wedi newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Fodd bynnag, gan eu bod yn parhau i fod wedi eu rhestru'n ambr ar y BoCCW4 ac o ystyried bod y wybodaeth am eu llwybrau mudol mor gyfyngedig a pha mor agored ydyn nhw i weithgareddau dynol ger arfordir Cymru, argymhellir bod eu statws effaith yn cael ei sgorio'n oren. Efallai fod presenoldeb HPAI yng Nghymru, y DU ehangach, ac yn rhyngwladol wedi effeithio ar boblogaethau gwylanod bach, ac nid yw maint eu poblogaethau wedi'i bennu eto.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer gwylanod bach yng Nghymru yn seiliedig yn bennaf ar ragdybiaethau am sensitifrwydd ehangach gwylanod i bwysau am fod y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwylanod bach yn gyfyngedig.

Tynnu

Mae mynd yn sownd mewn rhwydi pysgota'n gallu bod yn fygythiad i wylanod bach. Ymhellach, gallai tyrbinau gwynt gael effeithiau negyddol arnynt oherwydd gwrthdrawiad neu effeithiau rhwystrau os yw'r strwythurau hyn wedi'u lleoli ar hyd eu llwybrau ymfudo. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth i bennu lefel y risg yn benodol ar gyfer gwylanod bach yn gyfyngedig yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Llygredd

Er nad oes llawer o dystiolaeth benodol i rywogaeth ar gyfer gwylanod bach, mae rhai astudiaethau wedi dangos y gall y rhywogaeth hon fod yn agored i halogiad cyfansawdd synthetig. Er enghraifft, adroddwyd am lefelau uchel o DDT ym Môr y Canoldir er nad yw'r effeithiau ar y boblogaeth yn hysbys o hyd. Adroddwyd am effeithiau cemegau eraill mewn rhywogaethau gwylanod eraill. Am eu bod yn bwydo ar y wyneb, mae gwylanod bach hefyd yn agored i halogiad llygryddion er na ddarganfuwyd unrhyw adroddiadau uniongyrchol am yr effeithiau hyn ar gyfer gwylanod bach yng Nghymru nac yn fyd-eang.

Newid hinsawdd

Mae modelu hinsoddol yn awgrymu na fydd y Baltig, lleoliad bridio allweddol ar gyfer y rhywogaeth hon, yn addas ar gyfer gwylanod bach erbyn diwedd y ganrif. Mae newidiadau mewn amrediad wedi digwydd ers 1997 gyda gostyngiadau ar raddfa fawr yn nwyrain Ewrop ac ehangiad ymhellach i'r gogledd. Nid yw'n glir sut y gallai hyn effeithio ar eu hachosion yng Nghymru yn y dyfodol.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Nid yw dosbarthiad a thoreithrwydd gwylanod bach yng Nghymru wedi ei ddeall yn glir oherwydd eu natur o fod yno dros dro, eu maint bach a'u harferion morwrol.
- ♦ Nid yw gwylanod bach yn bridio yn y DU yn rheolaidd ac nid ydynt wedi'u cofnodi yn bridio yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, mae'r effeithiau ar y tiroedd bridio yng Ngogledd-ddwyrain Ewrop yn debygol o effeithio ar nifer y gwylanod bach sy'n defnyddio dyfroedd Cymru. Nid oes dealltwriaeth glir o'r pwysau ar y rhywogaeth hon yn y tymor bridio a'i chysylltiad â Chymru.

Cyfleoedd

- ♦ Efallai y bydd data ffermydd gwynt ar y môr yn rhoi mwy o wybodaeth am boblogaethau gwylanod bach yn nyfroedd Cymru a'r DU. Daw gwybodaeth hefyd o ddata ESAS ac o arolygon graddfa fach a gwblheir gan sefydliadau ymchwil a chyrrff y llywodraeth. Gall casglu'r data hwn roi darlun mwy cyflawn o ddsbarthiadau a lefelau poblogaeth y gwylanod bach, a chynnig mewnwelediad i'w patrymau mudo a'u lleoliadau dewisol yng Nghymru.

GWYLAN MÔR Y CANOLDIR

(Mediterranean Gull)

(*Ichthyaetus melanocephalus*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Dros y degawdau diwethaf, mae gwylanod Môr y Canoldir wedi ehangu eu cwmpas bridio ym Mhrydain ac Iwerddon. Yn ddiweddar maen nhw wedi dechrau nythu mewn niferoedd bach mewn ychydig o leoliadau arfordirol yng Nghymru, gan gynnwys Penclacwydd (Sir Gaerfyrddin), Cemlyn (Ynys Môn), Gwlyptiroedd Burton Mere a Shotton (Sir y Fflint). Hefyd, gellir gweld cannoedd ar hyd arfordir Cymru yn ystod y gwasgariad ar ôl bridio, yn enwedig yn y de a'r gorllewin. Mae'n ymddangos bod adar y gaeaf yn dod o'r cyfandir yn bennaf.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae gwylanod Môr y Canoldir wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) ac yn yr Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU, oherwydd eu poblogaethau bridio bach a lleol iawn. Ystyrir eu bod ar y pryder isaf ar y rhestr goch IUCM fyd-eang.

Mae poblogaeth bridio gwylanod Môr y Canoldir yng Nghymru wedi cynyddu rhwng 2000 a 2021, er ei bod yn parhau'n isel. Ni chofnodwyd unrhyw nythod yr ymddengys eu bod yn eu defnyddio yn ystod arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd **17** nyth o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Yn y DU, bu cynnydd o 1,639% yn y nythod yr ymddengys eu bod yn eu defnyddio rhwng arolygon (o 132 i 2,295 nyth o'r fath), oherwydd cynnydd yn nifer a maint y cytreffi.

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o farwolaeth o Ffliw Adar ymysg gwylanod Môr y Canoldir yn y DU er bod eu hecoleg yn awgrymu y gallent fod mewn perygl.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Y cofnod cyntaf o wylan Fôr y Canoldir yng Nghymru oedd un yn Nwyrain Morgannwg yn 1964, a gwnaed yr ymdrechion bridio cyntaf yng Nghemlyn, Ynys Môn, yng nghanol y 1990au, er bod pob un ohonynt yn aflwyddiannus. Digwyddodd y bridio llwyddiannus cyntaf yng Nghemlyn yn 2010, a pharhaodd rhai parau i nythu yno dros y blynyddoedd canlynol, ond ni welwyd bridio yno yn 2018 na 2019. Ym Mhenclacwydd, mae ymdrechion bridio wedi digwydd ers 2009, a chafwyd y bridio llwyddiannus cyntaf yn 2014.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd adroddiadau am y niferoedd uchaf ym Mae Ceredigion (e.e. 1,250 yn Llanon, Ceredigion, ar 2 Awst 2022), a niferoedd llai (tua 500) ar Benrhyn Gwyr, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (e.e. 444 oddi ar Sgogwm ym mis Rhagfyr 2021). Yn ystod y gwasgariad a'r mudo ar ôl bridio, gall y cyfrifiad oddi ar arfordiroedd y de a'r gorllewin fod yn llawer uwch, gan gyrraedd uchafbwynt o 436 a gofnodwyd oddi ar Benrhyn Gwyr ym mis Gorffennaf 2019. Yng Nghymru, mae'r rhywogaeth hon yn parhau i fod yn brin yn fewndirol.

Ardaloedd a ddefnyddir


Ar hyn o bryd nid yw gwylanod Môr y Canoldir yn nodwedd ddynodedig o unrhyw AGA neu SoDdGA yng Nghymru.

Mae ardal chwilio am fwyd y rhywogaeth hon yn llawer llai na gwylanod eraill, felly maent yn agored i effeithiau gweithgareddau dynol yn agosach at eu safleoedd bridio. Oherwydd yr ecoleg arfordirol yn bennaf yn y tymor bridio a'r tymor pan nad ydynt yn bridio, gall gwylanod Môr y Canoldir gael eu haflonyddu gan weithgareddau hamdden a datblygiadau ar yr arfordir, a gall pysgota hefyd achosi risg.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Gwyrdd

Cynyddodd poblogaeth gwylanod Môr y Canoldir yng Nghymru rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021 oherwydd ehangiad yn yr amrediad o rywogaethau ledled Prydain ac Iwerddon. Nid yw'n hysbys hyd yma a fydd y rhywogaeth hon yn sefydlu fel bridwr rheolaidd yng Nghymru, ond mae'n debygol o wneud os bydd y duedd o gynnydd ym mhoblogaeth y DU yn parhau. Hefyd, nid oes unrhyw farwolaethau o Ffliw Adar Hynod Bathogenig wedi'u cofnodi eto ar gyfer y rhywogaeth hon yn y DU.

Sgôr sensitifrwydd: Ambr

Mae'r sgôr sensitifrwydd ambr ar gyfer gwylanod Môr y Canoldir yn bennaf oherwydd maint bychan eu poblogaeth a'u nifer cyfyngedig o gytrefi yng Nghymru ac yn y DU ehangach. Credir fod poblogaeth Ewrop yn dirywio hefyd, yn bennaf oherwydd eu bod yn cael eu bwyta ac oherwydd aflonyddwch mewn cytrefi.

Newid hinsawdd

Mae rhai cytrefi gwylanod Môr y Canoldir ym Mhrydain ac Iwerddon yn dueddol o ddiflannu ar ôl gorlif llanw. Gall cynnydd a ragwelir mewn amlder a dwyster stormydd oherwydd newid yn yr hinsawdd gael effeithiau ar lefel y boblogaeth. Yn yr un modd, gall hinsawdd sy'n cynhesu wneud Cymru'n fwy addas ar gyfer gwylanod Môr y Canoldir sy'n bridio wrth i'w cilfach symud tua'r gogledd.

Ysglyfaeth

Gall pwysau gan ysglyfaethwyr, yn famaliaid ac adar, achosi i wylanod Môr y Canoldir symud o'u safleoedd bridio. Rhwng 1980 a 2000, methodd y gytref yn RSPB Dungeness yng Nghaint oherwydd ysglyfaethu gan foch daear, llwynogod, mincod Americanaidd a gyflwynwyd, a gwylanod mwy. Mae cofnodion i'w cael o'r gystadleuaeth rhyngrywiogaethol ac ymddygiad ymosodol gan gorswenoliaid, a gallai hyn hefyd effeithio ar lwyddiant bridio.

Aflonyddwch

Mae casglu wyau ac aflonyddwch wedi achosi i'r adar adael eu nythod yn yr Wcrain. Efallai hefyd fod colli cynefinoedd ac aflonyddwch oherwydd datblygiad twristiaeth mewn ardaloedd arfordirol wedi achosi dirywiad mewn rhai safleoedd bridio yn Ewrop.

Sgil-ddalfa

Mae gwylanod Môr y Canoldir yn agored i gael eu dal yn ddamweiniol mewn dalfeydd, yn enwedig yn y gaeaf a phan maen nhw'n ymfudo. Mae nifer sylweddol o'r adar hyn wedi cael eu dal yn ddamweiniol mewn cyfarpar pysgota llinell hir mewn sawl gwlad ym Môr y Canoldir.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Nid yw graddfa'r effaith o ddadleoli a diraddio cynefinoedd ar oroesi yn hysbys iawn ac mae'n anodd ei feintio. Mae hyn yn bwysig gan fod y ddau ffactor yn dylanwadu ar ddiets, maint yr ardal chwilota am fwyd a statws y gytref.
- ◆ Nid wyddys faint o risg sydd i'r rhywogaeth hon gael gwrthdrawiadau â thyrbinau gwynt ar y môr, ond fel rhywogaeth gwylanod sydd â dosbarthiad arfordirol mae'n debygol o gael ei heffeithio.
- ◆ Mae diffyg data am faint o wylanod Môr y Canoldir sy'n cael eu dal yn nyfroedd Prydain ac Iwerddon.

Cyfleoedd

- ◆ Gwarchod ac adfer cynefinoedd addas, lle bo angen (h.y. mewn ardaloedd lle mae tarfu ar gynefinoedd neu lle mae'r cynefinoedd yn lleihau, neu lle cyflwynwyd ysglyfaethwyr).
- ◆ Asesiad o ddiets, maint yr ardal chwilio am fwyd a chyfrifiad y gytref er mwyn deall effeithiau dadleoli ar argaeledd bwyd a goresiad.

GWYLAN GEFNDDU FAWR (Great Black-backed Gull)



(*Larus marinus*)

Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Y gwyllanod cefnddu mawr yw'r rhywogaethau mwyaf a mwyaf blaenllaw o wylanod, ac mae'r mwyafrif i'w cael ger yr arfordir, yn aml yn nythu mewn parau ynysig ar ynysoedd bach neu frigiadau creigiog. Ar hyn o bryd, gellir dod o hyd i'r poblogaethau mwyaf yng Nghymru yn Sir Benfro ac Ynys Seiriol er bod cytrefi i'w cael hefyd ar hyn o bryd yn Ne-orllewin Cymru.

Weithiau gellir dod o hyd i wylanod cefnddu mawr yn y mewndir os bydd cyflenwad bwyd yn eu denu ond mae fforio trefol a nythu yn llai cyffredin o'i gymharu â rhywogaethau gwyllanod eraill.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae poblogaeth Cymru o wylanod cefnddu mawr yn peri mwy o bryder o ran cadwraeth na'r boblogaeth fyd-eang a phoblogaeth y DU. Y rheswm am hyn yw cwmp yn y boblogaeth rhwng cyfrifiad 1985/88 a chyfrifiad 1998/2002 a arweiniodd at ostyngiad o 68% yn y nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, mae gwyllanod cefnddu mawr wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4). Maent wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth 5 yn y DU (BoCC5) oherwydd dirywiad cymedrol mewn bridio a phoblogaeth y gaeaf ac maent yn y categori pryder lleiaf ar restrau cochion IUCN Ewropeaidd a byd-eang.

Er gwaethaf pryderon am gadwraeth, mae'r boblogaeth gwyllanod cefnddu mawr yng Nghymru wedi cynyddu 49% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 434 nyth yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 648 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 - 2021). I'r gwrthwyneb, mae poblogaethau gwyllanod cefnddu mawr y DU yn y cyfnod hwn wedi gostwng o 16,814 i 8,021 o unedau, sef gostyngiad o 43%. Fel carhysydd ac ysglyfaethwr, mae gwyllanod cefnddu mawr yn agored i Ffliw Adar ond ni chanfuwyd effeithiau ar adar Cymru ac ni chofnodwyd unrhyw ostyngiad yn y boblogaeth mewn dwy gytref fawr yng Nghymru, Sgomer a Sgogwm, yn 2023.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae cofnodion bridio gwyllanod cefnddu mawr yng Nghymru yn dyddio'n ôl i'r 1700au. Yn y 18fed a'r 19eg ganrif, credir bod y rhywogaeth hon wedi cael ei herlid yn drwm gyda dwyn wyau a saethu oedolion. Cafwyd hyd i nythod mewndirol yn ystod y cyfnod hwn a chredir iddynt gael eu gadael yn wag oherwydd hela a chasglu wyau. Effeithiwyd ar gytrefi yn Sgogwm a Sir Benfro gan ymdrech wedi'i dargedu i dynnu nythod yn y 1950au er mwyn lleihau ysglyfaethu gan adar drycin Manaw. Parhaodd erledigaeth y rhywogaeth hon rhwng 1960 a 1976 gyda thynnu nythod yn barhaus a saethu neu ddal adar sy'n oedolion, gan arwain at ladd 350 o adar ar Sgomer. I'r gwrthwyneb, cynyddodd poblogaethau ar Ynys y Santes Margaret rhwng 1949 a 1976 o 24 pâr i 147.

Yn y 1970au hwyr hyd ganol y 1980au, cafodd poblogaethau mawr o wylanod cefnddu eu heffeithio gan achosion o fotwlaeth, gan leihau'r poblogaethau ar Ynys y Santes Margaret a Sgomer. Arweiniodd y gostyngiad yn y boblogaeth oherwydd yr achosion o fotwlaeth at roi'r gorau i fesurau rheoli ar Sgogwm a Sgomer.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Ar hyn o bryd nid yw gwyllanod cefnddu mawr yn nodwedd warchoddedig yng Nghymru. Mae cytrefi wedi'u cyfuno ar Ynys Môn a'r ynysoedd cyfagos, Gogledd Cymru ehangach, a de-orllewin Cymru. Mae'r rhywogaeth hon yn ffafrio cynefinoedd arfordirol, ac eto mae nifer o adar Cymru hefyd yn defnyddio cronfeydd mewndirol a llynnoedd i glwydo yn y gaeaf

Mae'r rhywogaeth mewn perygl o wrthdrawiad â thyrbinau gwynt ar y môr; mae ffermydd gwynt presennol ac arfaethedig yn debygol o orgyffwrdd ag ardal fforio'r rhywogaeth hon a'u hardal wasgaru ar ôl bridio. Maent hefyd yn agored i glefydau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff a halogiad organo-fetel, deunyddiau sy'n gysylltiedig mae'n debyg â diwydiannau arfordirol.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)




Hamdden (G)



Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel

Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Er bod poblogaethau gwylanod cefnddu mawr yng Nghymru wedi cynyddu rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, nid yw effeithiau'r achosion diweddar o Ffliw Adar wedi cael eu pennu hyd yn hyn ar gyfer y rhywogaeth hon yng Nghymru o ystyried dyfodiad hwyr y feirws i Gymru o'i gymharu â gweddill y DU. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o wylanod cefnddu mawr ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach o ystyried y gostyngiad cyffredinol ledled y DU.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau gwylanod cefnddu mawr yng Nghymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a hefyd newid yn yr hinsawdd. Felly, dyma'r sensitifrwydd i newid a ragwelir os na chaiff y risgiau hyn eu lliniaru.

Tynnu

Mae'r rhywogaeth hon yn dal i gael ei difa mewn rhai ardaloedd i gynyddu llwyddiant bridio rhywogaethau eraill y mae gwylanod yn eu hysglyfaethu, yn ogystal ag ar gyfer diogelwch awyrennau a rheoli dwr glân. Gall difa difrifol achosi dirywiad yn y boblogaeth fel y gwelwyd mewn cytrefi yng Nghymru yn yr 20fed ganrif.

Rhywogaethau ymledol

Er nad yw ysglyfaethu gan famaliaid anfrodorol goresgynnol yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd fel pwysau mewn cytrefi yng Nghymru, gall y rhywogaeth fod yn agored i ysglyfaethu fel y dangosir mewn manau eraill. Mae rhywogaethau gwylanod tebyg wedi cael eu heffeithio gan gyflwyno mamaliaid fel mincod Americanaidd a llygod mawr brown ar draws y DU. Gallai effeithiau anuniongyrchol ddigwydd os byddai cytrefi adar môr, sy'n ffynhonnell fwyd ar gyfer gwylanod cefnddu mawr, yn cael eu disbyddu trwy ysglyfaethu neu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Clefyd

Yn hanesyddol mae gwylanod cefnddu mawr wedi cael eu heffeithio gan achosion o fotwliaeth a Ffliw Adar. Nid yw effaith yr achosion diweddar o Ffliw Adar ar y rhywogaeth hon yng Nghymru wedi cael ei fesur hyd yn hyn.

Fferm wynt ar y môr

Ynghyd â gwylanod mawr eraill, ystyrir bod gwylanod cefnddu mawr mewn perygl mawr o wrthdrawiad â thyrbinau gwynt, gan nad ydynt yn osgoi ffermydd gwynt ar y môr ac, yn aml, maen nhw'n hedfan ar uchder llafnau tyrbinau.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Gwybodaeth gyfyngedig am oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytreffi yng Nghymru o'i gymharu â phoblogaethau eraill y DU.
- ♦ Nid yw effaith Ffliw Adar ar boblogaethau Cymru o wylanod cefnddu mawr wedi cael ei mesur eto.
- ♦ Mae dystiolaeth bod gwylanod cefnddu mawr yn tueddu i fio-grynhoi llygryddion ond nid oes llawer o ymchwil ar hyn mewn cyd-destun Cymreig na sut mae hyn yn effeithio ar allu'r rhywogaeth hon i oroesi.

Cyfleoedd

- ♦ Monitro poblogaeth yn rheolaidd i ddeall ecoleg poblogaeth a phennu effeithiau clefydau heintus a phwysau eraill.
- ♦ Deall effeithiau gwirioneddol rhywogaethau ysglyfaethus ymledol (cnofilod) ar gytreffi bridio ar ynysoedd (e.e. Ynys Seiriol).
- ♦ Deall a all llygryddion effeithio ar wylanod cefnddu mawr yng Nghymru ac effeithio ar oroesiad, yn enwedig wrth ystyried pwysau cronus gweithgareddau eraill.

GWYLAN Y PENWAIG (Herring Gull)

(*Larus argentatus*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae gwylanod y penwaig yn bridio'n eang ar hyd arfordir Cymru, yn enwedig ar ynysoedd alltraeth a staciau môr ac yn gynyddol ar adeiladau mewn ardaloedd arfordirol a mewndirol.

Mae bridwyr Cymru yn breswylwyr i raddau helaeth, ac anaml y maent yn symud mwy na 100 milltir o'u cytrefi yn y tymor pan nad ydynt yn bridio, er bod rhai adar sydd wedi'u modrwyo wedi cael eu canfod mor bell i ffwrdd â Morocco. Yn y gaeaf, mae nifer fawr o wylanod y penwaig mudol o Ogledd a Dwyrain Ewrop yn ymuno â nhw hefyd.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae gwylanod y penwaig wedi'u rhestru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) a'r Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU oherwydd dirywiad difrifol mewn poblogaethau bridio a phwysigrwydd rhyngwladol poblogaethau bridio a phoblogaethau nad ydynt yn bridio, ond maen nhw ar y pryder isaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang. Erys pryderon cadwraeth ar gyfer y rhywogaeth hon gan fod poblogaeth gwylanod y penwaig yng Nghymru wedi gostwng 23% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 12,826 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd 9,815 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad hwn mor ddifrifol o'i gymharu â'r DU ehangach, lle cafwyd gostyngiad o 44% yn y nythod o'r fath rhwng arolygon (o 109,815 i 61,077 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio). Mae'r rhywogaeth hon yn bwrw'r gaeaf mewn niferoedd mawr yn aberoedd Cymru. Mae mynegeion y WeBS wedi dangos cynnydd cyson mewn adar sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru ers y 1990au, gyda rhai cynulladau mawr iawn o 10,000 - 12,000 o unigolion ar safleoedd unigol. Cafwyd cofnodion o wylanod y penwaig gyda Ffliw Adar ac nid yw'r effaith ar y rhywogaeth hon yn hysbys yng Nghymru er bod y dirywiad yn parhau.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae adroddiadau hanesyddol o ddechrau'r 19eg ganrif yn disgrifio gwylanod y penwaig fel rhai cyffredin ond nid ydynt yn dweud faint ohonyn nhw a gyfrifwyd mewn cytrefi bridio. Mae un cyfrif o 1894 yn nodi bod y rhywogaeth yn gyffredin ar ynysoedd a chlogwyni Sir Benfro a'u bod wedi cynyddu'n sylweddol mewn niferoedd ers Deddf Cadwraeth Adar Môr 1869. Cynyddodd poblogaeth bridio gwylanod y penwaig yng Nghymru yn sylweddol rhwng 1930 a diwedd y 1970au, oherwydd bod mwy o fwyd ar gael o'r pysgod a deflir o gychod pysgota, wrth y dociau ac ar safleoedd tirlenwi. Yna bu dirywiad sydyn yn y 1980au o ganlyniad i fotwliaeth a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â safleoedd tirlenwi ac a laddodd oedolion yn unig bron bob tro. Dangosodd cyfrifiad Cofrestr Cytrefi Adar y Môr yn 1985 -1987 ostyngiad o 77% yn y boblogaeth fridio yng Nghymru ers 1969 -1970. Yn dilyn newidiadau mewn rheoli gwastraff, dechreuodd y boblogaeth sefydlogi ar lefelau llawer is erbyn dechrau'r 2000au.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Nid yw gwylan y penwaig yn nodwedd benodol o AGA neu SoDdGA yng Nghymru, gan gynnwys safleoedd posibl bwrw'r gaeaf. O ystyried ystod eang y rhywogaeth hon, maent yn debygol o elwa o fesurau cadwraeth o fewn ffiniau ardaloedd gwarchoddedig eraill yn nyfroedd Cymru.

Oherwydd eu dosbarthiad eang, mae gwylanod y penwaig yn aml yn cael eu cynnwys mewn asesiadau monitro ac asesiadau o effaith amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau morol. Gall ardaloedd clwydo gwylanod gael eu haflonyddu gan ddatblygiadau ar y tir (h.y. ehangiaid porthladdoedd a harbws), ac mae gwylanod yn cael eu hystyried yn gyffredin ar gyfer asesiadau o risg gwrthdrawiadau o ffermydd gwynt ar y môr.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)




Hamdden (G)



Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel

Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Gostyngodd y boblogaeth o wylanod y penwaig yng Nghymru rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, yn ôl pob tebyg oherwydd cyfuniad o sawl ffactor gan gynnwys pwysau gan ysglyfaethwyr a llai o argaeledd bwyd sy'n gysylltiedig â gostyngiad mewn dychweliad pysgod i'r môr. Tybir bod yr achosion diweddar o Ffliw Adar wedi effeithio ar gytrefi yng Nghymru er nad yw maint y pwysau hwn wedi cael ei fesur hyd yn hyn drwy fonitro hirdymor. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o wylanod y penwaig ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Y prif reswm am y sgôr sensitifrwydd coch ar gyfer gwylanod penwaig yw eu bod mor agored i glefydau a gwrthdrawiadau oherwydd ffermydd gwynt. Gall mesurau rheoli poblogaeth gael effeithiau sylweddol ar y boblogaeth os ydynt yn cyd-fynd ag achosion o glefydau.

Clefyd

Mae gwylanod y penwaig yn agored i ystod eang o bathogenau heintus. Y pryder presennol ynghylch poblogaeth gwylanod y penwaig yng Nghymru a phoblogaeth ehangach y DU yw effaith yr achosion diweddar o Ffliw Adar.

Ysglyfaethu

Gwyddys fod gwylanod y penwaig yn y DU yn agored i ysglyfaethu oherwydd cyflwyniad rhywogaethau anfrodorol. Yng Nghymru, prin yw'r dystiolaeth o effeithiau rhywogaethau anfrodorol ar wylanod y penwaig, ac eithrio cyflwyniadau llwynogod coch (*Vulpes vulpes*) yn Ynys Môn. Gwelwyd dirywiad mewn nifer o gytrefi yn yr Alban yn dilyn cyflwyno mincod ac mae potensial i hyn ddigwydd yng Nghymru.

Diraddio cynefinoedd

Gall newidiadau mewn cynefinoedd leihau mynediad at adnoddau bwyd ynni uchel a chynyddu gwariant ar ynni wrth i wylanod y penwaig geisio bwyd ymhellach i ffwrdd o'u cytrefi, e.e. mewn cynefinoedd rhynglanwol. Mae rhwystrau llanw yn peri risg bosibl drwy ymestyn y cyfnod boddi a/neu newid argaeledd ysglyfaeth. Efallai y gwelir dirywiad pellach mewn cynefinoedd gyda newidiadau mewn polisi yn effeithio ar adnoddau ategol, h.y. newidiadau yn y ddeddfwriaeth am daflu pysgod yn ôl. Yn ogystal, gall y ffaith bod pobl yn ystyried bod bridwyr pen to yn blâu arwain at ymdrech wedi'i dargedu i ddinistrio nythod ac wyau.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Gwybodaeth am orosiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytrefi a safleoedd bridio yng Nghymru, gan gynnwys cynefinoedd ar y to.
- ♦ Nid yw'n hysbys pam y bu newid o safleoedd bridio naturiol i doeau, ac a oes mesurau a allai wrthdroi'r duedd hon er mwyn lleihau gwrthdaro â phobl.
- ♦ Effeithiau hirdymor Ffliw Adar ochr yn ochr â chlefydau endemig eraill sy'n bresennol o fewn poblogaethau gwylanod y penwaig.

Cyfleoedd

- ♦ Gwell dealltwriaeth o ddsbarthiadau tymhorol a llwybrau mudol yng Nghymru i gynorthwyo lleoli ffermydd gwynt ar y môr ac i gefnogi mesurau digolledu priodol lle bo hynny'n briodol.
- ♦ Targedu monitro i bennu effeithiau Ffliw Adar Hynod Bathogenig.
- ♦ Sefydlu arolygon systematig, hirdymor o fridwyr ar y to i gadarnhau amcangyfrifon poblogaeth cyfredol ac adolygiad lefel uchel o fentrau awdurdodau lleol i ddifa a symud nythod.
- ♦ Gwarchod ac adfer cynefinoedd addas, lle bo angen (h.y. mewn ardaloedd lle mae cynefinoedd yn dirywio neu lle cyflwynwyd ysglyfaethwyr).
- ♦ Asesiad o ddietau, maint yr ardal fforio a chyfrifiad o gytrefi er mwyn deall effeithiau dadleoli ar argaeledd bwyd a goroesiad.

GWYLAN GEFNDDU LEIAF (Lesser Black-backed Gull)

(*Larus fuscus*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Yng Nghymru, mae mwyafrif y gwyllanod cefnddu lleiaf yn bridio ar ynysoedd lle nad oes llygod mawr, er bod cytrefi mewndirol hefyd. Mae niferoedd cynyddol yn nythu ar adeiladau, yn enwedig yng Nghaerdydd. Y tu allan i'r prif gytreffi, mae grwpiau gwasgaredig a pharau sengl yn bridio o amgylch arfordiroedd gogledd a de Cymru ond dim ond ychydig iawn sydd ym Mae Ceredigion. Mae dros 94% o boblogaeth fridio Cymru yn siroedd y de.

Nid yw llawer o'r gwyllanod cefnddu lleiaf sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru yn fridwyr Cymreig. Nid yw rhai adar bridio yn teithio ymhell o'u cytreffi, ond mae llawer ohonynt yn bwrw'r gaeaf ym Mhenrhyn Iberia a Gogledd-orllewin Affrica.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r gwyllanod cefnddu lleiaf wedi'u rhestru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) oherwydd dirywiad difrifol yn y boblogaeth fridio, ond maent wedi'u rhestru'n ambr yn y DU yn yr Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) oherwydd pwysigrwydd rhyngwladol y boblogaeth ac o'r pryder lleiaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang.

Y rheswm am y pryderon cadwraeth ar gyfer y rhywogaeth hon yw bod y boblogaeth o wyllanod cefnddu lleiaf yng Nghymru wedi gostwng 45% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd **23,584** o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn ystod arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd **13,084** o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Yn y DU ehangach, cafwyd gostyngiad o 40% yn y nythod yr ystyrir eu bod yn cael eu defnyddio rhwng arolygon (o 107,698 i 55,304 o nythod o'r fath).

Effeithiwyd ar wyllanod cefnddu lleiaf gan achosion diweddar o Ffliw Adar ond nid yw union faint y marwolaethau ym mhoblogaethau Cymru yn hysbys ar hyn o bryd.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Nid oes unrhyw wybodaeth fanwl am statws gwyllanod cefnddu lleiaf yng Nghymru tan ddiwedd y 19eg ganrif, pan gafodd eu statws ei ddisgrifio fel preswlydd cyffredin ar ynysoedd Sir Benfro, er bod y cytreffi yn fach (20 -30 o barau). Yr unig adar bridio ym Morgannwg ar y pryd oedd niferoedd bach ar Benrhyn Gwyr. Ar ddechrau'r 20fed ganrif, roedden nhw'n bridio mewn nifer fechan yn unig o safleoedd yng Ngogledd Cymru, ac anaml y cawsant eu gweld yn y mewndir. Erbyn canol y 1950au, roedd y niferoedd yn Sir Benfro wedi cynyddu'n sylweddol, ond roedd poblogaethau eraill yng Nghymru yn parhau i fod yn llawer is oherwydd casglu wyau.

O'r 1970au ymlaen, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y boblogaeth yng Nghymru, gyda'r niferoedd ar eu huchaf yn y 1990au cynnar. Y rheswm am hyn oedd bod mwy o fwyd ar gael o wastraff a physgod a ddychwelwyd i'r môr gan bysgodfeydd. Mae'n debygol bod gwrthdroi'r ffactorau hyn wedi sbarduno'r gostyngiad yn y boblogaeth ers hynny. Bu newid hefyd o safleoedd nythu naturiol i adeiladau ac o gyflenwadau bwyd morwrol i dir fferm. Mae'r nythfeydd ar Sgomer a Sgogwm wedi gostwng o fwy na 75% ers 1993 a dirywiodd y nythfa ar Ynys Aberteifi o 93% yn ystod yr un cyfnod. Mae'r niferoedd sy'n bwrw'r gaeaf yn debygol o amrywio'n gryf rhwng gwahanol flynyddoedd a safleoedd: yng Nghronfa Ddwr Llys-y-frân, Sir Benfro, cofnodwyd hyd at 10,000 yn 1988, a'r uchafswm yn 2018 oedd tua 4,000. Cafodd hyd at 2,000 eu cyfrif yn Llyn Llangors, Powys, ym mis Tachwedd 2017 ac eto ym mis Ionawr 2019.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae gwyllanod cefnddu lleiaf sy'n bridio yn nodwedd ddynodedig o ynysoedd Sgomer a Sgogwm a'r moroedd oddi ar AGA Sir Benfro yn ogystal â SoDdGA Ynys Echni ac Aberarth - Carreg Wylan (Ynys Aberteifi). Mae'r cytreffi mwyaf yng Nghymru yn yr AGA hon ac ar Ynys Echni yn Nwyrain Morgannwg ac Ynys Seiriol oddi ar Ynys Môn. Mae gan y rhywogaeth hon ddisbarthiad eang yng Nghymru ac ystod fforio ehangach na gwyllanod mawr eraill, felly maent yn gorgyffwrdd ag amrywiaeth o weithgareddau anthropogenig. Fe'u hystyrir yn gyffredin ar gyfer asesiadau o risg gwrthdrawiadau o ffermydd gwynt ar y môr a gallant gael eu haflonyddu gan ddatblygiadau arfordirol.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)



Hamdden (G)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Gostyngodd y boblogaeth o wylanod y penwaig yng Nghymru rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, yn ôl pob tebyg oherwydd cyfuniad o sawl ffactor gan gynnwys pwysau gan ysglyfaethwyr a llai o argaeledd bwyd sy'n gysylltiedig â gostyngiad mewn dychweliad pysgod i'r môr. Tybir bod yr achosion diweddar o Ffliw Adar wedi effeithio ar gytrefi yng Nghymru er nad yw maint y pwysau hwn wedi cael ei fesur hyd yn hyn drwy fonitro hirdymor. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o wylanod y penwaig ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Y prif reswm am y sgôr sensitifrwydd coch ar gyfer gwylanod penwaig yw eu bod mor agored i glefydau a gwrthdrawiadau oherwydd ffermydd gwynt. Gall mesurau rheoli poblogaeth gael effeithiau sylweddol ar y boblogaeth os ydynt yn cyd-fynd ag achosion o glefydau.

Gwrthdrawiad

Ynghyd â gwylanod mawr eraill, ystyrir bod gwylanod cefnddu lleiaf mewn perygl mawr o wrthdrawiad â thyrbinau gwynt, gan fod eu pellteroedd fforio yn gorgyffwrdd â ffermydd gwynt ar y môr ac yn aml yn hedfan ar uchder llafnau tyrbinau.

Clefyd

Mae gwylanod cefnddu lleiaf wedi cael eu heffeithio gan Ffliw Adar Hynod Bathogenig (HPAI). Ystyrir eu bod yn rhywogaeth â blaenoriaeth isel yn y cyd-destun hwn oherwydd gwelwyd lefelau isel o farwolaethau yn 2022. Fodd bynnag, roedd y cyfrifiad o un safle yn AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Sir Benfro 24% yn is na'r waelodlin cyn-HPAI.

Diraddio cynefinoedd

Am eu bod yn bwydo ar arwyneb y dwr ac yn defnyddio safleoedd sbwriel, mae gwylanod cefnddu lleiaf yn agored i amlyncu plastig a mynd yn sownd mewn offer pysgota sydd wedi ei adael ar ôl. Mae nifer o astudiaethau wedi canfod bod amlyncu plastig yn beth gyffredin ymysg y rhywogaeth hon, ond nid yw'n hysbys beth yw effeithiau hynny ar oroesiad a'r llwyddiant bridio. Gallai argaeledd bwyd waethygu oherwydd dirywiad pellach mewn cynefinoedd gyda newidiadau mewn polisi sy'n effeithio ar adnoddau ategol, h.y. newidiadau yn y ddeddfwriaeth taflu pysgod yn ôl. Yn ogystal, gall y ffaith bod pobl yn ystyried bod bridwyr pen to yn blâu arwain at ymdrech wedi'i dargedu i ddinistrio nythod ac wyau.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Gwybodaeth am oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytrefi a safleoedd bridio yng Nghymru, gan gynnwys cynefinoedd ar y to.
- ◆ Nid yw'n hysbys pam y bu newid o safleoedd bridio naturiol i doeau, ac a oes mesurau a allai wrthdroi'r duedd hon er mwyn lleihau gwrthdaro â phobl.
- ◆ Roedd nifer y gwylanod cefnddu lleiaf ar draws yr holl safleoedd a arolygwyd yn y DU 25% yn is na'r waelodlin cyn-HPAI yn 2023, ond mae effaith y feirws ar boblogaeth Cymru gyfan yn parhau i fod yn aneglur.

Cyfleoedd

- ◆ Dealltwriaeth bellach o ecoleg bridio gwylanod cefnddu lleiaf Cymru gan gynnwys casglu data wedi'i dargedu am lwyddiant bridio a chynhyrchiant.
- ◆ Targedu monitro poblogaeth i bennu effeithiau HPAI.
- ◆ Gall rheoli gwylanod cefnddu lleiaf sy'n bridio ar doeau, a hynny heb eu lladd, leihau'r gwrthdaro rhwng pobl a gwylanod, ond efallai mai dim ond symud y broblem i rywle arall y bydd hynny. Rhaid i fesurau cadwraeth fod yn gyfannol, gan ystyried y cynnydd mewn gwylanod sy'n nythu ar y to a'r gostyngiad parhaus mewn safleoedd arfordirol naturiol.

MORWENNOL BIGDDU (Sandwich Tern)

(*Thalasseus sandvicensis*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae'r forwennol bigddu'n arddangos y dosbarthiad mwyaf di-batrwm o unrhyw adar môr sy'n bridio ym Mhrydain ac Iwerddon, gyda phoblogaethau gwasgaredig yn ffurfio cytrefi ar draethau tywodlyd gyda gwalau fel nythod. Roedd poblogaeth fridio Cymru wedi'i chyfyngu i un safle ym Morlyn Cemlyn, Ynys Môn, sydd wedi cael ei ddefnyddio'n barhaus ers 1984. Fodd bynnag, mae cytref newydd wedi sefydlu yn ddiweddar ar y Lasinwen ym Môn (2022).

I ffwrdd oddi wrth y manau bridio, mae'r adar yn mudo ar hyd arfordir gorllewinol Affrica i dreulio'r gaeaf yn y trofannau'n bennaf.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r forwennol bigddu wedi'i rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac yn y DU (BoCC5) oherwydd colled gymedrol yn yr ystod fridio ac am fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth wedi'i chyfyngu i un safle yng Nghymru. Maent o'r pryder lleiaf ar y rhestrau coch IUCN byd-eang ac Ewropeaidd.

Mae poblogaeth y morwenoliaid pigddu yng Nghymru wedi cynyddu 15% dros y ddau ddegawd diwethaf a chofnodwyd 450 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 519 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Gostyngodd poblogaeth y DU 4% i 12,490 o 12,980 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio dros y cyfnod hwn.

Gwyddom fod HPAI wedi effeithio ar y rhywogaeth hon gyda phoblogaeth cytref Cemlyn yn gostwng 42% rhwng 2022 a 2023 a cholled bellach yn haf 2023.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae'r cofnod cyntaf o forwenoliaid pigddu yn bridio ar Ynys Môn yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 20fed ganrif, a dilynwyd hynny gan gwmp yn y boblogaeth gyda dim ond ymdrechion bridio ynysig wedi'u dogfennu tan y 1970au. Nid tan 1984 y digwyddodd bridio'n rheolaidd ym Morlyn Cemlyn diolch i wardeinio tymhorol i amddiffyn y gytref rhag pobl, cwn ac ysglyfaethwyr. Serch hynny, mae'r gytref wedi bod yn destun amrywiadau cryf, gyda thymhorau bridio trychinebus yn cael eu hadrodd ar gyfer 2007, 2008 a 2017. Mae ffensys trydan bellach yn cael eu gosod bob blwyddyn o amgylch yr ynys i gyfyngu ar aflonyddwch ac ysglyfaethu gan famaliaid (dyfrgwn), ac mae'r niferoedd wedi cael eu hadfer i oddeutu 1,200 - 1,500 o barau yn 2019.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae morwenoliaid pigddu'n bridio yng nghytref Morlyn Cemlyn (fel nodwedd o SoDdGA Bae Cemlyn, SAC, AGA) a chytref sydd newydd ei ffurfio ar y Lasinwen ym Môn, ac felly maent yn bresennol yn bennaf ar Ynys Môn a'r cyffiniau yn ystod y tymor bridio. Yn ddelfrydol, ni ddylid bod unrhyw orgyffwrdd yn digwydd gyda gweithgareddau dynol yn y gytref.


Mae morwenoliaid pigddu'n debygol o wneud defnydd ehangach o arfordir Cymru a Môr Iwerddon i chwilota am fwyd, gan fynd ymhellach oddi wrth eu cytrefi pan fydd adnoddau bwyd lleol yn isel a/neu pan fydd y gystadleuaeth ag adar eraill yn uchel. Mae sawl safle fel aberoedd Clwyd a Dyfi, Pwynt Rhis ac Afon Wen yn fannau pwysig i deithio drwyddynt, i fforio ac i glwydo ar ddiwedd yr haf, gyda mwy o adar na'r rhai sy'n nythu yng Nghymru. Felly, mae'r ardaloedd hyn yn debygol o fod yn bwysig ar gyfer cytrefi yn yr Alban, Iwerddon a Lloegr.

Gall datblygiadau gwynt ar y môr beri risg yn y dyfodol i'r rhywogaeth hon oherwydd gorgyffwrdd posibl ag ardaloedd chwilota morol.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Ambr

Er bod y poblogaethau o forwenoliaid pigddu yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, mae'r achosion diweddar o Ffliw Adar yn debygol o fod wedi effeithio ar gytrefi o forwenoliaid ar Ynys Môn. Nid yw maint y pwysau hwn wedi cael ei fesur hyd yn hyn yng Nghymru o ystyried dyfodiad hwyr y feirws i Gymru o'i gymharu â gweddill y DU.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau morwenoliaid pigddu Cymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd. Felly, dyma'r sensitifrwydd i newid a ragwelir os na chaiff y risgiau hyn eu lliniaru.

Aflonyddwch dynol

Achosir aflonyddwch dynol i forwenoliaid pigddu yn ystod y tymor bridio gan weithgareddau hamdden yn bennaf (e.e. mynd â chwn am dro, chwaraeon awyr agored). Mae'n ymddangos bod y rhywogaeth yn arbennig o sensitif i aflonyddwch yn ystod y tymor bridio cynnar.

Hela nythod

Mae morwenoliaid pigddu yn agored i ysglyfaethwyr mamalaidd fel llwynogod a mincod. Yng Nghymru, arweiniodd aflonyddu ac ysglyfaethu wyau gan ddyfrgi yn 2017 at fethiant bridio llwyr yng nghytref Morlyn Cemlyn. Mae'n ymddangos bod manteision bridio ar y cyd â gwyllanod yn gorbwyso costau ysglyfaethu achlysurol gan wylanod.

Diffyg bwyd

Mae'r morwenoliaid pigddu'n arbenigol iawn, ac yn bwydo'n bennaf ar benwaig, corbenwaig a llymriaid yn ystod y tymor bridio ac felly mae'n agored i newidiadau mewn argaeledd ysglyfaeth oherwydd effeithiau a achosir gan bobl, gan gynnwys pysgota, cyfoethogi organig, tynnu'r is-haen yn ffisegol, a newidiadau tymheredd lleol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

Colli cynefinoedd

Yn debyg i'r rhan fwyaf o rywogaethau morwenoliaid, gall llifogydd (o ganlyniad i eithafion tywydd) arwain at golli cynefin bridio a gadael nyth yn sydyn, fel y cofnodwyd ym 1977 ar gyfer cytref morwenoliaid pigddu ym Morlyn Cemlyn. Mae modelu'r hinsawdd yn rhagweld y bydd y grib graean ger cytref Cemlyn yn cael ei cholli oherwydd codiad yn lefel y môr, gan beri risg sylweddol i'r drefedigaeth bresennol.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Mae'n ansicr sut mae effeithiau dynol i ffwrdd o'r nythfa fridio, gan gynnwys marwolaethau oherwydd ffermydd gwynt arfordirol ac ar y môr, yn effeithio ar boblogaethau morwenoliaid pigddu.
- ♦ Mae angen ymchwilio ymhellach i ddsbarthiad y mincod Americanaidd yng Nghymru gan fod y rhywogaeth anfrodorol hon wedi* effeithio'n ddifrifol ar gytrefi morwenoliaid pigddu mewn mannau eraill.
- ♦ Mae maint ac effaith bosibl llygryddion morol (PAH, hydrocarbonau, TBT) ar ansawdd wyau a llwyddiant bridio angen sylw pellach.
- ♦ Mae effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ymchwiliad empirig pellach, gan gynnwys newidiadau mewn argaeledd ysglyfaeth oherwydd newid yn nhymeredd y dwr, amllder cynyddol yr eithafion tywydd sy'n effeithio ar ansawdd cynefinoedd, yn ogystal â mwy o dueddiad i ddal clefydau heintus.

Cyfleoedd

- ♦ Monitro ac astudiaethau tagio i ymchwilio i achosion marwolaeth a mecanweithiau ffurfio cytrefi.
- ♦ Ymchwilio i faint poblogaeth mincod Americanaidd a'i effaith bosibl ar sefydliad cytrefol yng Nghymru.
- ♦ Sefydlu lefelau halogiad o lygryddion morol i asesu effeithiau ar lwyddiant bridio
- ♦ Cymariaethau deiet rhwng Cemlyn a safleoedd cytrefi nad ydynt yng Nghymru (e.e. RSPB Hodbarrow yn Cumbria) i astudio cysylltiadau rhwng argaeledd ysglyfaeth a llwyddiant bridio.
- ♦ Gall addasu arfordirol roi cyfle i greu safleoedd nythu newydd o fewn yr ystod fforio – bydd angen creu cynefinoedd bridio o ystyried y risg i Cemlyn oherwydd y cynnydd yn lefel y môr a ragwelir.
- ♦ Byddai parhau â safleoedd bridio gyda wardeiniaid yn caniatáu monitro'r boblogaeth yn barhaus a byddai'n darparu data mwy cadarn i seilio mesurau arno er mwyn sicrhau gwytnwch poblogaethau'r cytrefi. Gall wardeiniaid hefyd helpu i atal ysglyfaethu a chaniatáu ymyrraeth gyflymach os ceir ysglyfaethwyr anfrodorol.

MORWENNOL FACH (Little Tern)

(*Sternula albifrons*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Leoliad

Ar hyn o bryd dim ond dwy drefedigaeth fridio o forwenoliaid bach sydd yng Nghymru yn Nhwyni Gronant ac RSPB Y Parlwr Du. Maent yn nythu mewn crafiadau bas mewn strided cul a bregus o gynefin traeth yn agos at y lan sy'n cael ei golchi gan y llanw.

I ffwrdd oddi wrth y nythfa fridio, mae morwenoliaid bach yn mudo i Orllewin Affrica drofannol.

Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r morwenoliaid bach wedi'u rhestru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) - oherwydd eu dibyniaeth ar un safle - ac yn ambr yn y rhestr o Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5). Maent wedi eu categorio fel adar o'r pryder lleiaf ar y rhestrau coch IUCN byd-eang ac Ewropeidd.

Mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 129% dros y ddau ddegawd diwethaf a chofnodwyd 75 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 172 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021), tra bod poblogaethau yn y DU wedi gostwng 25% o 1,873 i 1,403 o nythod o'r fath dros y cyfnod hwn. Erbyn hyn, cytref Gronant yw'r ail gyntref fwyaf o forwenoliaid bach ym Mhrydain ac Iwerddon.

Ymddengys nad yw morwenoliaid bach wedi cael eu heffeithio gan yr achosion diweddar o fflw adar ac ni adroddwyd am unrhyw farwolaethau torfol. Mae hyn yn debygol oherwydd gwahanol gynefinoedd nythu o'i gymharu â rhywogaethau morwenoliaid eraill.

Tueddiadau Poblogaeth Hanesyddol

Ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, roedd morwenoliaid bach yn bridio'n gyffredin yng Ngogledd Cymru, gyda llawer o gyntrefi o Ynyslas, Ceredigion, i'r gogledd i Aber Afon Dyfrdwy, tra bo dim ond dwy gyntref ymhellach i'r de, yn Nwyrain Morgannwg, yn Sker Point a The Leys ger Aberddawan. Ers hynny, mae nifer y cyntrefi dan feddiant wedi gostwng yn sylweddol. Mae ystod o ffactorau'n cyfrif am hyn, fel cyflwyno maes saethu yn Ynyslas ac ysglyfaethu wyau mewn cyntrefi yng Ngogledd Cymru. Dim ond dwy gyntref oedd ar ôl erbyn diwedd y 1970au. Erbyn 1989, cytref Gronant oedd yr unig gyntref reolaidd o forwenoliaid bach yng Nghymru. Ystyrir mai colli ac aflonyddu ar gynefinoedd yw'r prif ffactorau sy'n atal sefydlu cyntrefi newydd yng Nghymru.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Lleolir y ddwy gyntref o forwenoliaid bychain yng Nghymru yn agos at ei gilydd o fewn SoDdGA Twyni Gronant a Chwningfa Talacre. Yn ystod y tymor bridio, mae morwenoliaid bach yn bresennol yn y safle hwn yn bennaf ac yn yr ardal o'i gwmpas, gan gynnwys Aber Afon Dyfrdwy a Bae Lerpwl, sydd wedi'i ddynodi'n AGA ar gyfer y rhywogaeth hon. Yn ddelfrydol, ni ddylid bod unrhyw orgyffwrdd â gweithgareddau dynol yn uniongyrchol yn y cyntrefi (ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â rheoli cyntrefi).

Ar hyn o bryd mae'n anodd cyffredinoli am weithgareddau dynol sy'n gorgyffwrdd ag amrediad y rhywogaeth wrth fforio gan fod gan y rhywogaeth hon ardal fforio mor fach. Mae unrhyw weithgaredd neu ddatblygiad ger y lan yn debygol o beri risg i'r rhywogaeth hon.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (R)



Hamdden (R)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cyfmedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Er bod y nythfa o forwenoliaid bach yng Ngronant wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, dim ond dwy gytref sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd ac felly maent yn debygol o fod yn agored i ystod o weithgareddau dynol. O ystyried eu hystod fforio gyfyngedig iawn, maent hefyd yn parhau i fod yn agored i newidiadau mewn argaeledd bwyd.

Sgôr sensitifrwydd: **Coch**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau morwenoliaid bach yng Nghymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd.

Aflonyddwch dynol

Mae morwenoliaid bach yn agored iawn i aflonyddwch dynol mewn cytrefi bridio trwy weithgareddau hamdden (e.e. pobl yn mynd â chwn am dro, chwaraeon awyr agored, gwyllo adar, dronau). Adroddir bod aflonyddwch dynol yn hwyluso ysglyfaethu gan wylanod yn sylweddol, gan leihau llwyddiant atgenhedlu.

Hela nythod

Mae morwenoliaid bach yn agored i ymosodiadau gan ysglyfaethwyr, yn famaliaid ac adar, fel llwynogod, corfidau a gwylanod. Gall pwysau ysglyfaethus lleol fod mor uchel fel na fyddai cytrefi'n goroesi heb fesurau amddiffynnol (ffensys) i gadw ysglyfaethwyr i ffwrdd.

Diffyg bwyd

Mae'r morwenoliaid bach yn arbenigol iawn, ac yn bwydo'n bennaf ar lymrïaid, penwaig a chorbenwaig ac felly mae'n bosibl eu bod yn agored i newidiadau mewn argaeledd ysglyfaeth oherwydd effeithiau a achosir gan bobl. Mae'r rhain yn cynnwys pysgota, cyfoethogi organig, tynnu'r gwaddod yn ffisegol, a newidiadau tymheredd lleol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Gan fod eu hystod fforio'n gyfyngedig iawn, gallai newidiadau i argaeledd ysglyfaeth, fel newidiadau dosbarthu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, fod yn drychinebus i'r rhywogaeth hon.

Colli cynefinoedd

Gan fod morwewenoliaid bach fel arfer yn nythu'n agos at y marc dwr uchel, maent yn arbennig o agored i lifogydd gan lanw uchel ac ymchwyddiadau stormydd fel yr adroddwyd ar gyfer cytref Gronant lle cafodd dros 50% o nythod gweithredol eu golchi i ffwrdd yn 2018.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Mae'n ansicr sut mae effeithiau dynol i ffwrdd o'r nythfa fridio, gan gynnwys marwolaethau oherwydd datblygiadau ynni adnewyddadwy arfordirol, yn effeithio ar boblogaethau prin y morwenoliaid.
- ♦ Mae angen ymchwilio ymhellach i ddsbarthiad y mincod Americanaidd yng Nghymru gan fod y rhywogaeth anfrodorol hon wedi cael ei heffeithio'n ddifrifol ar gytrefi morwenoliaid mewn mannau eraill.
- ♦ Mae effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ymchwiliad empirig pellach, gan gynnwys newidiadau mewn argaeledd ysglyfaeth oherwydd newid yn nhymheredd y dwr, amllder cynyddol yr eithafion tywydd a chynnydd yn lefel y môr sy'n effeithio ar ansawdd cynefinoedd.
- ♦ Mae ymchwil cyfyngedig i'w gael o'r ffordd y gellid ffurfio cytrefi newydd a fyddai'n darparu cynefinoedd sy'n gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, mae mwy o gytrefi yn darparu gwytnwch i godiad yn lefel y môr, clefydau fel fflw adar a gwasgfa arfordirol.

Cyfleoedd

- ♦ Cynyddu dosbarthiad y rhywogaeth trwy greu cynefin bridio a ffensio ardaloedd addas yn rhagweithiol, fel cyn-ytrefi, i gefnogi sefydlu cytrefi.
- ♦ Byddai parhau â safleoedd bridio gyda wardeiniaid yn caniatáu monitro'r boblogaeth yn barhaus a byddai'n darparu data mwy cadarn i seilio mesurau arno er mwyn sicrhau gwytnwch poblogaethau'r cytrefi. Gall wardeiniaid hefyd helpu i atal ysglyfaethu a chaniatáu ymyrraeth gyflymach os ceir ysglyfaethwyr anfrodorol.
- ♦ Ymchwilio i effaith y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr ar gynefin bridio posibl morwenoliaid bach.
- ♦ Astudiaethau monitro i ymchwilio i fecanweithiau ffurfio cytrefi morwenoliaid bach.
- ♦ Ymchwilio i boblogaeth a dosbarthiad mincod Americanaidd a'i effaith bosibl ar forwenoliaid bach yng Nghymru.
- ♦ Cymariaethau deiet rhwng safleoedd cytrefi i astudio cysylltiadau rhwng argaeledd ysglyfaeth a llwyddiant bridio yng ngoleuni newid yn yr hinsawdd.

MORWENNOL WRIDOG (Roseate Tern)

(*Sterna dougallii*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Y forwennol wridog yw'r rhywogaeth fwyaf prin o forwennol yng Nghymru. Mae'n bridio'n ysbeidiol ac mewn niferoedd isel iawn yn y prif gytreff o forwenoliaid ar Ynys Môn ac yn y Moelrhoniaid ochr yn ochr â rhywogaethau eraill o forwenoliaid (a gwylanod). Maent yn nythu mewn crafiadau bas ar y ddaear ond byddant hefyd yn defnyddio blychau nythu wedi'u dylunio'n arbennig ar y ddaear.

Mae morwenoliaid gwridog yn bridio yng ngorllewin Ewrop ac yn treulio'r gaeaf mewn ardal eithaf cyfyngedig o amgylch Gwlff Gini, Gorllewin Affrica.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r morwenoliaid gwridog wedi'u rhestru yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac yn y DU (BoCC5) oherwydd dirywiad difrifol yn y boblogaeth. Mae'r rhywogaeth yn y categori pryder lleiaf ar restrau coch IUCN Byd-eang ac Ewropeaidd gan fod cytreff sylweddol fwy y tu allan i'r DU.

Cofnodwyd dau nyth yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn ystod arolwg Adar y Môr 2000 a dim ond un nyth o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021), tra bod poblogaeth gyffredinol y DU o forwenoliaid gwridog wedi cynyddu o 56 i 120 o nythod o'r fath dros y cyfnod hwn. Mae'r gytreff fwyaf o forwenoliaid gwridog yng ngogledd-orllewin Ewrop yn Rockabill, Iwerddon, sef ffynhonnell debygol adar bridio diweddar Cymru. Mae'r unig gytreff sy'n bodoli yn y DU (Ynys Coquet, Northumberland) yn boblogaeth ffynhonnell annhebygol ar gyfer bridwyr Cymru.

Effeithiwyd yn wael ar y morwenoliaid gwridog gan y fflw adar yn yr unig gytreff sylweddol yn y DU, Ynys Coquet. Roedd nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio 21% yn is yn 2023 nag yn 2022, a'r rheswm a roddwyd am y lefel uchel o farwolaethau ymysg cywion oedd HPAI.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Roedd Cymru ar un adeg yn gadarnle ar gyfer morwenoliaid gwridog ym Mhrydain ac Iwerddon, gydag amcangyfrifon bridio lleol yn amrywio rhwng 20 a 300 o barau ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif. Yn hanesyddol, mae'r rhywogaeth hon wedi wynebu pwysau arbennig o hela (am fod pobl eisiau ei phlu ar gyfer addurno hetiau) a chasglu wyau, gan arwain at ymdrech gadwraeth leol. Rhwng 1969 a 1986, roedd nifer y morwenoliaid gwridog a oedd yn bridio ar Ynys Môn yn amrywio rhwng 251 o barau ym 1974 (mewn tair cytreff) a 130 o barau ym 1981 (mewn dwy gytreff). Gostyngodd y niferoedd o 208 o barau ym 1986 (mewn tair cytreff) i 77 o barau ym 1987 (mewn pedair cytreff). Priodolir y dirywiad hwn yn bennaf i'r ffaith eu bod yn cael eu hysglyfaethu gan lygod mawr, llwynogod, hebogau a gwylanod. Erbyn 1991, dim ond pum pâr oedd mewn dwy gytreff ar Ynys Môn. Yn amlwg, roedd rhai morwenoliaid gwridog oedd yn bridio gynt ar Ynys Môn wedi symud i Rockabill, Iwerddon, felly nid oedd y gostyngiad yng Nghymru yn adlewyrchu gostyngiad ym mhoblogaeth gyfan Môr Iwerddon.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Cofnodwyd yr unig nyth yr ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio o forwenoliaid gwridog yng Nghymru yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar yn AGA Morwenoliaid Ynys Môn yn 2018. Yn ddelfrydol, ni ddylid bod gorgyffwrdd â gweithgareddau dynol mewn ardaloedd gwarchoddedig o'r fath.

Mae gan y morwenoliaid gwridog yr ystod leiaf o bob un o'r pum rhywogaeth o forwenoliaid bridio ym Mhrydain ac Iwerddon. Fodd bynnag, mae'n anodd cyffredinoli am weithgareddau dynol sy'n gorgyffwrdd ag amrediad y rhywogaeth wrth fforio i ffrwd oddi wrth y safle bridio. Gall datblygiadau ffrwd llanw a gwynt ar y môr beri risg yn y dyfodol i'r rhywogaeth hon oherwydd gorgyffwrdd posibl ag ardaloedd bwydo morol.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (R)



Hamdden (R)





Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Coch

Y forwennol wridog yw'r rhywogaeth fridio fwyaf prin yng Nghymru gyda dim ond un pâr bridio wedi'u dogfennu ar hyn o bryd, yn dilyn dirywiad dramatig yn y boblogaeth fridio o ganol y 1980au ymlaen. Ar fin difodiant yn lleol, mae'r rhywogaeth hon yn gofyn am fesurau amddiffynnol a chefnogol wedi'u targedu yn y nyth yn ogystal â lleihau risgiau amgylcheddol presennol. Mae eu cysylltiad â'r gytref fawr o forwenoliaid gwridog yn Rockabill, Bae Dulyn, Iwerddon yn hanfodol i statws cadwraeth a sefydlu morwenoliaid gwridog yng Nghymru.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer y morwenoliaid gwridog Cymreig sy'n weddill wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol (neu ar gyfer rhywogaethau dirprwyol, h.y. morwenoliaid cyffredin), yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd.

Aflonyddwch dynol

Achosir aflonyddwch dynol mewn morwenoliaid yn ystod y tymor bridio gan weithgareddau hamdden yn bennaf (e.e. cerdded cwn, chwaraeon awyr agored), ond hefyd gan weithgareddau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn rhag llifogydd arfordirol, rheoli erydu a defnydd diwydiannol (datblygiadau adnewyddadwy).

Hela nythod

Yng Nghymru, mae'n ymddangos bod y morwenoliaid gwridog wedi dioddef yn bennaf o ysglyfaethu gan wylanod, ond hefyd o ysglyfaethu gan famaliaid (llygoden fawr frown, llwynog) a ddigwyddodd ddod i'r ynysoedd bridio.

Diffyg bwyd

Yn y DU, mae morwenoliaid gwridog yn porthi'n bennaf ar lymriaid, penwaig a chorbenwaig, ac ystyrir bod y ddwy rywogaeth gyntaf hyn yn debygol o ddioddef yn negyddol oherwydd newid yn yr hinsawdd. O'r herwydd, gall morwenoliaid gwridog ddod yn ddibynnol ar un rhywogaeth ysglyfaethus ac yn gynyddol agored i ddiflaniad adnoddau lleol.

Colli cynefinoedd

Yn debyg i'r rhan fwyaf o rywogaethau morwenoliaid, gall achosion o lifogydd (o ganlyniad i eithafion tywydd) arwain at golli cynefin bridio yn sydyn. Yn ogystal, gall rhywogaethau morwenoliaid a gwylanod cystadleuol amddifadu morwenoliaid gwridog o gynefin bridio addas mewn modd sy'n ddibynnol ar ddwysedd. Mae newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr a ragwelir hefyd yn debygol o effeithio ar y rhywogaeth hon am eu bod yn nythu ar ynysoedd isel ar yr arfordir.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Nid yw'n hysbys iawn beth yw'r cysylltedd rhwng cytrefi morwenoliaid gwridog yn y DU ac Iwerddon ac i ba raddau y mae bridwyr Cymru yn dibynnu ar recriwtio o'r gytref yn Rockabill, Iwerddon.
- ◆ Nid yw'n hysbys a yw'r gwahaniaethau yn llwyddiant y gytref morwenoliaid gwridog yn cael eu hachosi gan wahaniaethau mewn ysglyfaethu nythod a/neu argaeledd bwyd a sut mae llwyddiant bridio yn gysylltiedig â phresenoldeb rhywogaethau morwenoliaid sympatrig (morwenoliaid cyffredin a morwenoliaid y Gogledd).
- ◆ Ar hyn o bryd nid yw maint y croesrywedd rhwng morwenoliaid gwridog a morwenoliaid cyffredin wedi'i ddadansoddi, ac mae rôl gymharol y gystadleuaeth ryngbenodol mewn meddiannaeth tiriogaeth a llwyddiant atgenhedlu yn dal i fod yn aneglur.
- ◆ Deall yr amodau gorau posibl ar gyfer sefydlu cytrefi morwenoliaid gwridog gan gynnwys sefydlu cynefinoedd sy'n gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Cyfleoedd

- ◆ Ymchwiliad i'r cysylltedd rhwng poblogaethau morwenoliaid gwridog a rôl cytref Iwerddon (Rockabill) fel poblogaeth ffynhonnell (a dibynnol) ar gyfer bridwyr Cymru.
- ◆ Ymchwiliad pellach i fesurau dileu, atal ac ynysu yn erbyn ysglyfaethu gan famaliaid a gwylanod mewn cytrefi ynys.
- ◆ Ymchwilio i effeithiolrwydd rhaglenni blychau nythu i ddenu morwenoliaid gwridog i safleoedd bridio posibl.
- ◆ Ymchwiliad i sefydlu cytrefi newydd mewn lleoliadau sy'n gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.
- ◆ Byddai parhau â safleoedd bridio gyda wardeiniaid yn caniatáu monitro'r boblogaeth yn barhaus a byddai'n darparu data mwy cadarn i seilio mesurau arno er mwyn sicrhau gwytnwch poblogaethau'r cytrefi. Gall wardeiniaid hefyd helpu i atal ysglyfaethu a chaniatáu ymyrraeth gyflymach os ceir ysglyfaethwyr anffodrol.

MÔR-WENNOL GYFFREDIN (Common Tern)

(*Sterna hirundo*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae'r gytref fwyaf o forwenoliaid cyffredin yng Nghymru wedi'i lleoli yng ngwaith dur Shotton (Sir y Fflint) lle mae morwenoliaid cyffredin yn bridio ar nysoedd artiffisial. Mae cytrefi mawr eraill ar Ynys Môn, gan gynnwys y Moelrhoniaid a morlyn Cemlyn, yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r paruau bridio o forwenoliaid cyffredin yng ngweddill Cymru. Mae bridio mewndirol wedi bod yn gyfyngedig iawn yng Nghymru.

Wrth ymfudo maen nhw'n dilyn arfordir Iwerydd de-orllewin Ewrop a gogledd-orllewin Affrica i'r manau lle maen nhw'n bwrw'r gaeaf yng Ngorllewin Affrica.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r forwennol gyffredin wedi'i rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac yn y DU (BoCC5). Y rheswm am y statws cadwraeth ambr yng Nghymru yw bod nifer y cytrefi'n gyfyngedig, ac mae rhai ohonynt wedi dangos amrywiadau sylweddol, yn ogystal â gostyngiad yn yr ystod ar gyfer y rhywogaeth hon. Ystyrir bod y morwenoliaid cyffredin yn y categori pryder lleiaf ar restrau cochion IUCN Ewropeaidd a byd-eang.

Mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 21% rhwng 2000 a 2021 - cofnodwyd 700 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn ystod arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd 850 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Ar y cyfan, mae poblogaethau morwenoliaid cyffredin y DU wedi gostwng 9% o 13,385 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio i 12,219 o nythod o'r fath dros y cyfnod hwn.

Yn 2023 gostyngodd poblogaethau cyffredin y morwenoliaid 44% o'i gymharu â chyfrifiad yr adar môr, a thbyr bod hyn yn ganlyniad i'r achosion diweddar o HPAI.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Roedd morwenoliaid cyffredin yn fwy eang yng Nghymru yn y 19eg ganrif nag y maent heddiw. Cofnodwyd cytref fechan ar Sgogwm ar ddiwedd y 19eg ganrif ac arhosodd honno yno tan 1916. Yn ystod yr 20fed ganrif, cofnodwyd cytrefi hefyd ym Morfa Dinlle yng Ngwynedd, yn ogystal â nifer o safleoedd ar Ynys Môn nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio, gan gynnwys Ynys Llanddwyn, lle'r oeddent yn fwy niferus na morwenoliaid yr Arctig. Parhaodd y gytref yn weithredol tan o leiaf 1958.

Roedd poblogaeth Cymru o forwenoliaid cyffredin yn cynrychioli 5% o boblogaeth Prydain ac Iwerddon yn 2000 a chynyddodd yn raddol tan 2007. Gostyngodd yn sydyn yn 2009 gyda chwymp cytref Shotton, yn ôl pob tebyg oherwydd diffyg bwyd a achoswyd gan lifogydd yn 2007/8 a ddinistriodd diroedd meithrin pysgod. Credir bod yr achosion diweddar o HPAI wedi effeithio ar gytrefi morwenoliaid cyffredin, a'r brif gytref yn Shotton gafodd ei heffeithio fwyaf. Er gwaethaf y dirywiad diweddar, roedd cytrefi Cymru yn dal i gynnal 5% o boblogaeth morwenoliaid cyffredin Prydain ac Iwerddon ar adeg arolwg Cyfrifiad Adar y Môr.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae morwenoliaid cyffredin yn nodwedd warchoddedig o Ardal Gwarchoddedig Arbennig Morwenoliaid Môn, er eu bod yn gyffredin ar hyd holl arfordiroedd Cymru. Mae'n hysbys fod Ardal Gwarchoddedig Arbennig Bae Lerpwl a ledled Môr Iwerddon yn lleoliadau chwilota ar gyfer morwenoliaid cyffredin. Gan nad yw morwenoliaid yn cario pysgod lluosog, mae'r pellter y gallant fynd i chwilota o'r gytref yn ffactor sy'n eu cyfyngu.

Mae morwenoliaid cyffredin yn chwilota lle mae llymriaid a rhywogaethau ysglyfaethus eraill yn cronni ger yr wyneb, fel nentydd llanw a phonciau tywod. Mae hyn yn golygu eu bod yn defnyddio'r un ardaloedd â datblygiadau ynni llanw'r dyfodol a ffermydd gwynt ar y môr (OWF) ac y gallent gael eu dadleoli o'u cynefin chwilota am fwyd ac efallai dioddef gwrthdrawiadau.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (R)



Hamdden (R)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Mae'r dosbarthiad yn ar ddata amrwd arolwg ESAS, sy'n dangos morwenoliaid Cyffredin a morwenoliaid y Gogledd wedi'u cyfuno. Yn yr ardaloedd a ddefnyddir yn y dwyrain (coch) yr adar mwyaf tebygol yma yw'r morwenoliaid cyffredin.

Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Er bod y poblogaethau o forwenoliaid cyffredin yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, mae'r achosion diweddar o Ffliw Adar yn debygol o fod wedi effeithio ar gytrefi ar Ynys Môn. Nid yw maint y pwysau hwn ar forwenoliaid cyffredin wedi cael ei fesur hyd yn hyn yng Nghymru o ystyried dyfodiad hwyr y feirws i Gymru o'i gymharu â gweddill y DU. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o forwenoliaid cyffredin ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach.

Sgôr sensitifrwydd: **Coch**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau morwenoliaid cyffredin Cymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd.

Aflonyddwch dynol

Adroddir bod gweithgareddau hamdden rheolaidd (e.e. cychod modur, cwn oddi ar dennyn, cerbydau awyr di-griw) yn codi ofn ar forwenoliaid cyffredin a'u hatal rhag mynd ar eu hynsoedd nythu, a gall hyn arwain at fethiant llwyr bron i atgenhedlu a gall hefyd hwyluso ysglyfaethu gan wylanod.

Hela nythod

Mae dwysedd bridio a llwyddiant bridio morwenoliaid cyffredin yn cael ei effeithio'n negyddol gan gyflwyniad ysglyfaethwyr nythod, fel mincod, llygod mawr brown, a llwynogod i leoliadau ar ynysoedd. Maent hefyd yn agored i gael eu hysglyfaethu gan wylanod mawr.

Diffyg bwyd

Gall gweithgareddau pysgota dynol effeithio ar argaeledd ysglyfaeth. Mae'r ffactorau sy'n achosi gostyngiadau mewn argaeledd ysglyfaeth yn anuniongyrchol yn cynnwys cyfoethogi organig a chynnydd mewn tymhereddau lleol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae morwenoliaid cyffredin yn dibynnu ar rywogaethau ysglyfaethus penodol (e.e. llymriaid, celogiaid, corbenwaig) ond mae ganddynt ddeiet ehangach na rhywogaethau morwenoliaid eraill.

Colli cynefinoedd

Gall achosion o lifogydd (o ganlyniad i eithafion tywydd) arwain at golli cynefin bridio a physgota yn sydyn. Mae pryderon y gallai gosod morlynnoedd llanw achosi colli cynefin chwilota yn y tymor hir.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Nid yw'n hysbys a yw llwyddiant cynyddol bridio morwenoliaid cyffredin yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU wedi digwydd oherwydd gwahaniaethau mewn argaeledd bwyd, cyfraddau ysglyfaethu, neu gyfuniad o'r ddau ffactor.
- ♦ Nid yw canlyniadau Ffliw Adar ar boblogaethau morwenoliaid cyffredin yn glir ar hyn o bryd. Mae arsylwadau lleol wedi cofnodi mwy o farwolaethau o ganlyniad i'r achosion Ffliw Adar ond mae angen monitro tymor hwy i benderfynu beth yw'r canlyniadau i'r boblogaeth.

Cyfleoedd

- ♦ Byddai mentrau cadwraeth i leihau effeithiau ysglyfaethwyr nythod yn sicrhau y caniateir i'r poblogaethau wella cystal â phosibl o effeithiau'r achosion o ffliw adar yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- ♦ Gallai cymhariaethau rhwng cytrefi o ran cyfansoddiad eu deiet gefnogi gwell dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng argaeledd ysglyfaeth a llwyddiant y magu cywion mewn cytrefi.
- ♦ Mae mesurau i liniaru'r posibilrwydd o golli cytrefi oherwydd lefelau dwr yn codi wedi profi'n llwyddiannus mewn rhanbarthau eraill a allai fod yn berthnasol i gytrefi yng Nghymru sy'n cael eu hystyried mewn perygl o gynnydd yn lefel y môr yn sgil newid yn yr hinsawdd a mwy o stormydd a llifogydd.
- ♦ Byddai parhau â safleoedd bridio gyda wardeiniaid yn caniatáu monitro'r boblogaeth yn barhaus a byddai'n darparu data mwy cadarn i seilio mesurau arno er mwyn sicrhau gwytnwch poblogaethau'r cytrefi. Gall wardeiniaid hefyd helpu i atal ysglyfaethu a chaniatáu ymyrraeth gyflymach os ceir ysglyfaethwyr anffodrol.

MORWENNOL Y GOGLEDD (Arctic Tern)

(*Sterna paradisaea*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Yng Nghymru, mae morwenoliaid y Gogledd yn bridio mewn pedwar safle ar wahân ar arfordir Ynys Môn (Y Moelrhoniaid, morlyn Cemlyn, y Lasinwen, a safle preifat) a chafwyd cofnodion ysbeidiol o barau yn ceisio bridio mewn niferoedd bach mewn mannau eraill fel Gwynedd.

Gellir dod o hyd iddynt yn nythu ar Ynys Môn ac yn chwilota ar hyd arfordir Cymru ac ymhellach allan ar y môr ym Môr Iwerddon rhwng Ebrill ac Awst. Maent yn ffafrio ynsoedd creigiog isel wrth nythu, i'w diogelu eu hunain rhag ysglyfaethwyr daear.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae poblogaeth Cymru o forwenoliaid y Gogledd yn peri mwy o bryder o ran cadwraeth na phoblogaethau byd-eang a'r DU oherwydd gostyngiad hirdymor o 60% yn yr amrediad bridio a lefel uwch o fridio lleol. Felly mae morwenoliaid y Gogledd wedi'u rhestru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4). Maent wedi'u rhestru'n ambr yn y rhestr Adar o Bryder Cadwraeth 5 yn y DU (BoCC5) oherwydd dirywiad yn y boblogaeth ranbarthol, yn enwedig yn yr Alban, ond maent o'r pryder lleiaf ar restrau cochion yr IUCN Ewropeaidd a byd-eang.

Mae poblogaeth morwenoliaid y Gogledd yng Nghymru wedi cynyddu 134% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 1,705 o nythod yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn ystod arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd 3,994 o nythod o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). I'r gwrthwyneb, mae poblogaethau morwenoliaid y DU wedi gostwng o 48,550 i 30,451 o unedau, sef gostyngiad o 37%.

Mae'n bwysig ystyried yr achosion diweddar o Ffliw Adar a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar y tueddiadau poblogaeth hyn. Yn 2022, cadarnhawyd Ffliw Adar yng nghytreffi'r Moelrhoniaid, Ynys Feurig a Chemlyn.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Yn hanesyddol, mae cytreffi morwenoliaid y Gogledd wedi bod yn agored i ddigwyddiadau lleol, stocastig sydd wedi effeithio ar faint a dyfalbarhad cytreffi. Yn y 1970au, o ganlyniad i ysglyfaethu gan famaliaid am eu bod yn agos at domen sbwriel, gwelwyd yr adar yn ymadael â chytref yn y Lasinwen. Ym 1978, cafwyd pla o lygod mawr brown yn y gytref ar dir preifat sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac achosodd hyn i nifer fawr o oedolion a chywion gael eu hysglyfaethu. Yn 2016, collodd trefedigaeth y Moelrhoniaid 820 o oedolion ac adar ifanc oherwydd achos o fotwliaeth.

Yn ogystal â chlefydau ac ysglyfaethu gan famaliaid, mae morwenoliaid y Gogledd yn wynebu cystadleuaeth am le i nythu mewn cytreffi cymysg fel morlyn Cemlyn. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae parau'n nythu mewn ardaloedd sy'n fwy agored i amodau tywydd eithafol a risg uchel o ysglyfaethu.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae morwenoliaid y Gogledd yn nodwedd warchoddedig o Ardal Gwarchoddedig Morwenoliaid Môn yng ngogledd-orllewin Cymru ac maent yn bresennol yn bennaf yn Ynys Môn a'r cyffiniau. Maent yn gwneud defnydd ehangach o arfordir Cymru a Môr Iwerddon i chwilota am fwyd, gan fynd ymhellach oddi wrth eu cytreffi pan fydd adnoddau bwyd lleol yn isel a/neu pan fydd y gystadleuaeth ag adar eraill yn uchel..

Mae gweithgareddau dynol ar hyn o bryd sy'n gorgyffwrdd â morwenoliaid y Gogledd yn peri risg isel i'r cytreffi presennol o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth rhwng 2000 a 2021. Fodd bynnag, mae datblygiadau ynni adnewyddadwy posibl, gan gynnwys datblygiadau ffrwd llanw a gwynt ar y môr, yn peri risg yn y dyfodol i'r rhywogaeth hon oherwydd gorgyffwrdd posibl yn yr ardaloedd bwyd a ffeirir.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (G)



Llongau (G)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)



Hamdden (G)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Mae'r dosbarthiad yn ar ddata amrwd arolwg ESAS, sy'n dangos morwenoliaid Cyffredin a morwenoliaid y Gogledd wedi'u cyfuno. Yn yr ardaloedd a ddefnyddir yn y dwyrain (gwyrdd) yr adar mwyaf tebygol yma yw'r morwenoliaid cyffredin.

Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Er bod y poblogaethau o forwenoliaid y Gogledd yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, mae'r achosion diweddar o Ffliw Adar yn debygol o fod wedi effeithio ar gytreffi ar Ynys Môn. Nid yw maint y pwysau hwn ar forwenoliaid y Gogledd wedi cael ei fesur hyd yn hyn yng Nghymru o ystyried dyfodiad hwyr y feirws i Gymru o'i gymharu â gweddill y DU. Mae hefyd yn bwysig ystyried dirywiad poblogaethau ehangach y DU o forwenoliaid y Gogledd ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach.

Sgôr sensitifrwydd: **Coch**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer morwenoliaid y Gogledd wedi ei benderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd. Felly, dyma'r sensitifrwydd i newid a ragwelir os na chaiff y risgiau hyn eu lliniaru.

Diffyg bwyd

Mae morwenoliaid y Gogledd yn dibynnu ar lymrïod i fwydo eu cywion, ac yn aml yn rhoi'r gorau i geisio bridio pan fydd nifer y lymrïod yn isel. Mae pysgota dwys a newid yn yr hinsawdd wedi achosi dirywiad yn eu bwyd a newidiadau yn eu dosbarthiad ym Môr y Gogledd sydd wedi'i gysylltu â dirywiad yn y poblogaethau o forwenoliaid. Pe bai digwyddiadau tebyg yn digwydd ym Môr Iwerddon, mae'n debygol y byddai hyn yn effeithio ar boblogaethau Cymru o forwenoliaid y Gogledd. Ymhellach, gall gosod offer ynni adnewyddadwy ar y môr achosi gwrthdaro mewn ardaloedd chwilota a ffefrir.

Hela nythod

Mae dwysedd bridio a llwyddiant bridio morwenoliaid y Gogledd yn cael ei effeithio'n negyddol gan gyflwyniad ysglyfaethwyr nythod anffrodorol, fel mincod Americanaidd a llygod mawr brown, yn ogystal â'r carlwm a'r wenci sydd wedi cael eu cyflwyno mewn lleoliadau ar ynysoedd.

Colli cynefinoedd

Mae cynnydd yn lefel y môr o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar argaeledd safleoedd addas am fod morwenoliaid y Gogledd yn nythu ar ynysoedd isel.

Clefyd

Gwyddys bod achosion o fflw adar yn effeithio ar gytreffi morwenoliaid, ac mae hyn yn debygol am fod yr adar yn nythu'n agos at ei gilydd mewn llawer o gytreffi morwenoliaid, gan olygu bod y clefyd yn trosglwyddo'n rhwyddach. Nid yw effeithiau'r achosion diweddaraf wedi'u meintioli eto.

Bylchau yn y dystiolaeth

♦ Nid yw effaith Ffliw Adar ar boblogaethau Cymru o forwenoliaid y Gogledd wedi cael ei fesur eto. Mae arsylwadau lleol wedi cofnodi marwolaethau o ganlyniad i'r achosion ond mae angen monitro tymor hwy i ddeall yr effeithiau meintioli ar y boblogaeth.

♦ yw'n hysbys a yw'r gwahaniaethau yn llwyddiant y gwahanol gytreffi'n digwydd oherwydd argaeledd bwyd neu ysglyfaethu nythod gan ysglyfaethwyr sy'n famaliaid a rhywogaethau o wylanod mawr.

Cyfleoedd

♦ Mae prosiectau newydd yn mynd rhagddynt mewn cytreffi dethol i ddeall y pwysau hyn. Er enghraifft, gosodwyd gwialennau ar ongl ar Ynysoedd Farne i atal gwylanod rhag glanio ar nythod ac ysglyfaethu ar wyau a chywion. Gallai prosiectau graddfa fach tebyg sy'n effeithio ar ysglyfaethu gan wylanod a mamaliaid, neu sy'n gostwng ysglyfaethu, benderfynu faint o bwysau y mae hyn yn ei roi ar gytreffi.

♦ Byddai parhau â safleoedd bridio gwarchoddedig yn caniatáu ar gyfer monitro'r boblogaeth yn barhaus a byddai'n darparu data mwy cadarn i seilio mesurau arno er mwyn sicrhau gwytnwch poblogaethau'r cytreffi. Gall wardeiniaid hefyd helpu i atal ysglyfaethu a chaniatáu ymyrraeth gyflymach os ceir ysglyfaethwyr anffrodorol.

♦ cymhariaethau rhwng cytreffi o ran cyfansoddiad eu deiet gefnogi gwell dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng argaeledd ysglyfaethu a llwyddiant y magu cywion mewn cytreffi a sicrhau dealltwriaeth well o'r pwysau hwn yng Nghymru.

♦ Gall dadansoddiad cronus o ddeiet ac ysglyfaethu wella dealltwriaeth o bwysau allweddol, mesur risg a darparu opsiynau ar gyfer lleihau pwysau ac ymyriadau a reolir.

GWYLOG (Common Guillemot)

(*Uria aalge*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Gellir gweld gwylogod mewn llawer o safleoedd bridio ledled Cymru.

yn nythu ar glogwyni arfordirol serth, ynsoedd alltraeth a staciau môr. Ar gyfartaledd, maent yn fforio o fewn 85 km i'r gytref yn ystod y tymor bridio ond maent yn teithio'n ehangach yn ystod y tymor pan nad ydynt yn bridio, gan wasgaru allan i'r môr.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r gwylogod cyffredin wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) a'r Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU oherwydd pwysigrwydd rhyngwladol poblogaeth Cymru. Ystyrir eu bod ar y pryder isaf ar y rhestr goch IUCM fyd-eang.

Mae poblogaeth gwylogod yng Nghymru wedi cynyddu 76% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd **59,649** o unigolion yn arolwg Adar y Môr 2000, Cofnodwyd **104,737** o unigolion yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Mae hyn yn wahanol i boblogaeth y DU gyfan, gyda gostyngiad o 11% yn y niferoedd o wylogod rhwng arolygon (o 1,462,282 i 1,265,888 o unigolion).

Gwyddom fod y Ffliw Adar wedi effeithio ar wylogod yng Nghymru ac yn y DU ehangach. Mae'n debygol y bydd hyn wedi effeithio'n negyddol ar boblogaethau gwylogod Cymru.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, roedd niferoedd y gwylogod yn uchel ledled Cymru, er bod y niferoedd mewn rhai safleoedd wedi'u hatal oherwydd cynaeafu wyau i'w bwyta gan bobl. Mae ffotograffau o Sgomer yn 1934 yn dangos bod tua 100,000 o wylogod ar yr ynys ar y pryd.

Erbyn diwedd yr Ail Ryfel Byd, roedd y boblogaeth ar Sgomer wedi gostwng 95% oherwydd llygredd o longau oedd wedi suddo. Er gwaethaf diffyg ffigurau cyfrifiad dibynadwy, credir bod gostyngiad enfawr wedi bod ym mhoblogaeth gwylogod cyffredin a charfilod eraill rhwng y 1940au a'r 1970au. Cytref Sgomer oedd y cyntaf i gael cyfrifiad cywir ers 1962. Bu dirywiadau pellach oherwydd gollyngiadau olew a digwyddiadau eraill - pan gafwyd gollyngiad olew Torrey Canyon ym 1967 lladdwyd degau o filoedd o adar a daethpwyd o hyd i 15,000 o wylogod yn farw ar ôl difa mawr adar môr Iwerddon ym 1969, a achoswyd gan dywydd garw a oedd yn atal adar rhag cael adnoddau bwyd.

Erbyn 1980, dechreuodd poblogaeth Sgomer gynyddu oherwydd cyfraddau goroesi gwell. Yn eu tro, dechreuodd cytrefi eraill yng Nghymru weld tuedd o gynydd yn y boblogaeth. Rhwng Cofrestr Cytrefi Adar y Môr (1985 -88) ac Adar y Môr 2000, cynyddodd nifer y gwylogod yng Ngwyr, Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaernarfon ac Ynys Môn 124%, 127%, 62%, 19% a 98% yn y drefn honno.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae gwylogod yn nodwedd ddynodedig o Ardal Gwarchodedig Arbennig Sgomer fel rhan o gasgliad cyffredinol adar y môr a Phen y Gogarth, Carreg y Llam, clogwyni a thwyni Castellmartin, Arfordir Gwyr: Rhosili i SoDdGA Porteynon. Maent yn bresennol mewn 53 cytref yng Nghymru, wedi'u dosbarthu ar hyd arfordir Cymru gyda'r dwysedd uchaf yn y môr agosaf at y cytrefi.

Mae gwylogod yn fwy sensitif i wrthdrawiadau uniongyrchol yn ystod y tymor bridio, gyda chytrefi glan môr mewn mwy o berygl o ddod i gysylltiad â digwyddiadau fel gollyngiadau olew o weithgareddau dynol ar yr arfordir. Maent yn fforio mewn ardaloedd ynni llanw uchel yn ogystal â banciau tywod a gwelyau gwymon. Gall hyn arwain at berygl o wrthdrawiadau â datblygiadau ynni llanw yn y dyfodol. Gwyddys hefyd eu bod mewn perygl o gael eu dal mewn rhwydi drysu pysgodfeydd ac o gael eu dadleoli o bosibl gan ffermydd gwynt ar y môr.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (G)



Llongau (G)



Olew a Nwy (A)



Pysgota (G)




Hamdden (G)



Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel

Statws yr Effaith Gyfredo: **Ambr**

Er bod y poblogaethau gwylogod yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, cofnodwyd marwolaethau torfol yn ystod y tymor bridio hwyr yn 2023. Nid yw effaith y marwolaethau torfol hyn wedi cael ei mesur eto. Nid yw maint effaith bosibl fflwiw adar wedi cael ei mesur ar gyfer gwylogod yng Nghymru hyd yn hyn o ystyried dyfodiad hwyr y feirws i Gymru o'i gymharu â gweddill y DU. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o wylogod ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mewn asesiad ansoddol o sensitifrwydd, cafodd yr wylog ei chategoreiddio yn Ambr. Disgwylir iddynt fod yn sensitif i gwmpas cynyddol datblygiadau ynni morol, y llanw a'r gwynt, sy'n gorgyffwrdd â'u prif ardaloedd fforio ac felly gallent fod yn risg i gytrefi llai sydd heb gysylltiad. Mae sgil-ddaliad mewn rhwydi drysu pysgodfeydd yn rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon.

Newid hinsawdd

Wrth i'r hinsawdd barhau i newid, disgwylir i stormydd difrifol a all achosi marwolaethau torfol gwylogod ddigwydd yn fwy aml. Gallai effeithiau newid yn yr hinsawdd ar amseriad bridio ac ar gyfansoddiad rhywogaethau ysglyfaethus arwain at sefyllfa lle mae dyfroedd Cymru'n darparu amodau cynefin llai na delfrydol i wylogod yn y dyfodol.

Llygredd

Mae gwylogod cyffredin yn sensitif iawn i ollyngiadau olew oherwydd eu niferoedd uchel yn nyfroedd y DU, eu dosbarthiad gofodol yn y gaeaf a'u hymddygiad fforio. Cafwyd adroddiadau am gyfraddau marwolaethau uchel iawn ar ôl digwyddiadau trychinebus. Mae halogiad cronig yr adar gydag olion olew ar eu plu'n cael canlyniadau hirdymor, ac yn achosi marwolaeth yn aml iawn, am ei fod yn niweidio eu gallu i reoli eu tymheredd. Mae astudiaethau lluosog hefyd yn adrodd bod gwylogod a'u hwyau yn cronni organo-fetelau, gan leihau llwyddiant atgenhedlu o bosibl.

Gwrthdrawiad/dadl eoli

Mae gwylogod yn fforio neu'n mudo drwy'r un rhanbarthau a dargedir yn aml gan ffermydd gwynt ar y môr. O ystyried bod y rhywogaeth hon hefyd yn fforio yn y golofn ddwr, mae gwylogod ymhlith y rhywogaethau hynny y disgwylir iddynt fod yn agored i wrthdrawiad â datblygiadau llif llanw. Gwyddys bod gwylogod cyffredin yn cael eu dadleoli gan ddatblygiadau gwynt ar y môr.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Nid yw'n hysbys lle yn union y mae'r ardaloedd lle mae gwylogod yng Nghymru'n bridio yn y gaeaf. Tybir bod poblogaethau'n gwasgaru i'r môr ac yn cymysgu â phoblogaethau ehangach y DU, gan fwrw'r gaeaf mewn ardaloedd tebyg, fodd bynnag, nid oes llawer o astudiaethau diweddar yn cadarnhau hyn. Credir bod y rhan fwyaf o farwolaethau naturiol yn digwydd dros gyfnod y gaeaf ac felly mae hwn yn fwch pwysig i'w ddeall.
- ◆ Mae poblogaethau'n cynyddu yng Nghymru ac eto'n gostwng mewn mannau eraill yn y DU. Mae'n ansicr beth yn union sy'n achosi hyn. Efallai'r mai'r ffaith bod gwahanol feintiau o ysglyfaeth ar gael yn golygu bod cytrefi gwylogod yn llwyddo'n well yng Nghymru. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymchwil sydd wedi cael ei wneud ar argaeledd ysglyfaeth yng Nghymru.
- ◆ Mae angen gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytrefi yng Nghymru.

Cyfleoedd

- ◆ Bydd gwell dealltwriaeth o'u dosbarthiadau tymhorol yn galluogi i bobl ddysgu rhagor am eu dosbarthiadau dros y gaeaf, gan olygu o bosibl y bydd modd cael gwell mentrau cadwraeth mewn cydweithrediad â gwledydd eraill. Byddai mwy o ddata am fforio cytrefi penodol o astudiaethau tagio hefyd yn lleihau'r ansicrwydd o ran rhagdybiaethau a wneir wrth ddostrannu asesiadau o effaith posibl.
- ◆ Rhagor o waith monitro poblogaethau a darpariaethau i ddeall beth yw effeithiau'r Fflw Adar a hefyd i benderfynu a yw argaeledd bwyd yn sbarduno'r gwahaniaeth mewn llwyddiant rhwng poblogaethau gwylogod yng Nghymru a'r DU ehangach.

GWALCH Y PENWAIG (Razorbill)

(*Alca torda*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae gweilch y penwaig yn bridio mewn llawer o safleoedd o amgylch Cymru, o Drwyn y Fuwch yn y gogledd i'r Gwyr yn y de, ond nid ydynt wedi cael eu cofnodi yn bridio yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cytrefi mwyaf ar ynysoedd, yn enwedig Sgomer, Sgogwm ac Enlli, gyda chytrefi llai ar glogwyni tir mawr yn y de-orllewin a'r gogledd-orllewin.

Mae rhai adar yn aros yn nyfroedd Cymru yn y tymor pan nad ydynt yn bridio tra bod eraill yn symud i'r de.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae gweilch y penwaig wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) oherwydd eu statws agos at fod dan fygythiad yn Ewrop a phwysigrwydd rhyngwladol poblogaeth Cymru. Maen nhw hefyd wedi'u rhestru'n ambr yn rhestr yr Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU oherwydd pwysigrwydd rhyngwladol y boblogaeth a'r ffaith bod cytrefi bridio'n agored i niwed, ond maen nhw ar y pryder isaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang.

Er gwaethaf pryderon am gadwraeth, mae poblogaeth gweilch y penwaig yng Nghymru wedi cynyddu 82% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 12,983 o unigolion yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 23,640 o unigolion yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Mae poblogaethau gweilch y penwaig y DU hefyd wedi cynyddu 18%, o 190,397 i 225,015 o unigolion.

Mae carfilod wedi cael eu heffeithio gan Ffliw Adar, ond credir bod gweilch y penwaig mewn llai o berygl na gwylogod er nad yw'r effeithiau wedi'u mesur.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Ychydig a wyddom am statws hanesyddol gweilch y penwaig yng Nghymru. Cofnodwyd bridio ar Ynys Seiriol ym Môn, yn 1662 ac ar y Gogarth yn 1833. Roedd hela a chasglu wyau i'w bwyta gan bobl yn arferion cyffredin nes iddynt gael eu gwahardd yn y DU gan gyflwyniad Deddf Cadwraeth Adar Môr 1869. Roedd cyfrifon o tua throad yr 20fed ganrif yn awgrymu fod gweilch y penwaig i'w cael yn bennaf yn yr un manau ag y maent yn bridio heddiw, a dyma awgrymodd arolwg Operation Seafarer 1969 -70 hefyd. Mae tua 70% o boblogaeth Cymru yn bridio ar chwe ynys, neu ranbarth o glogwyni: Sgomer, Sgogwm, Enlli, Ynys Dewi, Pont Werdd Cymru i Fae Flimston yn Sir Benfro, ac RSPB Ynys Lawd ym Môn. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd bridio presennol wedi cael eu defnyddio ers diwedd yr Ail Ryfel Byd o leiaf.

Er gwaethaf y diffyg data am rifau gweilch y penwaig cyn hyn, gellir tybio bod eu tueddiad poblogaeth yn dilyn tueddiadau gwylogod a phalod. Gostyngodd poblogaeth gweilch y penwaig yng Nghymru tan tua 1970, oherwydd llygredd o longau a suddwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a gollyngiadau olew pellach yn y 1960au, yn ogystal â marwolaethau torfol ym Môn Iwerddon ar ôl tymor bridio 1969, o bosibl oherwydd llygredd cemegol gwenwynig. Arhosodd niferoedd gweilch y penwaig yn gymharol sefydlog tan Gyfrifiad Cofrestr Cytrefi Adar y Môr yn 1985-88 ac maent wedi cynyddu ers hynny.


Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae gweilch y penwaig yn nodwedd ddynodedig o Sgomer, Sgogwm a'r moroedd oddi ar ardal gwarchoddedig arbennig Sir Benfro. Yn ogystal, mae gweilch y penwaig yn nodweddion o SoDdGA Clogwyni a Thwyni Castellmartin a Phen y Gogarth/y Gogarth. Mae chwe safle bridio yn cyfrif am 70% o boblogaeth Cymru, gyda'r 30% sy'n weddill yn bridio mewn grwpiau bach ar hyd arfordir y gorllewin rhwng Sir Benfro ac Ynys Môn. Mae gweilch y penwaig yn sensitif i effeithiau uniongyrchol yn ystod y tymhorau bridio a thu allan i'r tymhorau bridio, gan gynnwys gollyngiadau olew, sgil-ddalfeydd, a dadleoli o ffermydd gwynt ar y môr. Maent mewn perygl o gael eu dal mewn rhwydi drysu pysgodfeydd.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Er bod y poblogaethau o weilch y penwaig yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, mae'r achosion diweddar o Ffliw Adar yn debygol o fod wedi effeithio ar gytrefi yng Nghymru. Nid yw maint y pwysau hwn ar weilch y penwaig wedi cael ei fesur hyd yn hyn yng Nghymru o ystyried dyfodiad hwyr y feirws i Gymru o'i gymharu â gweddill y DU. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o weilch y penwaig ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer gweilch y penwaig wedi ei benderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd. Felly, dyma'r sensitifrwydd i newid a ragwelir os na chaiff y risgiau hyn eu lliniaru.

Newid hinsawdd

Bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at gynnydd yn amllder a dwyster stormydd fel y rhai yn 2013 -14 a ddifaodd nifer mawr o adar môr rhwng Môr Udd a Bae Gwasgwyn. Bydd argaeledd bwyd hefyd yn cael ei effeithio, gan fod gweilch y penwaig yn ddibynnol iawn ar lymrïaid a gallai tymereddau uwch y môr achosi newidiadau yn eu digonedd a'u dosbarthiad (gwyddys fod tymereddau uwch y môr yn lleihau nifer y lymrïaid). Rhagwelir y bydd ystod bridio gweilch y penwaig yn symud i ffwrdd o dde Prydain, gan gynnwys Sir Benfro, yn ystod yr 21ain ganrif.

Sgil-ddalffa

Mae pysgota â rhwydi monofilament modern hefyd yn achosi marwolaethau ymysg gweilch y penwaig. Roedd sgil-ddalfeydd mewn rhwydi pysgota yn gyfrannwr sylweddol at farwolaeth gweilch y penwaig oddi ar arfordiroedd de a gorllewin Iwerddon o'r 1960au o leiaf.

Llygredd

Gweilch y penwaig yw'r ail rywogaeth o adar môr mwyaf cyffredin i farw yn y rhan fwyaf o arllwysyadau olew mawr. Credwyd bod difa difrifol o garfilod ym Môr Iwerddon ym 1969 wedi'i achosi gan llygredd cemegol gwenwynig, er na ellid dod i gasgliadau cadarn.

Dadleoliad

Mae gweilch y penwaig i'w gweld yn osgoi ffermydd gwynt ar y môr, a gallai hynny gyfyngu ar argaeledd bwyd a chynyddu'r ynni y mae'n rhaid iddynt ei ddefnyddio yn ystod teithiau fforio.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytrefi yng Nghymru.
- ♦ Mae'r ddealltwriaeth o'r risgiau posibl i'r boblogaeth o gael eu dal mewn rhwydi drysu a dyfeisiau llanw yn gyfyngedig yng Nghymru ar hyn o bryd.
- ♦ Nid yw effaith Ffliw Adar ar boblogaethau Cymru o weilch y penwaig wedi ei meintoli eto.

Cyfleoedd

- Bydd prosiectau tagio i ganfod patrymau fforio cytrefi yn darparu mwy o wybodaeth ar gyfer gwneud gwell asesiadau effaith o sgil-ddaliad a'r sector ynni adnewyddadwy morol, yn ogystal â deall newidiadau posibl i ddosbarthiad yr ysglyfaeth oherwydd newid yn yr hinsawdd.
- Mae llygod mawr wedi ail-gytrefu Ynys Seiriol oddi ar Ynys Môn yn 2020 ar ôl cael eu dileu yn flaenorol. Er bod gwaith yn digwydd i'w dileu, byddai astudiaethau pellach ar fioldiogelwch i atal cytrefu llygod mawr yn y dyfodol yn fuddiol.
- Astudiaethau o effaith sgil-ddalffa mewn rhwydi drysu pysgodfeydd ar boblogaethau.

GWYLOG DDU (Black Guillemot)

(*Cephus grille*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Yng Nghymru, mae gwylogod duon yn bridio mewn rhai lleoliadau ar wahân ar arfordir Ynys Môn, y Gogarth, a Phenrhyn Llyn. Gellir eu gweld yn fforio ar hyd arfordir Cymru drwy gydol y flwyddyn.

Maent yn bridio i ffwrdd oddi wrth gytrefi clogwyni adar môr mawrion a gellir eu gweld ar waelod clogwyni serth, mewn ynysigau creigiog ac ar hyd rhannau isel o'r arfordir. Maent fel arfer yn nythu mewn agennau creigiog neu o dan glogfeini ond byddant hefyd yn defnyddio strwythurau dynol fel pierau a nythod artiffisial.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae gwylogod duon wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) oherwydd dirywiad cymedrol yn eu poblogaeth fridio a maint bach y boblogaeth. Maen nhw hefyd wedi'u rhestru'n ambr yn rhestr yr Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU, ond maen nhw ar y pryder isaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang.

Mae poblogaeth y gwylogod duon yng Nghymru wedi cynyddu 15% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 33 o unigolion yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 38 o unigolion yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). I'r gwrthwyneb, mae poblogaeth gwylogod duon y DU wedi gostwng o 39,572 i 35,193 o unigolion, sef gostyngiad o 11%.

Ni fu unrhyw gofnodion o fflw adar mewn gwylogod du yn ystod yr achosion presennol, ac mae ecoleg y rhywogaeth hon yn ei gwneud yn llai agored i farwolaethau torfol.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae gwylogod duon bob amser wedi bod yn brin yng Nghymru ond roeddent yn fwy eang yn y gorffennol. Yn y 1770au, cofnodwyd parau bridio yn y Gogarth a Thrwyn y Fuwch ac ar Ynys Llanddwyn ym Môn. Mae cyfrif arall o 1802 yn nodi bod rhai gwylogod duon wedi bridio ger Dinbych-y-pysgod. Fodd bynnag, erbyn diwedd y 19eg ganrif, roedd yn ymddangos nad oedd y rhywogaeth hon bellach yn cael ei bridio yng Nghymru. Efallai fod pâr wedi bridio ar Ynys Moelfre ym Môn yn 1912 ac roedd rhywfaint o dystiolaeth o weithgaredd bridio yn y 1950au ym Môn ac ar Ynys Sant Tudwal yng Ngwynedd, ond ni phrofwyd hyn.

Y cofnod bridio cyntaf a gadarnhawyd o'r 20fed ganrif oedd yn 1962 yn y Fali, Ynys Môn. Erbyn canol y 1960au, roedd dau bâr yn bridio yn Fedw Fawr, Ynys Môn. Roedd Atlas Prydain ac Iwerddon 1968 -72 yn cofnodi bridio mewn pum safle o amgylch Ynys Môn. Mae poblogaeth Cymru wedi tyfu'n araf ers hynny, gyda chyfrifiad Operation Seafarer yn 1969 -70 yn cyfrif 5 unigolyn a chyfrifiad Cofrestr Trefedigaethau Adar y Môr yn 1985 -88 yn cyfrif 26 o unigolion.

Ardaloedd a ddefnyddir

Mae gwylogod duon wedi'u cofnodi ar chwe safle, yn bennaf o amgylch Ynys Môn. Nid yw'r rhywogaeth hon wedi'i rhestru'n benodol fel nodwedd o fewn safle gwarchoddedig yn nyfroedd Cymru.

Fel arfer mae gwylogod duon yn fforio o fewn 0.5-4km i'r lan, gan dargedu cynefinoedd ar bonciau tywod a chrynodiadau o forwiail. Mae'r cynefinoedd hyn yn nodweddion gwarchoddedig o fewn rhai AGA ar y glannau. Os yw unigolion yn defnyddio'r ardaloedd hyn, mae risg o aflonyddu gan longau. Mae'r dosbarthiadau ar gyfer bwrw'r gaeaf yn debyg i'r dosbarthiadau ar gyfer bridio, a chyfyngedig yw'r gwasgariad genedigol.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (G)



Llongau (A)



Olew a Nwy (G)



Pysgota (G)




Hamdden (A)



Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)



Coch (R) = sensitifrydd uchel, Ambr (A) = sensitifrydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrydd isel

Statws yr Effaith Gyfredol: Ambr

Er gwaethaf y cynnydd yn y boblogaeth o wylogod duon yng Nghymru rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021, mae'r wylog ddu'n agored i niwed oherwydd ei maint bach. Mae hefyd yn bwysig ystyried y dirywiad bychan ym mhoblogaethau ehangach y DU o wylogod duon ac effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach. Er ei bod yn rhywogaeth arfordirol i raddau helaeth, ac mae'n annhebygol y bydd ffermydd gwynt ar y môr yn achosi effeithiau ar raddfa'r boblogaeth, gall datblygiadau eraill mewn dyfroedd y glannau, fel tyrbinau llanw, achosi effeithiau andwyol.

Sgôr sensitifrwydd: Ambr

Gall poblogaeth Cymru fod yn agored i ddigwyddiadau llygredd yn agos at drefedigaethau. Yn ogystal, bydd gweithgareddau diwydiannol cynyddol datblygiadau gan longau a datblygiadau alltraeth ym Môr Iwerddon, yn ogystal â newid yn yr hinsawdd, yn debygol o gynyddu'r effeithiau posibl ar y boblogaeth o wylogod du.

Aflonyddwch

Dangoswyd bod y wylog ddu yn un o'r rhywogaethau mwyaf sensitif i aflonyddwch gan draffig cludo mewn llong, gyda dros 90% o unigolion yn dangos ymatebion osgoi. Mae'r rhywogaeth hefyd yn sensitif iawn i bresenoldeb dynol rheolaidd ar dir bridio, ac yn cael effeithiau ar lefel y boblogaeth o bosib. Ystyrir bod gan y wylog ddu, fel rhywogaethau carfilod eraill, botensial dadleoli cymharol uchel mewn perthynas â ffermydd gwynt ar y môr.

Ysglyfaethu

Adroddir bod gwylogod duon yn agored iawn i gael eu hysglyfaethu gan fincod Americanaidd mewn safleoedd bridio, a allai arwain at ddileu poblogaethau lleol yn llwyr.

Newid Hinsawdd

Mae modelu'r hinsawdd yn rhagweld na fydd Cymru bellach o fewn ei hystod fridio o'r gwylogod du erbyn diwedd yr 21ain ganrif.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ♦ Gan y gwyddys bod gwylogod du yn sensitif iawn i longau, tybir y byddant hefyd yn sensitif i ddatblygiad diwydiannol newydd fel gwynt ar y môr, ynni'r llanw, a ffermio gwymon. Nid yw maint y risg hon yn hysbys i raddau helaeth gan fod astudiaethau penodol wedi'u targedu yn gyfyngedig ar hyn o bryd.
- ♦ Cyfyngedig yw'r adroddiadau sy'n manylu ar effeithiau posibl gollyngiadau olew ar gyfer gwylogod duon. Gan mai dim ond nifer fach o gytrefi o wylogod duon sydd yng Nghymru, mae poblogaeth Cymru'n debygol o fod yn sensitif iawn i ollyngiadau olew yn yr ardaloedd hyn.
- ♦ Mae dosraniadau graddfa fain o ddsbarthiadau gwylogod du ac ysglyfaeth wedi'u cyfyngu am mai prin yw'r argaeledd data ar hyn o bryd. Er mwyn deall beth sy'n gyrru newidiadau mewn dosraniadau mewn hinsawdd sy'n newid, dylid ystyried defnyddio dulliau arolwg cyfannol i lenwi bylchau mewn gwytodaeth.
- ♦ Gwyddom fod sgil-ddalfeydd yn cael effaith sylweddol ar boblogaethau gwylogod duon y tu allan i'r DU. Tybir nad yw hyn yn wir ym Mhrydain ac Iwerddon, fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad hwn pan oedd y poblogaethau carfilod yn cynyddu ac efallai y bydd angen gwneud astudiaethau pellach.
- ♦ Gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytrefi yng Nghymru.

Cyfleoedd

- ♦ Bydd sefydlu arolygon systematig sy'n canolbwyntio ar ddsbarthiadau gwylogod duon Cymru a ddsbarthiad eu hoff ysglyfaeth yn llywio nifer o asesiadau effaith y diwydiant yn ogystal â llywio'r gwaith o reoli'r boblogaeth a rheoli ecosystemau yn ehangach sydd eu hangen i ddiogelu'r rhywogaeth hon.
- ♦ Gallai cysylltu gwytodaeth ddsbarthu â'r wybodaeth llongau sydd ar gael arwain at well dealltwriaeth o effeithiau aflonyddwch ar wylogod duon. Gellid casglu ffynonellau data fel gwytodaeth VMS ac AIS i ddeall yr effeithiau posibl ar y boblogaeth trwy foddelu effaith y boblogaeth ar sail egnïol.
- ♦ Bydd monitro a rheoli poblogaethau mincod yn briodol ger cytrefi gwylogod duon yn dod â manteision i sawl rhywogaeth sy'n rhannu cytrefi â gwylogod duon.
- ♦ Defnyddio allbynnau o ddsbarthiadau a chynefinoedd ysglyfaethus penodol yng Nghymru i greu safleoedd nythu artiffisial i annog creu cytrefi ychwanegol yng Nghymru a gwella gwytnwch ym mhoblogaeth Cymru.

Pâl (Atlantic puffin)

(*Fratercula arctica*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Yng Nghymru, mae palod yn bridio mewn rhai safleoedd ar wahân ym Môn, Gwynedd a Sir Benfro. Gellir eu gweld yn fforio ar y môr ar hyd a lled dyfroedd Cymru rhwng misoedd Ebrill ac Awst.

Y tu allan i'r tymor bridio mae palod wedi ei gwasgaru'n eang ar y môr ar ddwysedd isel ac yn bennaf y tu allan i ddyfroedd Cymru.

Maent yn nythu ar ynysoedd alltraeth ac mewn ardaloedd o arfordir y tir mawr sy'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr y tir, gan nythu mewn tyllau a gloddiwyd i'r pridd neu mewn agennau rhwng clogfeini.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r pâl wedi'i restru'n goch yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru 4 (BoCCW4) a'r Adar o Bryder Cadwraeth 5 (BoCC5) yn y DU oherwydd ei bresenoldeb fel aderyn sy'n agored i niwed ar y rhestr goch IUCN fyd-eang. Mae Palod hefyd ar y Rhestr Goch Ewropeaidd o Adar. Y rheswm am hyn yw'r gostyngiad yn yr ardaloedd lle maent fwyaf helaeth yng Ngwlad yr Iâ a Sgandinafia.

Mae poblogaeth y pâl yng Nghymru wedi cynyddu 197% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 10,325 o dwyni yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000 a chofnodwyd 30,663 o dwyni o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). I'r gwrthwyneb, mae poblogaethau palod y DU wedi gostwng o 554,070 i 474,679 o dwyni yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio, sef gostyngiad o 14%.

Gwyddom fod y fflw adar wedi digwydd mewn palod ond ni wyddys am unrhyw farwolaethau torfol yng Nghymru ac nid yw'n ymddangos ei fod wedi cael effaith ar lefel y boblogaeth yng Nghymru.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Ar un adeg roedd poblogaeth y pâl yng Nghymru yn llawer uwch ac roedd cytrefi yn bodoli ar draws sawl ynys gan gynnwys Ynys Byr, Ynys St Margaret, Ynys Dewi ac Ynys Aberteifi - nid oes yr un o'r cytrefi hyn yn bodoli heddiw. Cofnodwyd cannoedd o filoedd o adar cyn dirywiad sylweddol ar ddechrau'r 20fed ganrif, gyda chytrefi mawr yn Sir Benfro a Môn. Roedd y cytrefi lle cafwyd dirywiad yn cynnwys Sgomer ac Ynys Seiriol, a oedd bron yn anghyfannedd llwyr. Nid yw union achosion y dirywiad hwn wedi'u deall yn llawn ond credir bod ysglyfaethu gan lygod mawr, ecsbloetio dynol a newidiadau mewn argaeledd bwyd o ganlyniad i ffactorau amgylcheddol sy'n newid yn ffactorau yn debygol o fod wedi cyfrannu. Mae'r pâl hefyd yn agored i dywydd garw yn y tymor bridio a'r tymor pan nad ydynt yn bridio. Er enghraifft, achosodd stormydd eithafol yng Ngogledd yr Iwerydd yn ystod gaeaf 2013-14 farwolaethau torfol—cofnodwyd 29,000 o balod marw ac roedd 7% o'r adar modrwyog a adferwyd yn rhai o gytref yng Nghymru. Ar ben hynny, gostyngodd cyfraddau goroesi oedolion ar Sgomer o 90% i 75%. Sgomer a Sgogwm yw'r ddwy brif gytref yng Nghymru ers cwmp cytref Ynys Gwales ar ddechrau'r 20fed ganrif. Mae eu niferoedd wedi bod yn gwella'n raddol ers dechrau'r 1990au, er eu bod yn dal i fod yn llawer is na'u lefelau blaenorol.

Yr ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae palod yn nodwedd warchoddedig o AGA Sgomer, Sgogwm a'r Moroedd oddi ar Sir Benfro (Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro) a SoDdGA Ynysoedd y Gwylanod. Gellir dod o hyd i gytrefi mawr eraill ar Ynys Seiriol, y Moelrhoniaid, Ynys Lawd ac Enlli. Mae cytrefi palod i'w cael yn bennaf ar gorneli gogledd-orllewinol a de-orllewinol Cymru, gyda'r dosbarthiadau ar y môr yn gyffredinol yn dangos defnydd eang o Fôr Iwerddon.

Oherwydd eu dosbarthiad eang, mae palod yn aml yn dod i gysylltiad ag ystod eang o weithgareddau anthropogenig. Fodd bynnag, oherwydd eu hecoleg a'u hymddygiad fforio, mae'r effeithiau uniongyrchol posibl wedi'u cyfyngu'n bennaf i gael eu dal mewn rhwydi drysu ar yr arfordir a chael eu dadleoli oherwydd ffermydd gwynt ar y môr.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (G)



Llongau (G)



Olew a Nwy (A)



Pysgota(A)




Hamdden (G)



Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel

Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Mae'r poblogaethau palod yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021. Fodd bynnag, o ystyried dirywiad ehangach yn y DU ac yn rhyngwladol, mae'n bwysig ystyried yr effeithiau trawsffiniol posibl a allai effeithio ar boblogaethau Cymru yn ddiweddarach. Mae newidiadau yn nosbarthiad y rhywogaethau ysglyfaethus o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn bryder parhaus ar gyfer palod a allai effeithio ar boblogaethau bridio a gaeafu a hefyd effeithio ar lwyddiant bridio a goroesiad oedolion.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar ddibyniaeth y rhywogaeth ar rywogaethau ysglyfaethus y gwyddys eu bod yn symud gyda newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â bod dan risg o ddadleoliad oherwydd fferymydd gwynt ar y môr.

Argaeledd Bwyd

Mae tystiolaeth anghyson ynghylch a yw newidiadau mewn argaeledd bwyd yn effeithio ar lwyddiant bridio palod, gyda'r rhagfynegiad y bydd tiroedd bwydo addas yn symud tua'r gogledd wrth i'r hinsawdd barhau i newid. Yn gyffredinol, mae palod sy'n oedolion yn lleihau eu hymdrechion cyflenwi er mwyn sicrhau eu goroesiad eu hunain os yw argaeledd eu hysglyfaeth yn isel. Fodd bynnag, credir bod y rhan fwyaf o farwolaethau palod yn digwydd yn ystod y gaeaf, felly gall argaeledd bwyd fod yn elfen hanfodol bwysig yn ystod y tymor pan nad ydynt yn bridio.

Cynefin / ysglyfaethu nythod

Gall palod gael eu heffeithio'n uniongyrchol pan gyflwynir rhywogaethau anfrodorol, o ganlyniad i ysglyfaethu wyau a chywion. Mae tystiolaeth i ddangos y gall presenoldeb llygod mawr brown (a llygod o bosibl) mewn cynefinoedd arfordirol gael effaith negyddol ar niferoedd y palod. Hefyd, wrth i ddwysedd bridio mewn cytrefi palod gynyddu, gall y ddaear ddod yn rhesi dryslyd o dyllau fel bod sefydlogrwydd ffisegol eu cynefin bridio'n gostwng. Mae tystiolaeth o hyn i'w gweld yng Nghymru ar Ynys Gwales, lle cwmpodd y gytreff fridio ar droad yr 20fed ganrif.

Llygredd

Yn gyffredinol, mae palod yn agored iawn i gael eu heffeithio gan ollyngiadau olew yn seiliedig ar gyfran yr unigolion sydd wedi'u gorchuddio ag olew pan gânt eu canfod yn farw ar y draethlin. Gellir egluro pam eu bod mor agored i gael eu heffeithio gan olew drwy ystyried y gyfran uchel o amser y maen nhw'n ei dreulio ar y môr.

Bylchau yn y dystiolaeth

◆ Ni wyddys i raddau helaeth beth yw gwasgariad poblogaethau Cymru a'r DU ehangach dros y gaeaf, am mai nifer bychan iawn o astudiaethau graddfa fawr a wnaethpwyd yn ddiweddar. O ystyried eu sensitifrwydd posibl i ostyngiad mewn argaeledd bwyd, bydd newidiadau mewn ysglyfaeth o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar dueddiadau'r boblogaeth yn y dyfodol. Gellir deall hyn orau drwy wneud astudiaethau o ddosbarthiad rhywogaethau palod a'u hoff ysglyfaeth.

◆ Mae deall y risgiau posibl i'r boblogaeth o gael eu dal mewn rhwydi drysu a dyfeisiau llanw wedi ei gyfyngu ar hyn o bryd oherwydd maint y diwydiant.

◆ Deall gallu a phosibilrwydd denu a thrawsleoli palod i ynysoedd ar y môr lle'r oedd cytrefi yn bresennol yn hanesyddol.

◆ Gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytreffi yng Nghymru.

Cyfleoedd

• Bydd prosiectau tagio i ganfod patrymau fforio cytrefi yn darparu mwy o wybodaeth ar gyfer gwneud gwell asesiadau effaith o sgil-ddaliad, y sector ynni adnewyddadwy morol, yn ogystal â deall newidiadau posibl i ddosbarthiad yr ysglyfaeth oherwydd newid yn yr hinsawdd. Byddai hyn hefyd yn caniatáu dealltwriaeth o ble mae adar bridio Cymru'n bwrw'r gaeaf.

• Gallai cael gwared ar famaliaid goresgynnol mewn safleoedd nythu addas ar ynysoedd a arferai gael eu defnyddio gan gytreffi palod eu hysgogi i ddychwelyd yno eto a chefnogi sefydlogrwydd a thwf ym mhoblogaeth Cymru.

TROCHYDD GYDDFGOCH

(Red-throated Diver) (*Gavia stellata*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae'r trochyddion gyddfgoch wedi eu dosbarthu o amgylch y pegwn ac, yn y DU, maen nhw'n bridio yn yr Alban. Mae'r rhywogaeth yn bwrw'r gaeaf yn eang yng Nghymru a dyma'r rhywogaeth trochydd sydd wedi bod fwyaf cyffredin erioed ar hyd arfordir Cymru.

Maen nhw'n mynd ar drywydd helwyr, yn bwydo ar bysgod, ac maen nhw'n ffafrio baeau mawr, bas, tywodlyd.

Cofnodir y dwysedd uchaf o drochyddion gyddfgoch sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru ym Mae Ceredigion, Bae Caernarfon, a Thraeth Lafan. Mae'r cofnodion mewndirol yn afreolaidd o gymharu â rhywogaethau trochi eraill.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r trochydd gyddfgoch wedi'i restru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4), gan fod y boblogaeth sy'n bwrw'r gaeaf wedi'i lleoli i raddau helaeth o fewn ychydig o safleoedd, ond mae wedi'i restru'n wyrdd yn y DU (BoCC5). Mae'r rhywogaeth wedi'i dosbarthu fel rhywogaeth pryder lleiaf ar y rhestrau coch IUCN byd-eang ac Ewropeaidd.

Amcangyfrifwyd mai poblogaeth y trochyddion gyddfgoch sy'n bwrw'r gaeaf ar hyd arfordir Cymru oedd 1,300 -1,400 o unigolion yn 2008 (tua 8% o gyfanswm poblogaeth y DU sy'n bwrw'r gaeaf). Mae hyn yn sylweddol is na'r nifer uchaf o 1,916 rhwng Wallog a Llanbedrog yn Sir Gaernarfon yn 1997, sy'n record i Gymru.

Mae nifer y trochyddion gyddfgoch ar y prif safleoedd oddi ar arfordir Cymru yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'r Arolwg Adar Gwlyptir (WeBS) yn cwmpasu'r rhywogaeth yn dda gan fod angen amodau tawel a gwelededd da i wneud cyfrifiadau cywir. Fodd bynnag, mae mynegeion WeBS ar gyfer Cymru'n awgrymu dirywiad yn y blynyddoedd diwethaf (2000/01 i 2018/19).

Nid yw'r fflw adar wedi'i gadarnhau yn y trochyddion gyddfgoch yn yr achos sy'n digwydd ar hyn o bryd ac ni chredir bod y salwch hwn yn fygythiad i boblogaeth Cymru.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Canfuwyd fod Bae Ceredigion yn safle pwysig ar gyfer trochyddion gyddfgoch ar ddiwedd y 1970au, gyda chofnod am tua 100 o adar gerllaw Wallog, Ceredigion, ym mis Ionawr 1977. Cynyddodd y niferoedd a gofnodwyd dros y ddau ddegawd nesaf yn dilyn arolygon wedi'u cydlynu yn rhan ogleddol y bae, gyda chyfrifon brig y gaeaf yn amrywio o 252 i uchafswm o 1,916 o adar. Mae'n debygol erbyn hyn bod llai o drochyddion gyddfgoch ym Mae Ceredigion yn y gaeaf nag yn y 1990au. Am nad oes arolygon safonol, mae'n anodd cadarnhau hyn, ond efallai mai un o brif ysgogwyr y dirywiad diweddar oedd arllwysiad olew yn Sir Benfro yn 1996.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae trochyddion gyddfgoch yn nodwedd ddynodedig o AGA Bae Lerpwl a Gogledd Bae Ceredigion. Mae asesiadau o effeithiau gweithgareddau dynol ar drochyddion gyddfgoch yn seiliedig i raddau helaeth ar dystiolaeth a gasglwyd mewn mannau eraill yn Ewrop, gan fod data Cymru wedi bod yn gyfyngedig i raddau, ac mae methodolegau arolygu gwahanol i'w gilydd wedi cael eu defnyddio yng Nghymru hyd yn hyn.

Mae trochyddion gyddfgoch yn sensitif iawn i weithgareddau dynol ar y môr, fel traffig cychod a ffermydd gwynt ar y môr, ac maen nhw'n cael eu dadleoli'n hawdd ganddynt. Mae'r gweithgareddau sy'n effeithio ar drochyddion gyddfgoch sy'n bwrw'r gaeaf, am eu bod yn eu dadleoli, yn cynnwys llongau a thyrbinau gwynt alltraeth sydd ar waith, yn ogystal â rhwystrau i'w symudiadau a achosir gan seilwaith morol. Oherwydd eu defnydd o ddyfroedd bas ger y lan, mae'r rhwystrau hyn hefyd yn cynnwys morlynnoedd llanw a thyrbinau. Mae llygredd olew yn fygythiad mawr arall i'r rhywogaeth hon.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (R)



Olew a Nwy (A)



Pysgota (A)



Hamdden (R)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Ambr

Mae statws oren y trochydd gyddfgoch yng Nghymru'n seiliedig ar y maen prawf bod poblogaeth y gaeaf yn lleol iawn. Oherwydd hyn, mae'r boblogaeth mewn mwy o berygl o ddigwyddiadau stocastig, yn ogystal â seilwaith morol neu fwy o longau mewn ardaloedd allweddol. Mae'r rhywogaeth yn agored iawn i ollyngiadau oled sy'n peri risg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae crynodiadau uchel o adar, fel Bae Ceredigion. Efallai fod yr achosion diweddar o fflw adar wedi effeithio ar niferoedd bach o ddeifwyr gyddfgoch yn yr Alban, fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto, ac mae'r risg i'r boblogaeth yn isel am eu bod yn bridio ac yn bwrw'r gaeaf mewn dwyseddau isel.

Sgôr sensitifrwydd: Coch

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaeth y gaeaf o drochyddion gyddfgoch wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i ddefnydd uwch o'r ardal forol hon ar gyfer datblygiad.

Llygredd morol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod adar sy'n trochi'n arbennig o agored i gael eu heffeithio gan ollyngiadau oled oherwydd faint o amser y mae'r rhywogaethau hyn yn ei dreulio mewn cysylltiad ag arwyneb y dwr, ynghyd â'u cyfradd atgenhedlu isel a fydd yn arwain at adferiad araf o ddigwyddiadau trychinebus. Roedd 81 o drochyddion gyddfgoch ymhlith y rhai a anafwyd yn arllwysiad oledw'r Sea Empress yn 1996 oddi ar Aberdaugleddau, a thybiwyd bod hyn yn gyfran uchel iawn o'r boblogaeth oedd yn bwrw'r gaeaf yn lleol ar adeg yr arllwysiad.

Aflonyddwch dynol

Yn gyffredinol, mae trochyddion yn osgoi ardaloedd â dwyster llongau uchel ac yn dangos y pellteroedd dianc hiraf a'r cyfrannau uchaf o unigolion sy'n dianc o'u cymharu â phob rhywogaeth arall o adar y môr. Mae tystiolaeth sylweddol o ardaloedd morol y tu allan i Gymru yn awgrymu bod trochyddion gyddfgoch yn cael eu dadleoli'n eang gan ffermydd gwynt gweithredol ar y môr a gweithgaredd llongau cysylltiedig, a bod dadleoliad yn bosibl am hyd oes y fferm wynt weithredol. Mae morlynnoedd llanw hefyd yn fygythiad posibl i'r rhywogaeth hon oherwydd colli cynefinoedd posibl.

Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar ddosbarthiad yr ysglyfaeth y mae trochyddion gyddfgoch sy'n bwrw'r gaeaf yn dibynnu arno.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Digonedd a dosbarthiad tymhorol y trochyddion gyddfgoch oddi ar arfordir Cymru.
- ◆ Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd o bwysigrwydd ffynonellau ysglyfaeth ym Mae Lerpwl a Bae Ceredigion.
- ◆ Data arolwg tymor hir yn seiliedig ar dechnegau cyfrifiad cymaradwy.
- ◆ Trosglwyddadwyedd pellteroedd cychwyn hedfan ac osgoi a bennir mewn manau eraill ar gyfer trochyddion gyddfgoch i'r sefyllfa yng Nghymru.
- ◆ Lefelau presennol o lygryddion megis hydrocarbonau mewn trochyddion gyddfgoch oddi ar arfordir Cymru.
- ◆ Faint y mae'r trochyddion gyddfgoch yn cael eu sgil-ddal/clymu mewn offer pysgota wedi'i adael ar hyd arfordir Cymru.
- ◆ Y potensial ar gyfer effeithiau poblogaeth yr achosion diweddar o Fflw Adar.

Cyfleoedd

- ◆ Dadansoddiad manwl o ddosbarthiad a digonedd y trochyddion gyddfgoch ar y môr, e.e. trwy arolygon awyrol digidol pwrpasol a thagio.
- ◆ Datblygu cyfresi data tymor hir gan ddefnyddio dulliau safonol i feintioli tueddiadau poblogaeth a newidiadau dosbarthu yn well mewn ymateb i newid amgylcheddol.
- ◆ Dealltwriaeth well o hyntiau mudo'r trochyddion gyddfgoch drwy ddyfroedd Cymru a phoblogaeth ffynhonnell yr adar sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru.
- ◆ Yr arolygon diweddaraf o AGA gan gynnwys AGA Bae Lerpwl a Bae Ceredigion.
- ◆ Adolygu a phrofi mesurau lliniaru ffermydd gwynt ar y môr.

TROCHYDD MAWR

(Great Northern Diver)

(*Gavia immer*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae'r trochyddion mawr yn bridio yng ngogledd Gogledd America, yr Ynys Las, Gwlad yr Iâ ac ar Ynys yr Arth yn Norwy. Credir bod adar sy'n bwrw'r gaeaf ar hyd arfordiroedd Cymru yn dod o Wlad yr Iâ, yr Ynys Las a Chanada yn bennaf.

Yng Nghymru, cofnodir trochyddion mawr fel arfer oddi ar yr arfordir rhwng mis Awst a diwedd mis Mai, a hyd yn oed i mewn i fis Mehefin. Mae prif gasgliad y gaeaf yng Nghymru i'w weld ym Mae Caernarfon, lle gall fod hyd at 100 o adar yn bresennol. Mae yna hefyd gasgliadau llai eraill yn achlysurol mewn amryw safleoedd eraill o amgylch gogledd a de Cymru.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r trochydd mawr wedi'i restru'n wyrdd yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac ambr yn y DU (BoCC5) oherwydd y boblogaeth aeafu sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae'r rhywogaeth wedi'i chategoreiddio ar y pryder lleiaf ar y rhestr goch IUCN fyd-eang, ac fe'i hystyrir yn agored i niwed ar y rhestr IUCN Ewropeaidd.

Amcangyfrifir bod 4,300 o drochyddion mawr yn treulio'r gaeaf o amgylch Prydain, ond dim ond cyfran fach o'r rhain sydd yn nyfroedd Cymru. Mae'n debyg nad yw'r boblogaeth sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru yn fwy na 150 o adar, ac mae mwy o adar yn symud drwy'r lle adeg ymfudiad y gwanwyn a'r hydref.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Adroddwyd yn llai aml am y trochyddion mawr oddi ar arfordir Cymru yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif, er eu bod weithiau'n niferus yn Sir Benfro. Mae'n debyg bod y niferoedd wedi cynyddu o ddiwedd y 1950au ymlaen (7 -8 unigolyn ym Mae Conwy, Gwynedd/Ynys Môn; 8 ar Aber yr Afon Dyfrdwy, Sir y Fflint/Cilgwrri). Dywedwyd mai'r trochyddion mawr oedd y rhywogaethau trochi mwyaf cyffredin o bell ffordd ym Morgannwg yn ystod 1967 -79 (o leiaf 15 unigolyn ym 1976). Cynyddodd y cofnodion yn gynnar yn yr unfed ganrif ar hugain wrth iddi ddod i'r amlwg bod gan Fae Caernarfon nifer fawr o drochyddion mawr, oedd uwchlaw'r throthwy rhyngwladol (>50 unigolyn) a throthwy Phrydain (>43 unigolyn) ar gyfer pwysigrwydd ar ddiwedd y gaeaf/yn gynnar yn y gwanwyn pan fydd adar yn bwrw eu plu.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw AGA neu SoDdGA wedi'u dynodi ar gyfer trochyddion mawr. Oherwydd nifer a dwysedd cymharol isel y trochyddion mawr sy'n bwrw'r gaeaf yn nyfroedd y DU a Chymru, mae asesiad o effeithiau gweithgarwch dynol yn deillio o dystiolaeth am rywogaethau dirprwyol cysylltiedig (h.y. gyddfgoch) sy'n fwy niferus yn y gaeaf.

Effeithiau gweithgarwch dynol ar rywogaethau o drochyddion sydd wedi'u dogfennu mewn mannau eraill yw dadleoliad graddfa fawr yn bennaf o gynefin fforio addas, e.e. gan dyrbinau gwynt alltraeth gweithredol a llongau. Mae trochyddion mawr yn defnyddio dyfroedd dyfnach a chredir eu bod yn llai sensitif i aflonyddwch na throchyddion gyddfgoch, ond nid oes llenyddiaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth hon.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir a'r risg a ragwelir



Porthladdoedd a charthu (A)



Llongau (R)



Olew a Nwy (A)



Pysgota (A)



Hamdden (R)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (R)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: Gwyrdd

Er bod rhai trochyddion mawr wedi cael eu dal a'u bodd i mewn rhwydi pysgota, ymddengys nad oes llawer o fygythiadau cadwraeth systemig yn nyfroedd Cymru. Mae'r rhywogaeth yn agored iawn i ollyngiadau olew sy'n peri risg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae crynodiadau uchel o adar, fel Bae Ceredigion. Gall datblygiadau gwynt alltraeth posibl ym Mae Caernarfon yn y dyfodol achosi aflonyddwch a dadleoliad tymor hir ar gyfer y rhywogaeth hon.

Sgôr sensitifrwydd: Ambr

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaeth y gaeaf o drochyddion mawr yng Nghymru yn cael ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, y bylchau tystiolaeth presennol ar gyfer y rhywogaeth hon (yn enwedig mewn perthynas â sensitifrwydd i aflonyddwch) yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i ddefnydd uwch o'r ardal forol hon ar gyfer datblygiad.

Llygredd morol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod adar sy'n trochi'n arbennig o agored i gael eu heffeithio gan ollyngiadau olew oherwydd faint o amser y mae'r rhywogaethau hyn yn ei dreulio mewn cysylltiad ag arwyneb y dwr, ynghyd â'u cyfradd atgenhedlu isel a fydd yn arwain at adferiad araf ar ôl digwyddiadau trychinebus. Roedd wyth o drochyddion mawr ymhlith y rhai a anafwyd yn arllwysiad olew'r Sea Empress yn 1996 oddi ar Aberdaugleddau, a gallai hynny fod wedi bod yn gyfran uchel iawn o'r boblogaeth oedd yn bwrw'r gaeaf yng Nghymru ar y pryd. Cafwyd y marwolaethau mwyaf a gofnodwyd yn ymwneud ag olew ymysg trochyddion mawr yn Ewrop yn dilyn arllwysiad Erika ym mis Rhagfyr 1999 oddi ar arfordir Llydaw pan oedd o leiaf 248 o drochyddion mawr ymhlith 402 o drochyddion oedd wedi eu gorchuddio ag olew.

Aflonyddwch dynol

Yn gyffredinol, mae trochyddion yn osgoi ardaloedd sydd â dwyster llongau uchel ac maen nhw'n dangos y pellteroedd dianc hiraf a'r cyfrannau uchaf o unigolion sy'n dianc o'u cymharu â phob rhywogaeth arall o adar y môr. Mae tystiolaeth sylweddol yn awgrymu bod trochyddion yn cael eu dadleoli'n eang gan ffermydd gwynt ar y môr.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Digonedd a dosbarthiad trochyddion mawr oddi ar arfordiroedd Cymru a'r DU ehangach yn ystod cyfnodau mudo a'r gaeaf.
- ◆ Gwybodaeth am boblogaeth ffynhonnell yr adar sy'n bwrw'r gaeaf yn nyfroedd Cymru.
- ◆ Pellteroedd cychwyn hedfan ac osgoi penodol-i-rywogaethau ar gyfer trochyddion mawr mewn ymateb i longau, aflonyddwch a seilwaith. Mae'r rhan fwyaf o lenyddiaeth yn defnyddio gwybodaeth ddirprwyol am drochyddion gyddfgoch pan mae awgrymiadau bod trochyddion mawr yn llai sensitif i gychod a seilwaith morol.
- ◆ Y lefelau presennol o halogiad hydrocarbon mewn trochyddion mawr oddi ar arfordir Cymru.

Cyfleoedd

- ◆ Arolygon o ddigonedd a dosbarthiad tymhorol mewn trochyddion mawr ar y môr, e.e. trwy arolygon awyrol digidol pwrpasol a thelemetreg
- ◆ Meintioli sensitifrwydd trochyddion mawr i aflonyddwch o longau a seilwaith.

PEDRYN DRYCIN (European Storm Petrel)

(*Hydrobates pelagicus*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Yng Nghymru, mae pedrynnod drycin yn bridio ar chwe ynys oddi ar arfordir Sir Benfro: Sgogwm, Sgomer, Carreg Rhoson, North Bishop, Ynys Gwales ac Ynys Dewi. Mae yna hefyd boblogaeth fridio ar Ynys Enlli. Mae dros 80% o boblogaeth Cymru yn bridio ar Sgogwm.

Maent yn nythu mewn agennau creigiog, waliau cerrig ac mewn tyllau, yn chwilota ar y môr yn ystod y dydd ac yn dychwelyd i'r tir yn y nos. Mae pedrynnod drycin yn fwydwr ar yr arwyneb, yn cymryd pysgod, môr-lewys a chramenogion a gallant blymio hyd at 2 fetr. Maen nhw'n treulio'r gaeaf yn Ne'r Iwerydd.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae'r pedrynnod drycin wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac yn y DU (BoCC5). Y rheswm am y statws cadwraeth ambr yng Nghymru a'r DU yw bod nifer y cytrefi'n gyfyngedig o'i gymharu â maint y boblogaeth. Ystyrir bod y pedrynnod drycin yn y categori pryder lleiaf ar restrau cochion IUCN Ewropeaidd a byd-eang.

cyfanswm eu poblogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 11% rhwng 2000 a 2021, a chofnodwyd 2,644 o safleoedd yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio yn arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 2,943 o safleoedd o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Mae poblogaethau pedrynnod drycin y DU hefyd wedi cynyddu 41% o 26,647 i 37,655 o safleoedd yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio dros y cyfnod hwn.

ddarganfuwyd Ffliw Adar mewn pedrynnod drycin ac fe'u hystyrir yn risg isel oherwydd eu hecolleg bridio a fforio.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Mae ymddygiad nosol ac arferion nythu pedrynnod drycin wedi eu gwneud nhw'n anodd eu monitro yn y gorffennol. Ar droad yr 20fed ganrif, yr unig safle bridio hysbys oedd ar Sgomer. Yn 1946, credwyd bod 30 o barau yn nythu yno. Cadarnhawyd bridio ar Enlli ym 1926 a darganfuwyd cytref Sgogwm ym 1931. Adroddwyd bod tri phâr yn bridio ar safle ym Môn ym 1966. Adroddwyd am fridio hanesyddol hefyd o Green Scar, Stack Rocks ac Ynys Santes Margaret, er nad oedd statws y poblogaethau hyn yn hysbys. Gwyddys hefyd eu bod yn bridio ar Middleholm tan o leiaf 1994. Amcangyfrifodd arolwg Operation Seafarer yn 1969-70 fod poblogaeth Cymru yn 5,100 -7,100 o barau, ond mae hyn bellach yn cael ei ystyried yn oramcangyfrif. Cyfrifiad Adar y Môr 2000 oedd y cyntaf i ddisgrifio statws y rhywogaeth hon yn bendant yng Nghymru, fodd bynnag, ni ellir ei gymharu'n uniongyrchol â Chyfrifiad Adar y Môr 2015 -21 oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg ac, felly, wahaniaeth yn nibynadwyedd yr amcangyfrifon poblogaeth. Rhwng y ddau gyfrif, mae'n ymddangos bod y niferoedd wedi cynyddu ar bum ynys ac wedi gostwng ar ddwy: Ynys Dewi (102 i 7 o safleoedd yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio) a Sgogwm (2,450 i 1,910 o safleoedd yr ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio) ond fel y soniwyd uchod, efallai na ellir cymharu'r cyfrifiadau ar gyfer yr olaf.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol

Mae pedrynnod drycin yn nodwedd ddynodedig o Sgomer, Sgogwm a'r moroedd oddi ar ardal gwarchodedig arbennig Sir Benfro. Mae saith cytref bridio hysbys yng Nghymru, oll ar ynysydd alltraeth. Mae traethau Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd yn ardaloedd bwydo pwysig ar gyfer y rhywogaeth hon.

Mae llygredd golau o ddatblygiadau olew a nwy a seilwaith morol arall yn bryder i'r rhywogaeth hon oherwydd gallent fod yn agored i niwed o'r cynnydd mewn goleuadau o fewn yr amgylchedd morol fel goleuadau ar dyrbinau ffermydd gwynt.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Porthladdoedd a charthu (G)



Llongau (G)



Olew a Nwy (A)



Pysgota (G)



Hamdden (G)




Dyframaethu (G)



Gwynt ar y Môr (A)

Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Credir bod y poblogaethau o bedrynnod drycin yng Nghymru wedi cynyddu rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 a Chyfrifiad Adar y Môr 2021. Er gwaethaf hyn, gall pedrynnod drycin fod mewn perygl o ddatblygiadau seilwaith morwrol a dangoswyd bod y rhywogaeth hon yn colli ei ffordd oherwydd goleuadau fel fflamau sy'n gysylltiedig â gosodiadau olew a nwy. Nid oes dealltwriaeth dda o effaith ffermydd gwynt ar y môr ar y rhywogaeth hon.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae'r sgôr sensitifrwydd wedi ei phenderfynu gan faint bach y boblogaeth o'r rhywogaeth hon yng Nghymru a'i sensitifrwydd i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a'r newid yn yr hinsawdd. Felly, dyma'r sensitifrwydd i newid a ragwelir os na chaiff y risgiau hyn eu lliniaru.

Sbwriel

Mae adar môr sy'n fforio ar wyneb y dwr neu'n agos ato yn debygol o amlyncu gwastraff plastig, ei fwydo i'w cywion a gallant hefyd gael eu dal mewn offer pysgota sydd wedi ei adael. Ceir cofnodion o bedrynnod drycin yn amlyncu sbwriel, gan gynnwys macroblastig o astudiaethau mewn sawl gwlad.

Llygredd golau

Mae adar ifanc yr adar môr sy'n nythu mewn tyllau, ac i raddau llai yr oedolion, yn cael eu denu at olau artiffisial a gallant gael eu daearu ganddynt pan fyddant yn hedfan yn y nos. Yn St Kilda, denwyd y ddwy rywogaeth fridio o bedrynnod drycin (pedrynnod cynffon-fforchog a'r pedrynnod drycin) at oleuadau artiffisial. Pan arbrofwyd drwy ostwng allyriadau golau, cafodd llai o adar eu denu at y goleuadau.

Ysglyfaethu

Yng Nghymru, dim ond ar ynysoedd rhydd rhag llygod mawr y mae pedrynnod drycin yn bridio, ond mae risg o gyflwyno ysglyfaethwyr mamalaidd yn ddamweiniol, a gall aflonyddwch dynol gynyddu marwolaethau cywion. Mae pedrynnod drycin hefyd yn agored i ysglyfaethwyr adar gan gynnwys tylluanod, gwyllanod a sgiwennod.

Newid Hinsawdd

Rhestrwyd pedrynnod drycin fel rhywogaeth sy'n agored i niwed oherwydd y newid hinsawdd fel rhan o adolygiad byd-eang ond nid yw'r effeithiau'n hysbys o hyd. Mae'n bosibl y bydd newid yn yr hinsawdd yn achosi newid mewn amrediad ar gyfer y rhywogaeth hon.

Bylchau yn y dystiolaeth

- ◆ Nid oes unrhyw astudiaethau eto wedi darparu mesur o lygredd plastig yn nyfroedd Cymru nac effaith llygredd plastig ar bedrynnod drycin yng Nghymru.
- ◆ Gwell dealltwriaeth o oroesiad oedolion, cynhyrchiant, ffenoleg, a dewis ysglyfaeth mewn gwahanol gytreffi yng Nghymru.
- ◆ Nododd adolygiad diweddar o fygythiadau byd-eang i adar môr fod newid yn yr hinsawdd yn fygythiad i bedrynnod drycin, ond nid yw ei effeithiau posibl ar y rhywogaeth hon yn hysbys iawn.
- ◆ Dealltwriaeth o nifer y pedrynnod drycin mewn ardaloedd a gynigiwyd ar gyfer ffermydd gwynt arnofiol Rownd 5 i dde-orllewin Sir Benfro.

Cyfleoedd

- Gall astudiaethau cyfansoddiad deiet ar gytreffi yng Nghymru, yn ogystal ag astudiaethau tagio, fod yn ddefnyddiol i bennu patrymau chwilota ac asesu sut y gall newidiadau mewn digonedd a dosbarthiad ysglyfaeth oherwydd newid yn yr hinsawdd effeithio ar y poblogaethau hyn.
- Denu pedrynnod drycin i greu cytreffi ar ynysoedd heb lygod mawr y gwyddys yn hanesyddol eu bod yn dal cytreffi gan ddefnyddio safleoedd nythu artiffisial, y gwyddys eu bod yn gweithio ar Sgogwm. Gall blychau nythu artiffisial hefyd fod o fudd i gytreffi ynysoedd presennol.

ADERYN DRYCIN Y GRAIG (Northern Fulmar)

(*Fulmarus glacialis*)



Poblogaeth ac Ecoleg

Lleoliad

Mae adar drycin y graig yn bridio ar hyd arfordir Cymru bron i gyd, o Sir y Fflint i Ddwyrain Morgannwg. Mae'r cytrefi mwyaf ar ynysoedd Sgomer, Dewi a Sgogwm. Maent yn nythu yn bennaf mewn crafiadau bach ar wynebaw'r clogwyni ar yr arfordir a hefyd ychydig bellter i mewn i'r tir. Maent hefyd yn nythu mewn chwareli segur yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Yn y gaeaf, mae adar drycin y graig yn eigionol yn bennaf, ac maent yn teithio allan ymhell ar draws Gogledd yr Iwerydd.

Eu Statws Poblogaeth Presennol

Mae adar drycin y graig wedi'u rhestru'n ambr yn yr Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru (BoCCW4) ac yn y DU (BoCC5) oherwydd dirywiad cymedrol yn y boblogaeth a'u statws Ewropeaidd fel aderyn sy'n agored i niwed. Ystyrir bod y boblogaeth fyd-eang ar y pryder isaf ar restr goch IUCN.

Gostyngodd poblogaeth Cymru o adar drycin y graig 27% rhwng 2000 a 2021 a chofnodwyd 3,418 o safleoedd yr ymddengys eu bod yn eu defnyddio yn ystod arolwg Adar y Môr 2000. Cofnodwyd 2,494 o safleoedd o'r fath yn y Cyfrifiad Adar y Môr diweddar (2015 -2021). Hefyd, gostyngodd poblogaeth adar drycin y graig y DU 37%, o 503,670 i 319,508 o safleoedd yr ymddengys eu bod yn eu defnyddio.

Nid yw'n hysbys a yw adar drycin y graig wedi dioddef marwolaethau sylweddol o Ffliw Adar.

Tueddiadau'r Boblogaeth yn Hanesyddol

Dechreuodd ehangiad y boblogaeth o adar drycin y graig o'r Arctig tua'r de yng nghanol y 18fed ganrif, a pharhaodd hyn tan y 1980au. Efallai mai'r rheswm am hyn oedd bod mwy o fwyd ar gael oherwydd morfila, pysgodfeydd masnachol a thymheredd y môr yn cynyddu, yn ogystal â llai o bwysau gan bobl yn hela. Cyrhaeddodd adar drycin y graig yn Sir Benfro am y tro cyntaf yn 1930 ac fe'u gwelwyd yn ystod y tymor bridio mewn llawer o leoliadau arfordirol yn fuan wedyn. Digwyddodd y bridio cyntaf a gadarnhawyd yn 1940 yn Flimston, Sir Benfro. Daeth adar drycin y graig i gytrefu yng Ngheredigion a Sir Gaernarfon yn y 1940au a pharhaodd ymestyniad ardal yr adar hyn ar hyd arfordir y de i Ddwyrain Morgannwg ar ddiwedd y 1980au.

Cynyddodd poblogaeth Cymru yn gyflym hyd ddiwedd y 1980au ond arafodd erbyn canol y 1990au cyn iddi ddechrau dirywio. Credir bod hyn wedi cael ei achosi gan ostyngiad mewn argaeledd bwyd oherwydd arferion pysgota sy'n newid (h.y. gwahardd dychwelyd pysgod i'r môr) a newidiadau yn nosbarthiad y copepodau a llymriod oherwydd newid yn yr hinsawdd.

Ardaloedd a ddefnyddir a gweithgarwch dynol


Nid yw adar drycin y graig yn nodwedd ddynodedig o unrhyw AGA neu SoDdGA yng Nghymru er y disgwylir iddynt fod yn rhan o gasgliad yr adar bridio a ddiogelir o fewn SoDdGA clogwyni a thwyni Castellmartin. Mae'r cytrefi mwyaf yng Nghymru ar Sgomer a Sgogwm ac yn y moroedd oddi ar ardal gwarchoddedig arbennig Sir Benfro.

O ystyried eu hystod chwilota eang, eu hymddygiad wrth fwydo ar yr wyneb a'r ffaith eu bod yn osgoi ffermydd gwynt ar y môr, ystyrir mai pysgota masnachol yw'r prif risg i adar drycin y graig yn nyfroedd Cymru.

Gweithgareddau mewn ardaloedd a ddefnyddir



Coch (R) = sensitifrwydd uchel, Ambr (A) = sensitifrwydd cymedrol, Gwyrdd (G) = sensitifrwydd isel



Statws yr Effaith Gyfredol: **Ambr**

Mae poblogaethau o adar drycin y graig yng Nghymru wedi gweld dirywiad amlwg rhwng Arolwg Adar y Môr 2000 ac arolwg Cyfrifiad Adar y Môr 2021. Hefyd, gall yr achosion diweddar o Ffliw Adar fod wedi effeithio ar gytrefi yng Nghymru. Nid yw maint y pwysau hwn wedi cael ei fesur ar gyfer adar drycin y graig yng Nghymru hyd yn hyn.

Sgôr sensitifrwydd: **Ambr**

Mae'r sgôr sensitifrwydd ar gyfer poblogaethau adar drycin y graig yng Nghymru wedi ei phenderfynu gan sensitifrwydd y rhywogaeth i fygythiadau allweddol sydd wedi rhoi pwysau ar y rhywogaeth hon yn hanesyddol, yn ogystal â risgiau a ragwelir yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r ardal forol ar gyfer datblygiad a hefyd y newid yn yr hinsawdd.

Sgil-ddalffa

Mae wedi bod yn hysbys ers amser maith fod sgil-ddalffa'n ffactor pwysig sy'n effeithio ar boblogaethau adar drycin y graig. Gallai ei effaith ar gyfraddau goroesi oedolion, sydd wedi bod yn gostwng ers y 1970au, fod yn sylweddol. Yn ôl un amcangyfrif, mae rhwng 1,000 a 2,000 o unigolion yn cael eu colli oherwydd sgil-ddaliad yn y DU bob blwyddyn. Dywedir mai adar drycin y graig yw'r ail rywogaeth mwyaf niferus i gael eu dal mewn sgil-ddaliad ym mhysgodfeydd leiniau hir lwerddon a'r rhywogaeth mwyaf cyffredin mewn sgil-ddalfeydd yn Norwy, Gwlad yr Iâ a'r Ffaröe. Gall cyfanswm marwolaethau blynyddol adar drycin y graig mewn sgil-ddalfeydd yng Ngogledd yr Iwerydd fod yn 50,000 i 100,000 o unigolion. Mae adar drycin y graig yn chwilota dros ardaloedd mawr ac mae'n bosibl y gall adar drycin y graig Cymru gael eu heffeithio gan ddigwyddiadau dros y ffiniau.

Sbwriel

Am eu bod yn bwydo ar wyneb y dwr, mae adar drycin y graig yn debygol o amlyncu plastig a'i fwydo i'w cywion, gallant hefyd gael eu dal mewn offer pysgota sydd wedi ei adael. Mae nifer o astudiaethau wedi canfod bod cyfraddau amlyncu plastig mewn gwahanol boblogaethau o adar drycin y graig yn amrywio o 70% i 93% o unigolion, ac mae poblogaethau Cymru'n debygol o gael eu heffeithio.

Ysglyfaethu

